Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

# Cyllideb Ddrafft 2022-23

Cyllideb i adeiladu Cymru gryfach, tecach a gwyrdd

Rhagfyr 2021

llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2021 WG4060 ISBN digidol 978-1-80391-373-5

## Tabl Cynnwys


Rhagair gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ii

Pennod 1: Y cyd-destun strategol 1

Pennod 2: Y cyd-destun ariannol ac economaidd 3

Pennod 3: Trefniadau cyllido 5

Pennod 4: Buddsoddi ym mlaenoriaethau ein Llywodraeth 14

Pennod 5: Cynlluniau gwario Llywodraeth Cymru 35

Atodiad A: Mapio Dyraniadau'r Gyllideb Gyfalaf i Feysydd Buddsoddi a Sectorau 45

Atodiad B: Cysoni'r gyllideb weinyddol a'r dyraniadau adnoddau yn nghynnig y Gyllideb flynyddol 53

Atodiad C: Newidiadau o flwyddyn i flwyddyn 56

Atodiad D: Asesiad Effaith Integredig Strategol 62

Atodiad E: Gwybodaeth dechnegol 79

Atodiad F: Cynllun Gwella'r Gyllideb 80

Atodiad G: Costau gweithredu deddfwriaeth 81

Atodiad H: Rhestr o dermau technegol 86

# Rhagair gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

**Mae hon yn adeg dyngedfennol yn hanes ein cenedl.**

Wrth inni barhau i ymateb i'r pandemig a chymryd y camau hanfodol sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur, bydd y camau a gymerwn yn awr, nid yn unig yn cefnogi Cymru heddiw, ond yn y bôn, yn llywio Cymru yfory – y Gymru y byddwn yn ei gadael i genedlaethau'r dyfodol.

Mae wynebu ansicrwydd ac amgylchiadau na welwyd mo'u tebyg erioed o'r blaen yn parhau'n drefn arferol, yn anffodus. Ein tasg fel llywodraeth yw defnyddio pob dull sydd ar gael inni i sicrhau bod y dyfodol yn gryfach, yn decach, ac yn wyrddach nag yr oedd o'r blaen.

Dyna pam yr wyf yn falch fy mod heddiw yn cyhoeddi ein Cyllideb ddrafft ar gyfer 2022-23 a'r Gyllideb amlflwyddyn gyntaf i Gymru ers 2017, sy'n gosod y gwaith o adeiladu'r dyfodol hwnnw wrth ei chalon. Dyma Gyllideb sydd wedi'i llywio gan yr egwyddorion y cawsom ein hethol arnynt.

Ac eto, ar yr union adeg yr ydym yn barod i symud Cymru ymlaen, rhaid inni wneud hynny gyda chyllid cyfyngedig. Er ein bod yn croesawu'r setliad amlflwyddyn, o ganlyniad i Adolygiad o Wariant y DU, nid yw'n gwneud fawr ddim i ddadwneud degawd o gyni. Yn wyneb chwyddiant yn codi i bron i bump y cant, unwaith eto, mae llywodraeth y DU wedi anwybyddu anghenion pobl Cymru.

Rhwng 2022-23 a 2024-25, mae cyllid adnoddau Llywodraeth Cymru yn cynyddu lai na hanner y cant mewn termau real. Mae'r cyllid cyfalaf cyffredinol yn gostwng mewn termau arian parod ym mhob un o flynyddoedd cyfnod yr Adolygiad o Wariant ac mae 11 y cant yn is yn 2024-25 nag yn y flwyddyn bresennol. Bydd cyllideb Llywodraeth Cymru yn 2024-25 bron i £3bn yn is na phe bai wedi cynyddu yn unol â'r economi ers 2010-11. Mae hyn yn cyflwyno heriau sylweddol inni.

Rydym hefyd yn wynebu llywodraeth y DU sydd wedi torri ei haddewidion i bobl Cymru. Fel cenedl, rydym yn wynebu colli cyllid yr UE, gan effeithio ar fusnesau, prentisiaethau a chymunedau ledled Cymru. O dan Gronfa Adfywio Cymunedol llywodraeth y DU, £46m yn unig y bydd Cymru yn ei gael eleni, o'i gymharu ag o leiaf £375m y byddem wedi'i gael gan Gronfeydd Strwythurol yr UE o fis Ionawr 2021. Yn wyneb yr argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur sy'n effeithio ar ein cymunedau, mae llywodraeth y DU wedi cefnu ar waddol diwydiannol y pyllau glo sy'n perthyn i gyfnod cyn datganoli. Yn hytrach, drwy Ddeddf Marchnad Fewnol y DU, rydym yn wynebu ymosodiad ar ddatganoli a phwerau a chyllid yn cael eu cymryd yn ôl – sy'n wahanol iawn i'r rhethreg o godi'r gwastad a diogelu'r Undeb.

Er gwaethaf yr amgylchiadau hyn, byddwn yn gweithredu ein Rhaglen Lywodraethu uchelgeisiol ac yn ymateb i'r heriau yr ydym yn eu hwynebu mewn ffordd sy'n seiliedig ar werthoedd Cymru o gyfiawnder economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Rydym wedi bod yn glir erioed nad gennym ni yn unig y mae syniadau da, ac rydym wedi cydnabod bod yr amgylchiadau yr ydym yn eu hwynebu yn galw am ddull gwahanol. Yng Nghymru, rydym wedi rhoi cydweithio wrth wraidd ein dull ac wedi llunio Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru – a gellir gweld blaenoriaethau'r cytundeb hwnnw yn glir yn y Gyllideb hon.

Rydym hefyd wedi gwrando ar syniadau o bob rhan o fywyd cyhoeddus yng Nghymru. Wrth baratoi'r Gyllideb hon, rydym wedi gwrando ar syniadau gan Lywodraeth Leol, ein comisiynwyr statudol, Aelodau o'r Senedd, a'n partneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus, y byd busnes, yr undebau llafur, ac yn y trydydd sector. Drwy'r blaenoriaethau cyfunol hyn, credwn fod gennym yn awr Gyllideb a all fod yn sylfaen i'r Gymru gryfach, decach, a gwyrddach yr ydym am ei hadeiladu.

Er bod pawb ohonom yn parhau'n obeithiol, er gwaethaf ymddangosiad amrywiolion newydd o'r coronafeirws, ein bod ar y llwybr hir tuag at adferiad yn dilyn y pandemig, ni ddylem ddad-wneud yr ymdrechion a'r aberthau cyfunol sydd wedi ein rhoi ar y llwybr hwn. Mae'n rhaid inni fod yn wyliadwrus o hyd yn wyneb yr amrywiolion newydd hyn.

Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gadw at y llwybr tuag at adferiad, gan sicrhau bod y Gymru gryfach sy'n deillio o'r pandemig yn parhau i osod cydraddoldeb wrth ei chalon. Dros y tair blynedd nesaf, byddwn yn parhau i ddiogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau cyhoeddus, sy'n rhan mor flaenllaw o'n hymateb ac yn darparu ar gyfer pobl a chymunedau sy'n agored i niwed ledled ein gwlad.

Byddwn yn buddsoddi bron i £1.3bn yn ychwanegol yn uniongyrchol yn ein GIG yng Nghymru i ddarparu gofal iechyd effeithiol a chynaliadwy o ansawdd uchel, a helpu i adfer o effeithiau'r pandemig.

Byddwn yn cefnogi ein hawdurdodau lleol drwy bron i £0.75bn o fuddsoddiad uniongyrchol ychwanegol yn y setliad Llywodraeth Leol, gan ddarparu cyllid i ysgolion, gofal cymdeithasol a'r gwasanaethau hanfodol eraill er mwyn cefnogi ein huchelgeisiau.

Rydym wedi ymrwymo i flaenoriaethu gofal cymdeithasol. Yn ogystal â'r buddsoddiad uchod, byddwn yn darparu £60m o fuddsoddiad uniongyrchol ychwanegol i fwrw ymlaen â diwygiadau ehangach i'r sector a'i roi ar sylfaen hirdymor gynaliadwy. Yn 2022-23 yn unig rydym yn darparu dros £250m yn ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys £180m o gyllid a ddarparwyd o fewn y setliad Llywodraeth Leol, buddsoddiad uniongyrchol o £45m ynghyd â £50m o gyfalaf gofal cymdeithasol ychwanegol o'i gymharu â 2021-22.

Mae'r pandemig wedi effeithio ar ein hiechyd corfforol, ac wedi creu argyfwng iechyd meddwl. Yn ogystal â'r buddsoddiad uniongyrchol yn y GIG, byddwn yn buddsoddi £100m yn ychwanegol wedi'i dargedu at iechyd meddwl, gan gynnwys cyllid yn ychwanegol i'r cyllid i GIG Cymru a amlinellir uchod a mwy na £10m ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gydnabod risgiau'r effeithiau parhaol a hirdymor a deimlir gan ein pobl ifanc yng Nghymru.

Yn wyneb y pandemig ac effeithiau parhaus y DU yn ymadael â'r UE, byddwn yn adeiladu economi gryfach a gwyrddach ac yn datgarboneiddio cymaint â phosibl. Mae hyn yn cynnwys darparu rhyddhad ardrethi annomestig pellach gwerth dros £110m i fusnesau yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch.

Gan gydnabod yr angen i hyrwyddo Cymru gryfach sydd hefyd yn gwerthfawrogi ein treftadaeth a'n diwylliant cyfoethog, rydym hefyd yn gwneud £26m o fuddsoddiadau refeniw penodol yn ein hiaith a'n diwylliant Cymreig mewn meysydd o flaenoriaethau cyffredin â Phlaid Cymru, gan gynnwys £4m yn ychwanegol ar gyfer Arfor, ac £8m yn ychwanegol i ehangu rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Ni allwn, ac ni fyddwn, yn anwybyddu'r effaith ddinistriol y mae'r pandemig yn parhau i'w chael ar bobl Cymru. Nid yw wedi effeithio ar bobl yn gyfartal nac yn deg.

Mae buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar ac mewn addysg yn parhau i fod yn un o'n dulliau mwyaf pwerus ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, ymgorffori trefniadau atal a buddsoddi yn ein cenedlaethau i ddod. Mae'r Gyllideb hon yn cynnwys £320m yn ychwanegol tan 2024-25 i barhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi. Mae hyn yn cynnwys £30m yn ychwanegol ar gyfer gofal plant a darpariaeth y blynyddoedd cynnar; £40m ar gyfer Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf; £90m ar gyfer prydau ysgol am ddim; £64.5m ar gyfer diwygio ysgolion a'r cwricwlwm yn ehangach; a £63.5m o fuddsoddiad mewn darpariaeth ôl-16.

Rydym yn wlad wedi'i seilio ar dreftadaeth gyfoethog ac amrywiol, yn ymestyn o wreiddiau a chadarnleoedd y Gymraeg a diwylliant Cymru, hyd at fod yn enghraifft ryngwladol o amlddiwylliannaeth. Byddwn yn parhau i ddathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math. Mae hyn yn cynnwys ein buddsoddiad radical o £10m mewn Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol; pecyn wedi'i dargedu o £12m i helpu i gyflawni ein blaenoriaethau o fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb; a £7m yn ychwanegol ar gyfer ein Cronfa Cymorth Dewisol i sicrhau bod cymorth ar gael i bobl pan fydd ei angen arnynt fwyaf.

Byddwn yn sicrhau Cymru decach sy'n gadael neb ar ôl. Byddwn yn adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol. Sgiliau a chymwysterau yw'r dylanwad unigol mwyaf ar siawns unigolyn o fod mewn gwaith ac ennill cyflog da, sy'n cynnig llwybr allan o dlodi ac yn diogelu yn ei erbyn. Byddwn yn buddsoddi £61m yn ychwanegol tan 2024-25 yn ein Gwarant i Bobl Ifanc a chymorth cyflogadwyedd, mewn darpariaeth prentisiaethau ac i ehangu ein Cyfrif Dysgu Personol sydd wedi bod wrth wraidd ein dull o gyllidebu ar sail rhyw.

Byddwn hefyd yn creu'r amodau i wneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt drwy becyn o fuddsoddiadau refeniw gwerth bron i £50m yn ychwanegol tan 2024-25.

Fel byd, rydym yn wynebu argyfwng hinsawdd ac argyfwng natur sy'n galw am ymateb brys a radical. Gall Cymru chwarae ei rhan i sicrhau dyfodol gwyrddach, a bydd yn gwneud hynny. Law yn llaw â chyhoeddi heddiw becyn o fuddsoddiadau refeniw gwerth dros £160m yn ychwanegol tan 2024-25, rwy'n gwireddu fy addewid i ddefnyddio Strategaeth Buddsoddi Seilwaith 10 mlynedd newydd Cymru i gryfhau'r cysylltiad rhwng seilwaith a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur. Drwy gynnal adolygiad cyllidebu o'r bôn - adolygiad 'sylfaen sero' - rwyf hefyd wedi cyhoeddi Cynllun Cyllid Seilwaith 3 blynedd newydd yn seiliedig ar £8bn o wariant cyfalaf i wneud y gorau o'n dulliau cyfalaf ar draws y llywodraeth gan gynnwys defnyddio ein £450m o bwerau benthyca cyfalaf i'r eithaf dros y cyfnod hwn o 3 blynedd.

Wrth wraidd y cynllun newydd hwn mae buddsoddiad wedi'i dargedu gwerth £1.8bn yn ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur gan gynnwys y goedwig genedlaethol, bioamrywiaeth, teithio llesol, datgarboneiddio tai, yr economi gylchol, ynni adnewyddadwy, a llifogydd. Yn wahanol i lywodraeth y DU, byddwn hefyd yn cefnogi ein cymunedau gyda buddsoddiad o £44.4m mewn diogelwch tomenni glo ac yn y gwaith o'u hadfer a'u haddasu at ddibenion eraill.

Law yn llaw â'r buddsoddiad sylweddol rydym yn ei wneud i ddatgarboneiddio tai, rydym yn buddsoddi bron i £1.6bn o gyfalaf yn ein blaenoriaethau tai ac adfywio, gan gynnwys £1bn mewn tai cymdeithasol a £375m ar gyfer diogelwch adeiladau. Ategir hyn gan bron i £30m o refeniw i gefnogi ein blaenoriaethau tai a digartrefedd.

Yn ogystal â'r buddsoddiad refeniw ychwanegol o £1.3bn, rydym hefyd yn buddsoddi cyfanswm o dros £1.3bn o gyllid cyfalaf i ddarparu gofal iechyd effeithiol a chynaliadwy o ansawdd uchel.

Rydym yn buddsoddi £1bn o gyfalaf mewn addysg, Dechrau'n Deg, gofal plant a darpariaeth y blynyddoedd cynnar gan gynnwys £900m yn ein rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.

Er mwyn adeiladu economi gryfach a gwyrddach, rydym yn buddsoddi dros £750m o gyfalaf mewn darpariaeth rheilffyrdd a bysiau gan gynnwys darparu Metro De Cymru.

Rydym yn buddsoddi £210m o gyfalaf i fwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, ac i alluogi twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu.

Rwyf hefyd yn defnyddio ein pwerau trethi datganoledig i helpu Cymru i adfer gan adeiladu ar y dull Cymreig, clir ac unigryw o ddatblygu a chyflawni polisi trethi.

Drwy ein Fframwaith Polisi Trethi[1] wedi'i ddiweddaru ynghyd â Chynllun Gwaith Polisi Trethi[2] newydd, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd, rydym wedi nodi sut y byddwn yn sicrhau bod ein pwerau trethi dros y pum mlynedd nesaf yn cael yr effaith fwyaf posibl. Drwy ddiwygio cyllid Llywodraeth Leol, rydym wedi ymrwymo i wneud trethi yn decach drwy ddiwygio'r dreth gyngor. Rydym hefyd yn parhau'n ymrwymedig i beidio â chodi Cyfraddau Treth Incwm Cymru cyhyd ag y bydd effeithiau economaidd y pandemig yn parhau.

Ar gyfer y trethi hynny sydd wedi'u datganoli'n llawn, y Dreth Trafodiadau Tir (LTT) a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT), byddwn yn sicrhau bod y rhain yn cyflawni ein huchelgeisiau polisi ehangach wrth gynhyrchu'r refeniw i gefnogi ein gwasanaethau cyhoeddus allweddol.

Er mwyn lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth gwastraff, byddaf yn cynyddu cyfraddau LDT yn unol â'r lefelau chwyddiant a ragwelir, sy'n gyson â dull lywodraeth y DU.

Er mwyn cefnogi ein buddsoddiad mewn tai cymdeithasol, byddaf yn cadw cyfraddau preswyl uwch LTT ar 4 pwynt canran. Yn ogystal â hyn, o ran y rôl y gallai cyfraddau uwch LTT ei chwarae wrth gyflawni ein hagenda ehangach i fynd i'r afael ag effaith y lefelau uchel o ail gartrefi a llety gwyliau mewn rhai rhannau o Gymru, rwy'n lansio ymgynghoriad heddiw. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn edrych ar yr ystyriaethau sy'n ymwneud ag amrywio cyfraddau LTT yn lleol ar gyfer prynu ail gartrefi a llety gwyliau.

Fel rhan o becyn drafft y Gyllideb, rwyf wedi darparu Cynllun Gwella'r Gyllideb wedi'i ddiweddaru, gan gynnal ein hymrwymiad i sicrhau tryloywder o ran gwella prosesau cyllidebu a threthu. Mae hyn yn cynnwys y diwygiadau yn ein prosesau cyllidebu cyfalaf sy'n sail i'r Strategaeth newydd ar gyfer Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, ehangu ein dull o gyllidebu ar sail rhyw a chreu Grŵp Cynghori gwell ar Wella Effaith y Gyllideb i'n helpu i fwrw ymlaen â'n diwygiadau.

Rwy'n falch o gyflwyno Cyllideb sy'n cyflawni ein gwerthoedd ac yn cyflawni ein haddewidion uchelgeisiol i bobl Cymru. Mae'r pecyn cyllid a amlinellir yma yn darparu'r sylfeini ar gyfer ein hadferiad ac yn ein symud ymlaen tuag at Gymru gryfach, decach a gwyrddach.

[1] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-11/diweddariad-fframwaith-polisi-trethi.pdf
[2] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-11/cynllun-gwaith-polisi-trethi-2021-i-2026.pdf

# Pennod 1: Y cyd-destun strategol

## Trosolwg

### Goblygiadau Cylch Gwario Llywodraeth y DU

1.01 Heddiw, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei Chyllideb ddrafft ar gyfer 2022-23 sy'n nodi cynlluniau gwario refeniw a chyfalaf cyffredinol ar gyfer 2022-23, ynghyd â dyraniadau arfaethedig ar gyfer 2023-24, a 2024-25.

1.02 Mae paratoadau'r Gyllideb yn parhau i gyflwyno cyfres benodol o heriau, gan adeiladu ar amgylchiadau digynsail y blynyddoedd diwethaf. Mae'r paratoadau hyn wedi'u llywio a'u heffeithio gan yr ymateb parhaus i bandemig COVID 19, sgil-effeithiau ymadawiad y DU â'r UE, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a'r angen dybryd i barhau i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur.

1.03 I gyd-fynd â hyn, rydym wedi wynebu anawsterau pellach, yn enwedig o ran y dewisiadau a wnaed gan lywodraeth y DU ynghylch y diffyg cyllid newydd yn lle'r £375m y flwyddyn o gyllid yr UE y byddai Llywodraeth Cymru wedi'i gael o fis Ionawr 2021. Ochr yn ochr â hyn, mae penderfyniad llywodraeth y DU i beidio â chydnabod yr anghenion ariannu sy'n ymwneud ag adfer tomenni glo a seilwaith rheoli ffiniau wedi ychwanegu pwysau pellach ac wedi effeithio'n negyddol ar setliad Llywodraeth Cymru.

1.04 Mae cael setliad amlflwyddyn ar gyfer y cyfnod rhwng 2022-23 a 2024-25 wedi ei gwneud yn bosibl darparu lefel o sicrwydd i bartneriaid nad oedd yn bosibl mewn blynyddoedd blaenorol, ond, er hynny, mae hyn yng nghyd-destun setliad amlflwyddyn heriol.

1.05 Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael, gan geisio cydbwyso anghenion parhaus o ran ymateb i'r pandemig ac effeithiau'r DU yn ymadael â'r UE, a bwrw ymlaen â newid tymor hwy ac ymateb i her yr argyfwng hinsawdd a natur.

1.06 Felly, mae'r Gyllideb hon yn canolbwyntio ar gefnogi llwybr Cymru tuag at adferiad, gan sicrhau **Cymru gryfach** sy'n deillio o'r pandemig ac sy'n parhau i osod cydraddoldeb wrth ei chalon. Nod y gyllideb hon yw sicrhau **Cymru decach** nad yw'n gadael neb ar ôl ac sy'n ceisio adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol. Fel byd sy'n wynebu argyfwng hinsawdd a natur, mae'n galw am ymateb brys a radical. Datblygwyd y Gyllideb hon hefyd i sicrhau **Cymru wyrddach**.

### Goblygiadau Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU

1.07 Roedd yr Adolygiad o Wariant yn darparu Terfyn Gwariant Adrannol Adnoddau Cymru (RDEL) ar gyfer pob un o'r 3 blynedd ariannol nesaf. Y terfynau yw £17,574m, £17,930m, a £18,301m ar gyfer 2022-24, 2023-24, a 2024-25 yn y drefn honno, cyn addasiadau i'r grant bloc. Yn ogystal, rydym wedi cael £257m, £320m, a £342m sydd y tu allan i Barnett ar gyfer cyllid i ffermydd a physgodfeydd dros y 3 blynedd.

1.08 Cyllideb adnoddau cyllidol gyffredinol Llywodraeth Cymru yn 2022-23, gan ystyried addasiadau i'r grant bloc a refeniw trethi datganoledig, yw £1.8bn, sy'n uwch na'r cyllid craidd yn 2021-22. Dilynir hyn gan dwf cymedrol iawn yn ail a thrydedd flwyddyn cyfnod y Gyllideb. Mae'n bwysig nodi nad yw'r cymariaethau hyn yn cynnwys cyllid COVID 19 yn y flwyddyn gyfredol (2021-22). Gan ystyried hynny, bydd cyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru £0.7bn yn is yn 2022-23 na'r flwyddyn gyfredol ac, mewn termau real, bydd yn parhau'n is drwy gydol cyfnod y Gyllideb.

1.09 Roedd yr Adolygiad o Wariant hefyd yn cynnwys cyfansymiau DEL Cyfalaf o £2,643m, £2,610m, a £2,594m ar gyfer yr un 3 blynedd. Mae'r cyfansymiau hynny'n cynnwys symiau wedi'u clustnodi o £265m, £96m, a £90m ar gyfer trafodiadau ariannol. Mae hyn yn darparu rhagolygon cyfyngedig ar gyfer cyfalaf gyda'r gyllideb yn is nag yn 2021-22 ym mhob blwyddyn o gyfnod yr Adolygiad o Wariant.

1.10 Er bod gan Lywodraeth Cymru bellach gyfansymiau cyllid cadarn ar gyfer y 3 blynedd nesaf ac yn nodi cynlluniau Cyllideb 3 blynedd yn y ddogfen hon, mae cryn ansicrwydd yn parhau o ran y blynyddoedd i ddod. Y pryder creiddiol o hyd yw trywydd y pandemig yn y dyfodol, yn ogystal â'i effeithiau cysylltiedig ar chwyddiant cyffredinol, safonau byw ac yn eu tro gwasanaethau cyhoeddus, gyda'r pwysau cyllidebol cysylltiedig y gallai'r ffactorau hyn eu creu. Mae costau ymateb i effeithiau newid hinsawdd, megis llifogydd, hefyd yn rhoi pwysau cynyddol ar wasanaethau cyhoeddus.

1.11 I gefnogi cynllunio ariannol y tu hwnt i'r cyfnod cyllidebol, mae Adroddiad y Prif Economegydd, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft, yn dadansoddi'r amcanestyniadau cyllidol tymor canolig i dymor hir a fydd yn helpu i gynllunio gwariant ar adnoddau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae manylion pellach y cyd-destun ariannol ac economaidd ar gyfer y Gyllideb ar gael ym Mhennod 2.

## Cyfrifoldebau cyllidol ac ariannu

1.12 Mae Llywodraeth Cymru'n cael ei hariannu'n bennaf gan grant bloc oddi wrth lywodraeth y DU. Er hynny, mae datganoli pwerau treth - cyfraddau Treth Incwm Cymru, y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a datganoli ariannol Ardrethi Annomestig - yn golygu y caiff rhyw 18 y cant o wariant Llywodraeth Cymru ei ariannu o refeniw trethi yn 2022-23.

1.13 Mae'r darlun ar y dudalen nesaf yn dangos ffynonellau cyllid Llywodraeth Cymru. Ceir gwybodaeth bellach am bolisi trethi a refeniw ym Mhennod 3.

1.14 Mae fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru'n nodi'r trefniadau sy'n cefnogi datganoli trethi, pwerau benthyca cyfalaf, offer rheoli cyllidebol, ac addasiad i Fformiwla Barnett a seilir ar anghenion.


## Y Gyllideb a'r Cytundeb Cydweithio

1.15 Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir erioed nad gennym ni yn unig y mae syniadau da, ac y bydd yn gweithio'n adeiladol gyda phartneriaid blaengar yn y Senedd lle mae gennym fuddiannau cyffredin a lle gall cydweithio fod o fudd i bobl Cymru, yn enwedig wrth i ni wynebu heriau sylweddol fel COVID 19 a'r argyfwng hinsawdd. Drwy'r Gyllideb hon rydym wedi rhoi'r ymrwymiad hwnnw i gydweithio ar waith ac mae wrth wraidd ein ffordd o weithio.

1.16 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Raglen Lywodraethu wedi'i diweddaru ym mis Rhagfyr, gan ymgorffori'r Cytundeb Cydweithio a wnaed gyda Phlaid Cymru. Mae'r gyllideb yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu hon, gan fwrw ymlaen â pholisïau radical a blaengar a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar bobl a'r amgylchedd yng Nghymru. Byddwn yn gweithio gyda Phlaid Cymru yn y meysydd hynny a gwmpesir gan y Cytundeb. Mae'r eitemau sy'n ymwneud â'r Cytundeb Cydweithio yn y Rhaglen Lywodraethu sydd wedi cael ei diweddaru wedi'u cynnwys ym Mhennod 4 ac yn y Cynllun Cyllid Seilwaith.

## Ffynonellau Cyllid

1.17 Mae'r ffeithlun isod yn rhoi manylion y cyllid a gafodd Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23. Mae 'Tabl 3.6 – Ffynonellau Cyllid' yn darparu data ar gyfer 2023-24 a 2024-25.



## Buddsoddi mewn Cyflawni'r Rhaglen Lywodraethu

1.18 Dyma Gyllideb gyntaf tymor y Senedd hon, ac fe'i datblygwyd i fod yn sail i'r ymrwymiadau a wnaed o fewn y Rhaglen Lywodraethu i adeiladu Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach. Fel yr amlinellir ym Mhennod 4, mae'r dyraniadau a geir yn y Gyllideb Ddrafft hon yn cyd-fynd ag amcanion llesiant Llywodraeth Cymru sy'n ganolog i'r Rhaglen Lywodraethu er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyllid sydd ar gael, gan gyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

1.19 Trwy greu **Cymru gryfach** sy'n symud ymlaen gyda'i gilydd, bydd y Llywodraeth Cymru hon yn sicrhau bod mynediad teg a chyfartal at wasanaethau, ac yn sicrhau bod y gwasanaethau hyn, sydd wedi'u darparu o dan amgylchiadau eithriadol, yn cael eu diogelu. Felly, mae'r gyllideb hon yn blaenoriaethu cyllid ar gyfer Iechyd, Gofal Cymdeithasol ac Awdurdodau Lleol sy'n parhau i fod ar flaen y gad yn y pandemig. Mae'r pandemig wedi effeithio ar bob un person yng Nghymru, boed hynny mewn perthynas â mynediad i ysbytai, mynediad i addysg, neu fynediad i wasanaethau cymdeithasol. Mae cyfle i fuddsoddi nawr fel bod y llwybr i adferiad – pryd bynnag y daw – yn un sy'n buddsoddi mewn pobl, gwasanaethau, seilwaith a chymorth busnes. Fel rhan o'r buddsoddiad hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn dangos sut y bydd cymorth effeithiol ar gyfer gwasanaethau allweddol yn creu mwy o gyfleoedd a gwell cyfleoedd, ar ôl y pandemig.

1.20 Er mwyn sicrhau **Cymru Decach** byddwn yn defnyddio'r egwyddorion sylfaenol hyn o degwch, wrth inni adeiladu economi a chymdeithas Cymru yn y dyfodol. Mae hwn yn gyfle i ailgydbwyso'r anghydraddoldebau sydd wedi dod i'r amlwg drwy'r pandemig hwn, ac yn anffodus, sydd wedi'u gwaethygu hefyd i ormod o bobl. Mae'n bwysicach fyth bod pobl Cymru yn gwybod bod eu llais yn cael ei glywed, ac yn gwybod eu bod yn cael eu diogelu drwy gydsefyll, boed hynny gartref yng Nghymru neu ar lwyfan rhyngwladol.

1.21 Byddwn hefyd yn gweithredu i greu **Cymru Wyrddach** drwy fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur drwy nid yn unig fuddsoddi mewn prosiectau a fydd yn ein helpu i gyrraedd ein targedau Sero Net uchelgeisiol, ond hefyd drwy ailasesu'r hyn a wnawn a sicrhau bod arferion da yn rhan annatod o'n holl weithgareddau. Mae hyn wedi ein harwain i gynnal adolygiad sylfaen sero o gyllidebau cyfalaf cyffredinol i greu Cynllun Cyllid Seilwaith 3 blynedd newydd sy'n ceisio cryfhau'r cysylltiad rhwng seilwaith a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur, wedi'i ategu gan £8bn o wariant cyfalaf.

## Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

1.22 Rydym yn parhau i fanteisio i'r eithaf ar ein portffolio presennol o fuddsoddiad cyfalaf Trafodiadau Ariannol, gan fuddsoddi dros £1.7bn mewn amrywiaeth fawr o brosiectau sy'n cefnogi ein sector busnes a thai, sydd o fudd i sawl rhan o'n cymdeithas a'n heconomi. Mae cyfran fawr o'r arian hwn yn parhau i gael ei fuddsoddi mewn benthyciadau tymor canolig i dymor hir a buddsoddiadau neu gynlluniau ecwiti lle darperir benthyciadau tymor byrrach, eu had-dalu ac yna eu hail-ddarparu i gefnogi busnesau eraill nifer o weithiau cyn i oes y cynllun ddod i ben.

1.23 Er bod ymarfer sylfaen sero wedi'i gynnal ar gyfer ein holl fuddsoddiadau cyfalaf arfaethedig wrth symud ymlaen, nid yw'r ymarfer hwnnw'n effeithio ar unrhyw un o'n penderfyniadau buddsoddi Trafodiadau Ariannol blaenorol, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu rheoli gan Fanc Datblygu Cymru. Rydym yn parhau'n ymrwymedig i sicrhau bod ein cynlluniau buddsoddi gwreiddiol ar gyfer yr arian hwnnw'n cael eu cynnal, ac y cedwir atynt wrth i'r arian barhau i gael ei fuddsoddi a'i ailfuddsoddi i'r eithaf yn y blynyddoedd i ddod. Yn ogystal â'r cyllid presennol hwn, rydym yn bwriadu gwneud dyraniadau pellach yn ein Cyllideb Derfynol ar gyfer 2022-23.

## Proses y gyllideb

1.24 Mae cyhoeddi Adolygiad Gwariant amlflwyddyn llywodraeth y DU ar 27 Hydref wedi cael effaith ar amseriad y Gyllideb eleni. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi trefniadau eithriadol ar waith mewn perthynas â phroses y Gyllideb eleni, a hynny gyda chytundeb Pwyllgor Busnes a Phwyllgor Cyllid y Senedd. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi gyda'i gilydd, ar 20 Rhagfyr, ddogfennau'r Gyllideb, gan gynnwys y cynlluniau gwario strategol ar gyfer refeniw a chyfalaf, trethiant a chynigion benthyca, yn ogystal â chynlluniau gwario manwl ar bortffolios.

1.25 Ar ôl i Senedd Cymru graffu ar y cynlluniau hyn, byddwn yn cyhoeddi'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2022-23 ar 1 Mawrth 2022.

# Pennod 2: Y cyd-destun ariannol ac economaidd

2.01 Ystyrir y rhagolygon economaidd a chyllidol yn fanylach yn Adroddiad y Prif Economegydd a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft hon.

2.02 Mae'r Adroddiad yn nodi bod yr economi yng Nghymru a'r DU wedi adfer yn weddol gryf o effeithiau'r pandemig. Dim ond ychydig yn brin o lefelau cyn y pandemig y mae'r amcangyfrifon cynnyrch domestig gros diweddaraf ar gyfer y DU yn nhrydydd chwarter 2021. Fodd bynnag, fel y nodwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) yn ei Rhagolwg Economaidd a Chyllidol diweddaraf ym mis Hydref, arafodd momentwm yn economi'r DU rywfaint dros yr haf ac mae data dilynol wedi bod yn gymysg. Er bod OBR yn disgwyl i'r adferiad barhau, mae ansicrwydd yn uchel o hyd gan na wyddys beth fydd cwrs y pandemig yn y dyfodol, ac mae potensial iddo barhau i darfu ar gadwyni cyflenwi ac i chwyddiant gynyddu.

2.03 Mae perfformiad y farchnad lafur yn ystod y pandemig wedi bod yn llawer gwell na'r disgwyl. Effeithiwyd ychydig yn llai ar lefelau cyflogaeth yng Nghymru nag ar draws y DU gyfan ac maent bellach yn uwch na lefelau cyn y pandemig. Mae diweithdra torfol wedi'i osgoi, diolch i raddau helaeth i'r cynlluniau cymorth enfawr a roddwyd ar waith gan lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Hyd yma, mae'r argyfwng hwn wedi arwain at yr uchafbwynt ôl-ddirwasgiad isaf o ran diweithdra ers 1975.

2.04 Fodd bynnag, mae rhai agweddau llai cadarnhaol ar sefyllfa'r farchnad lafur. Mae diweithdra hirdymor wedi cynyddu ac mae effeithiau niweidiol y pandemig yn debygol o arwain at incymau llai dros gyfnod estynedig. Yn ogystal, mae'n bosibl bod yr anfanteision sy’n wynebu llawer o grwpiau lleiafrifol, gan gynnwys pobl ag iechyd gwael neu anabledd, wedi cynyddu. Yn fwy cyffredinol, mae’n bosibl y bydd gwasgfa sylweddol ar safonau byw dros y blynyddoedd nesaf, yn sgil chwyddiant uwch (yn enwedig prisiau ynni), trethi uwch, a llai o fudd-daliadau i'r rhai na allant weithio.


2.05 Dros y tymor hwy, mae'r rhagolygon ar gyfer safonau byw ac ar gyfer cryfder y sylfaen drethi yn dibynnu ar adfywiad yng nghyfradd twf cynhyrchiant, sydd wedi bod yn hanesyddol wan ledled y DU ers tuag adeg yr argyfwng ariannol.

2.06 O ganlyniad i'r pandemig, roedd diffyg ariannol y DU yn 2020-21 yn 15 y cant o gynnyrch domestig gros, sy’n fwy nag y mae wedi bod ar unrhyw adeg arall mewn cyfnod o heddwch. Fodd bynnag, mae OBR yn disgwyl iddo ostwng tua 40 y cant yn y flwyddyn ariannol bresennol ac yna fwy na haneru eto yn 2022-23. Rhagwelir y bydd wedyn yn gostwng yn fwy graddol, gan gyrraedd ei lefel isaf mewn 25 mlynedd fel canran o gynnyrch domestig gros yn 2026-27.

2.07 O gymharu â rhagolwg OBR ym mis Mawrth, cyn unrhyw fesurau cyllidebol, mae benthyca mewn blynyddoedd i ddod wedi’i ostwng tua £35bn y flwyddyn. Ar ben hynny, mae llywodraeth y DU wedi cyhoeddi codiadau treth gwerth tua £15bn y flwyddyn, yr Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn bennaf, i ddarparu gwelliant cyllidol cyffredinol o £50bn y flwyddyn. Mae tua £30bn o’r ffigur hwnnw wedi mynd tuag at wariant adrannol uwch nag y cynlluniwyd ar ei gyfer yng nghyllideb llywodraeth y DU ym mis Mawrth.

2.08 Nododd llywodraeth y DU ei chynlluniau gwariant ar gyfer y tair blynedd nesaf yn ei Chyllideb a’i Hadolygiad o Wariant ym mis Hydref, gan alluogi Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Cyllideb ddrafft amlflwyddyn y tro hwn. O ganlyniad i'r gwariant dewisol ychwanegol a nodir uchod, mae sefyllfa Cyllideb Llywodraeth Cymru yn llai llwm na'r disgwyl. Fel y dangosir yn siart 2.1, ar ôl gostwng tua naw y cant yn ystod y degawd diwethaf, bydd y gyllideb adnoddau craidd fesul pen yn 2022-23 am y tro cyntaf yn uwch nag yn 2010-11 mewn termau real. Fodd bynnag, prin y mae’n tyfu yn 2023-24 a 2024-25. Mae'n werth nodi hefyd y bydd yn parhau'n sylweddol is na chyllideb y flwyddyn gyfredol ym mhob un o'r tair blynedd os cynhwysir cyllid COVID 19.

Siart 2.1 Cyllideb Adnoddau Llywodraeth Cymru mewn termau real fesul pen (£, prisiau 2021-22)




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

# Pennod 3: Trefniadau cyllido

## Trosolwg

3.01 Ariennir Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru drwy gyfuniad o grant bloc oddi wrth lywodraeth y DU a refeniw a gynhyrchir gan drethi yng Nghymru.

3.02 Cyflwynwyd y Dreth Trafodiadau Tir (LTT) a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT) ar 1 Ebrill 2018, ac maent yn cael eu casglu gan Awdurdod Cyllid Cymru. Cyflwynwyd Cyfraddau Treth Incwm Cymru (WRIT) ar 6 Ebrill 2019 ac maent yn cael eu casglu gan CThEM. Ar wahân, ym mis Ebrill 2015, disodlodd y datganoli ariannol yn achos ardrethi annomestig (NDR) y trefniadau blaenorol ar gyfer rheoli’r risgiau ariannol. Gyda'i gilydd, bydd WRIT, LTT, LDT ac NDR yn cyfrannu tua £3.9bn at Gyllideb Llywodraeth Cymru yn 2022-23, gan godi i £4.3bn yn 2024-25.

## Polisi trethi

3.03 Mae datganoli trethi yn bwysig. Mae trethi'n darparu offeryn hanfodol arall y gall Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio i gyflawni blaenoriaethau strategol pwysig i fusnesau a dinasyddion Cymru. Ategir dull Llywodraeth Cymru o ddatblygu polisi trethi gan y Fframwaith Polisi Trethi[3], sy'n nodi'r setliad datganoli cyllidol a sefydlwyd gan Ddeddfau Cymru 2014 a 2017. Mae'n adlewyrchu hanes hwy ein trethi lleol, gan amlinellu'n glir flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer trethi, ynghyd â'r heriau a'r cyfleoedd.

3.04 Cyhoeddwyd diweddariad i’r Fframwaith Polisi Trethi ym mis Tachwedd. Mae'r diweddariad hwn yn ystyried yr hyn sydd wedi’i ddysgu a phrofiadau o ran llunio polisi trethi ers datganoli trethi. Mae'n manteisio ar y cyfle i nodi a mynegi'r dull Cymreig o ddatblygu a chyflwyno polisi trethi ar y cyd, gan gynnwys rhanddeiliaid a phartneriaid. Mae'n nodi sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i ymgorffori ystyriaethau ynghylch cynaliadwyedd, tegwch a chydraddoldeb yn y ffordd yr ydym yn mynd i'r afael â'n blaenoriaethau.

3.05 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gwaith Polisi Trethi 2021-2026[4] ochr yn ochr â'r diweddariad i'r Fframwaith Polisi Trethi. Mae'r Cynllun Gwaith Polisi Trethi yn adeiladu ar ein hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu[5] mewn perthynas â threthi datganoledig a lleol, gan ategu’r nod o sicrhau trefn gref a sefydlog ar gyfer datganoli trethi. Mae'n rhoi cyfeiriad a sicrwydd clir mewn perthynas â blaenoriaethau polisi trethi Cymru ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae blaenoriaethau polisi trethi Llywodraeth Cymru yn perthyn yn fras i'r tri maes canlynol:

- Cyflawni amcanion strategol y Llywodraeth gan gynnwys ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.
- Y gwaith parhaus o adolygu polisïau a'u rhoi ar waith mewn perthynas â'n trethi presennol a meysydd polisi cysylltiedig eraill.
- Ffocws parhaus ar weithio gyda phartneriaid a dinasyddion er mwyn i'n dull Cymreig o ymdrin â threthi ymwreiddio, a chodi ymwybyddiaeth o drethi Cymru.

---

[3] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/fframwaith-polisi-trethi.pdf

[4] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-11/cynllun-gwaith-polisi-trethi-2021-i-2026.pdf


[5] https://llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu

3.06 Rhagwelir y bydd gweithgarwch pellach yn deillio o waith cwmpasu a gwaith archwiliadol arall gan gynnwys trafod â rhanddeiliaid a phartneriaid, fel rhan o'r broses o ddatblygu rhai o'r ffrydiau gwaith polisi trethi. Mae cyhoeddi'r cynllun gwaith pum mlynedd yn galluogi pawb sydd â diddordeb i ymgysylltu â'r agenda drethi yng Nghymru, gan sicrhau bod polisi trethi yma wedi'i seilio ar wybodaeth a thystiolaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal cynhadledd drethi flynyddol i ddarparu ffordd arall o ymgysylltu, addysgu a gwahodd cyfraniadau ar gyfer gwaith polisi trethi. Cynhaliwyd y gynhadledd drethi ddiwethaf fel digwyddiad rhithwir ar 3 Tachwedd 2021.

## Cyfraddau Treth Incwm Cymru (WRIT)

3.07 Cyflwynwyd Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar 6 Ebrill 2019. Mae treth incwm wedi'i datganoli'n rhannol i Gymru. Felly, er bod Llywodraeth Cymru yn gallu amrywio'r tair cyfradd treth incwm (sylfaenol, uwch ac ychwanegol) i drethdalwyr Cymreig, llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bob agwedd arall ar y dreth ac mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn parhau i weinyddu treth incwm yng Nghymru[6].

Siart 3.1: Cyfraddau treth incwm yng Nghymru, 2021-22




[6] Yn y rhan fwyaf o achosion, ystyr trethdalwyr Cymreig yw pobl sy'n byw yng Nghymru, ond mae diffiniad llawn wedi'i ddarparu yn adran 8 o Ddeddf Cymru 2014: https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/section/8/enacted

3.08 Mae'r broses i Gymru yn golygu bod llywodraeth y DU yn gostwng 10c ar bob un o'r tair cyfradd treth incwm i drethdalwyr Cymreig. Mae Llywodraeth Cymru wedyn yn penderfynu a yw am bennu cyfraddau Cymru ar 10c, gan gadw cydraddoldeb rhwng trethdalwyr Cymru a Lloegr, neu bennu cyfraddau gwahanol. Yn unol â’i hymrwymiad i beidio â chymryd mwy mewn Cyfraddau Treth Incwm Cymru oddi ar deuluoedd Cymru cyhyd ag y bydd effaith economaidd COVID 19 yn parhau, o leiaf, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gosod Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar gyfer 2022-23 ar 10c. Dangosir hyn yn Siart 3.1, sy'n dangos bod cyfradd gyfunol treth incwm y DU a Chymru ym mhob band yng Nghymru yr un fath â chyfradd dreth y DU yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

## Trethi Cymreig eraill

3.09 Mae’r Dreth Trafodiadau Tir (LTT) a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT) wedi’u datganoli’n llwyr i Gymru. Cyflwynwyd y ddwy dreth ar 1 Ebrill 2018 ac maent yn cael eu casglu a’u rheoli gan Awdurdod Cyllid Cymru. Mae LTT ac LDT yn darparu ysgogiadau pwysig y gall Llywodraeth Cymru, os yw'n briodol, eu defnyddio i gyflawni amcanion llywodraethol strategol eraill, megis mynd i'r afael ag effaith nifer yr ail gartrefi yng nghymunedau Cymru neu gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion amgylcheddol ehangach. Yn dâl am y refeniw trethi, mae grant bloc Cymru wedi'i ostwng yn ôl swm sy'n gyfwerth â'r hyn yr oedd trethi blaenorol y DU (treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi) yn ei godi yng Nghymru ar gyfer llywodraeth y DU. Mae’n hanfodol felly fod trethi Cymru yn cael eu gweithredu’n effeithlon ac yn effeithiol er mwyn cynhyrchu’r refeniw sydd ei angen i ariannu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol Cymru.

## Y Dreth Trafodiadau Tir (LTT)

3.10 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i archwilio sut y gallai newidiadau i gyfraddau uwch LTT helpu i roi mantais i bobl sy'n prynu cartrefi i'w meddiannu'n barhaol. Fel rhan o'r gweithgarwch hwn, rydym yn ymgynghori ar y materion sydd angen eu hystyried ynglŷn ag amrywio cyfraddau LTT yn lleol ar gyfer prynu ail gartrefi a llety gwyliau neu eiddo preswyl ychwanegol. Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am farn ar y mathau o ardaloedd lle y gellid amrywio cyfraddau (ar draws ardal awdurdod lleol, neu gymunedau mwy lleol), y mecanwaith i nodi'r ardaloedd lle y byddai cyfraddau'n amrywio a'r mathau o drafodion y dylai cyfraddau amrywiol lleol fod yn berthnasol iddynt.

3.11 Nid yw'r Gyllideb ddrafft hon yn cynnwys unrhyw newidiadau arfaethedig i'r cyfraddau LTT sydd wedi bod ar waith ers mis Gorffennaf 2021. Gan ddibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad, mae’n bosibl y bydd y cyfraddau preswyl uwch neu'r cyfraddau newydd ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau yn amrywio'n lleol.

3.12 Bydd LTT yn parhau i fod â'r trothwy cychwynnol uchaf ar gyfer y prif gyfraddau preswyl yn y DU, gyda’r mwyafrif o brynwyr cartrefi yng Nghymru naill ai'n talu'r un dreth neu lai o dreth o gymharu â'r rhagflaenydd, sef treth dir y dreth stamp. Bydd LTT hefyd yn parhau i fod â'r trothwy cychwynnol uchaf ar gyfer trafodion eiddo dibreswyl yn y DU.

Tabl 3.1: Prif gyfraddau preswyl LTT (27 Gorffennaf i 31 Mawrth 2021, gan gynnwys y dyddiadau hynny)

| Trothwy'r pris | Cyfradd LTT |
|---|---|
| £0 i £180,000 | 0% |
| Dros £180,000 i £250,000 | 3.5% |
| Dros £250,000 i £400,000 | 5% |
| Dros £400,000 i £750,000 | 7.5% |
| Dros £750,000 i £1.5m | 10% |
| Dros £1.5m | 12% |

3.13 Ar gyfer cyfraddau uwch trafodiadau eiddo preswyl, ychwanegir 4 y cant ar ben y brif gyfradd breswyl ym mhob band.

Tabl 3.2: Prif gyfraddau amhreswyl LTT

| Trothwy'r pris | Cyfradd LTT |
|---|---|
| £0 i £225,000 | 0% |
| Dros £225,000 i £250,000 | 1% |
| Dros £250,000 i £1m | 5% |
| Dros £1m | 6% |

Tabl 3.3: Cyfraddau rhenti les amhreswyl LTT

| Trothwy'r pris | Cyfradd LTT |
|---|---|
| £0 i £225,000 | 0% |
| Dros £225,000 i £2m | 1% |
| Dros £2m | 2% |

## Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT)

3.14 Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cynyddu'r cyfraddau LDT yn unol â chwyddiant mynegai prisiau manwerthu (RPI) a ragwelir, a hynny o 1 Ebrill 2022 ymlaen. Mae hyn yn parhau â'r polisi o gynnal cysondeb â dull llywodraeth y DU ar gyfer cyfraddau'r dreth dirlenwi a chynyddu cyfraddau yn unol â chwyddiant ar ddechrau pob blwyddyn ariannol. Mae dull Llywodraeth Cymru ar gyfer gosod y cyfraddau LDT yn cael ei adolygu bob blwyddyn fel rhan o'r broses flynyddol o bennu cyfraddau, pan ystyrir y manteision a'r anfanteision sydd ynghlwm wrth newid y cyfraddau yn y dyfodol er mwyn hyrwyddo amcanion amgylcheddol ehangach.

3.15 Mae Cymru yn arwain y ffordd o ran polisi gwastraff ac mae LDT yn elfen ychwanegol bwysig i gefnogi polisïau gwastraff Llywodraeth Cymru ac i gyflawni'r nod uchelgeisiol o Gymru ddiwastraff. Mae rhai rhanddeiliaid wedi dadlau dros gynyddu cyfradd is LDT i annog mwy o ailgylchu, ailddefnyddio ac adfer o ran y deunyddiau hyn, gan ddweud y gallai'r farchnad oddef gwahaniaeth bach mewn cyfraddau heb gynyddu'r risg o dwristiaeth gwastraff. Fodd bynnag, mae mwy o ansicrwydd ynghylch y rhagolygon tymor hwy ar gyfer gwastraff. Mae hyn o ganlyniad i newid mewn ymddygiad yn sgil y pandemig ac o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

3.16 Gyda rhanddeiliaid, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i archwilio cwmpas LDT yn y dyfodol er mwyn cyflawni amcanion amgylcheddol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae adolygiad annibynnol o LDT wedi'i gomisiynu ar gyfer 2022-23 er mwyn adolygu effeithiolrwydd y dreth. Dechreuodd y Cynllun Cymunedau LDT ym mis Ebrill 2018, wedi'i gefnogi gan y dyraniad o £1.5m y flwyddyn am bedair blynedd i gefnogi prosiectau amgylcheddol a chymunedol mewn ardaloedd y mae gwaredu gwastraff i safleoedd tirlenwi yn effeithio arnynt. Mae Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynllun gael ei adolygu. Dechreuodd yr adolygiad hwn ym mis Awst 2021 a disgwylir i adroddiad gael ei gyhoeddi erbyn gwanwyn 2022. Bydd canlyniad yr adolygiad o'r Cynllun Cymunedau LDT, ynghyd â'r adolygiad annibynnol o LDT, yn llywio uchelgeisiau yn y dyfodol ar gyfer polisi LDT.

3.17 Mae cyfraddau arfaethedig LDT, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, wedi'u nodi yn y tabl isod.

Tabl 3.4: Cyfraddau LDT, £ y dunnell.

| Trothwy'r pris | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|
| Cyfradd safonol | £94.15 | £96.70 | £98.60 |
| Cyfradd is | £3.00 | £3.10 | £3.15 |
| Cyfradd gwarediadau anawdurdodedig | £141.20 | £145.05 | £147.90 |

## Ardrethi annomestig (NDR)

3.18 Byddwn yn parhau i ddarparu cymorth i sectorau y mae'r pandemig yn effeithio'n fwyaf uniongyrchol arnynt drwy gynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2022-23. Bydd y cynllun yn darparu pecyn gwerth £116m o ryddhad ardrethi annomestig ychwanegol i fusnesau cymwys.

3.19 Bydd talwyr ardrethi manwerthu, hamdden a lletygarwch yng Nghymru yn cael rhyddhad ardrethi annomestig o 50% ar gyfer 2022-23. Fel y cynllun cyfatebol a gyhoeddwyd gan lywodraeth y DU, bydd cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru wedi'i gyfyngu i £110,000 y busnes ledled Cymru. Mae ein dull gweithredu yn sicrhau na fydd busnesau Cymru o dan anfantais o gymharu â rhannau eraill o'r DU.

3.20 Yn ychwanegol at y cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch, ni fydd lluosydd cyfraddau ardrethi annomestig yng Nghymru yn cynyddu ar gyfer 2022-23. Bydd y penderfyniad i rewi'r lluosydd yn sicrhau, cyn cymhwyso unrhyw ryddhad, na fydd unrhyw gynnydd yn swm y cyfraddau y bydd busnesau a thalwyr ardrethi eraill yn eu talu y flwyddyn nesaf. Amcangyfrifir y bydd cost y mesur hwn yn £35m yn 2022-23.

3.21 Ochr yn ochr â hyn, ac fel yr amlinellir ym Mhennod 4, rydym hefyd yn dyrannu cyllid i gyflawni gwaith ailbrisio ardrethi annomestig hyd 2024-25.

## Rhagolygon refeniw trethi annibynnol

3.22 Mae rhagolygon annibynnol o refeniw trethi datganoledig oddi wrth OBR ynghlwm wrth y Gyllideb ddrafft hon. Mae adroddiad Rhagolwg Trethi Cymreig ar wahân sy'n darparu cefndir a manylion am ragolygon wedi'i gyhoeddi ar wefan OBR. Dangosir y rhagolygon ar gyfer y blynyddoedd o dan sylw yn y Gyllideb ddrafft yn Nhabl 3.5. Gan mai hon yw'r gyllideb amlflwyddyn gyntaf ers datganoli trethi, mae'n bwysig nodi y bydd rhagolygon yn y dyfodol nid yn unig yn effeithio ar reoli'r gyllideb yn ystod y flwyddyn yn 2022-23 ond hefyd y rhifyddeg gyllidebol gyffredinol ar gyfer 2023-24 a 2024-25.

Tabl 3.5: Rhagolygon refeniw trethi, £m

| | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|
| Y Dreth Trafodiadau Tir | 366 | 383 | 404 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 36 | 36 | 36 |
| Cyfraddau Treth Incwm Cymru | 2,478 | 2,629 | 2,748 |

## Addasiad i'r grant bloc

3.23 Yn dilyn datganoli pwerau trethi i Gymru, mae grant bloc Llywodraeth Cymru yn cael ei leihau i adlewyrchu'r ffaith y bydd refeniw o drethi datganoledig a rhannol-ddatganoledig bellach yn mynd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru yn hytrach nag i Drysorlys y DU.

3.24 At ddibenion y Gyllideb ddrafft hon, mae'r addasiadau i'r grant bloc ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn yn gyson â rhagolygon OBR ynghylch trethi cyfatebol y DU, yn seiliedig ar Ragolwg Economaidd a Chyllidol mis Hydref 2021. Yn gyfan gwbl, yr addasiadau i'r grant bloc ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn yw £319m yn 2022-23, £331m yn 2023-24, a £344m yn 2024-25.

3.25 Mae'r addasiadau i'r grant bloc ar gyfer Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn cael eu hysgogi gan y twf a ragwelir mewn refeniw cyfatebol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ym mhob band treth incwm, gan ddefnyddio Rhagolwg Economaidd a Chyllidol mis Hydref OBR. Yr addasiadau i'r grant bloc ar gyfer treth incwm yw £2,447m, £2,569m, a £2,660m dros y tair blynedd.

## Cronfa Wrth Gefn Cymru

3.26 Cyflwynwyd Cronfa Wrth Gefn Cymru ym mis Ebrill 2018 fel rhan o drefniadau'r fframwaith cyllidol i'n galluogi i ymdrin yn effeithiol ag anwadalrwydd sy'n deillio o refeniw trethi drwy gadw adnoddau heb eu gwario i'w defnyddio mewn blynyddoedd i ddod. Roedd wedi disodli'r broses cyfnewid cyllidebau flaenorol.

3.27 Gall Cronfa Wrth Gefn Cymru ddal hyd at £350m. Mae'r swm y ceir ei dynnu i lawr bob blwyddyn wedi'i gyfyngu i £125m ar gyfer gwariant refeniw a £50m ar gyfer gwariant cyfalaf. Nid oes cyfyngiad blynyddol ar daliadau i mewn i'r gronfa.

3.28 Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol pan fo cynlluniau gwariant wedi defnyddio'r terfyn tynnu i lawr blynyddol o £125m yn llawn, nid yw'r cynlluniau gwariant hyn yn tynnu i lawr yn llawn o Gronfa Wrth Gefn Cymru. Fel rhan o'r gyllideb amlflwyddyn hon, mabwysiadwyd strategaeth gyllidol newydd i sicrhau'r cyllid mwyaf posibl. O 2023-24 ymlaen, bydd Cronfa Wrth Gefn Cymru yn cael ei defnyddio i reoli'r sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn heb ddal Terfyn Gwariant Adrannol heb ei ddyrannu, a bydd unrhyw symiau sydd wedi'u tynnu i lawr yn cael eu cynnwys yn y gyllideb atodol briodol.

## Benthyca

3.29 Mae'r Gyllideb ddrafft hon yn adlewyrchu ein cynlluniau i wneud y mwyaf o fenthyciadau cyfalaf sydd ar gael inni a thynnu i lawr yr uchafswm blynyddol o £150m y flwyddyn, gan fenthyca £450m yn ychwanegol hyd 2024-25 – y swm uchaf sydd ar gael inni ar hyn o bryd o fewn y fframwaith cyllidol. Mae'r setliad cyfalaf cyfyngedig a gafodd Cymru o Adolygiad o Wariant 2021 yn golygu bod rhaid inni fanteisio i'r eithaf ar yr ysgogiadau sydd ar gael inni er mwyn cyflawni ein buddsoddiadau cyfalaf uchelgeisiol.

3.30 Er hynny, nid yw benthyca cyfalaf yn ffynhonnell am ddim o arian ychwanegol a rhaid ei ad-dalu gyda llog.

3.31 Mae'n bwysig inni reoli ein cyllideb cyfalaf o fewn yr hyblygrwydd sydd gennym ar hyn o bryd, ond hefyd ein bod yn parhau i bwyso i sicrhau bod yr hyblygrwydd hwnnw'n adlewyrchu'n briodol yr heriau sy'n ein hwynebu mewn buddsoddiadau seilwaith hirdymor.

3.32 O fewn ein fframwaith presennol, byddwn yn cynnal ein dull o ariannu buddsoddiad drwy dynnu i lawr y mathau lleiaf costus o gyfalaf yn gyntaf – fel arfer ein setliad grant bloc. Ni fyddwn ond yn defnyddio mathau drutach o gyllid cyfalaf, megis benthyca, unwaith y byddwn wedi disbyddu'r ffynonellau traddodiadol hyn. Dim ond ar gyfer prosiectau isel eu risg ac sydd ar raddfa briodol y bydd modelau arloesol, gan gynnwys buddsoddiad preifat mewn prosiectau, yn cael eu hystyried.

3.33 Ceir rhagor o fanylion am ein dull gweithredu yn y Cynllun Cyllid Seilwaith a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft hon.

3.34 Byddwn yn parhau i bwyso ar Drysorlys Ei Mawrhydi yn ein trafodaethau ag ef am yr hyblygrwydd ehangach y mae arnom ei angen i reoli ein cyllideb yn y ffordd fwyaf effeithiol i bobl Cymru. Mae hyn yn cynnwys parhau i bwyso am gynnydd i'r terfynau blynyddol a chyfanredol ar ein mynediad at fenthyca cyfalaf, yn ogystal ag am fwy o hyblygrwydd o ran cario ymlaen a thynnu i lawr ar ddiwedd y flwyddyn o fewn Cronfa Wrth Gefn Cymru.

3.35 Bydd Llywodraeth Cymru yn tynnu ei chyfalaf benthyca o Gronfa'r Benthyciadau Gwladol. Nodir rhagolygon ad-dalu ar gyfer y cyfnod yr ydym wedi pennu cynlluniau cyfalaf ar ei gyfer yn Nhabl 5.5. Seilir y rhagolwg ad-dalu ar ragdybiaeth o gyfnod ad-dalu o 25 mlynedd a chyfradd llog o 1.2 y cant ar fenthyca yn 2021-22 a 2022-23 ac 1.3 y cant yn 2023-24 a 2024-25.

## Cyllid arloesol

3.36 Yn ogystal â'n cyllidebau cyfalaf craidd a'n pwerau benthyg, rydym yn parhau i wneud defnydd llawn o ddulliau cyllido arloesol er mwyn helpu i sicrhau buddsoddiad ychwanegol amserol mewn seilwaith economaidd a chymdeithasol hanfodol. Darperir yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau hyn yn Atodiad E.

## Ffynonellau cyllid ar gyfer Llywodraeth Cymru

3.37 Mae'r ffynonellau cyllid ar gyfer Llywodraeth Cymru yn cynnwys cyllid grant bloc oddi wrth lywodraeth y DU, ar y cyd â threthi sydd wedi'u datganoli'n llawn, Cyfraddau Treth Incwm Cymru ac ardrethi annomestig. Mae tabl 3.6 yn nodi ffynonellau ar gyfer adnoddau a chyfalaf.

Tabl 3.6 FFYNONELLAU CYLLID AR GYFER LLYWODRAETH CYMRU

| CYLLIDEB DDRAFFT 2022-23 | | | |
|---|---|---|---|
| **CYDRANNAU CYLLIDO CYMRU** | **Cyllideb Ddrafft 2022-23** | **Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24** | **Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25** |
| | **£000s** | | |
| **CYLLID ADNODDAU** | | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** | | | |
| Cyllidol | 15,065,110 | 15,349,944 | 15,638,809 |
| Anghyllidol | 1,519,960 | 1,519,960 | 1,519,960 |
| Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru | 67,000 | 38,000 | 48,000 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** | | | |
| Cyllidol | 28,063 | 26,045 | 26,045 |
| Anghyllidol | 191,034 | 235,641 | 18,717 |
| **Cyllid a Ddatganolwyd i Gymru:** | | | |
| Ardrethi Annomestig | 1,030,000 | 1,121,000 | 1,148,000 |
| Cyfradd Treth Incwm Cymru | 2,477,747 | 2,629,356 | 2,748,343 |
| Treth Trafodiadau Tir | 365,714 | 382,699 | 403,658 |
| Treth Gwarediadau Tirlenwi | 35,935 | 35,905 | 35,721 |
| Prif ad-daliad benthyca | (7,656) | (12,962) | (18,272) |
| **CYFANSWM CYLLID ADNODDAU** | **20,772,907** | **21,325,588** | **21,568,981** |
| **CYLLID CYFALAF** | | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** | | | |
| Cyffredinol | 2,377,963 | 2,514,687 | 2,503,138 |
| Trafodiadau Ariannol | 265,026 | 95,754 | 90,386 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** | | | |
| Cyfalaf | 1,051,366 | 1,161,411 | 1,277,302 |
| **Cyllid a Ddatganolwyd i Gymru:** | | | |
| Benthyca | 150,000 | 150,000 | 150,000 |
| **CYFANSWM CYLLID CYFALAF** | **3,844,355** | **3,921,852** | **4,020,826** |
| **CYFANSWM CYLLID CYMRU** | **24,617,262** | **25,247,440** | **25,589,807** |

# Pennod 4: Buddsoddi ym mlaenoriaethau ein Llywodraeth

## Trosolwg

4.01 Mae ein paratoadau ar gyfer y Gyllideb wedi'u gosod unwaith eto yn y cyd-destun parhaus o ymateb i effeithiau negyddol y pandemig a chymryd camau lliniaru yn eu herbyn, ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd a'r argyfwng hinsawdd a natur. Drwy'r cyfan, rydym wedi ceisio gwneud penderfyniadau yn unol â gwerthoedd blaengar y Llywodraeth Cymru hon.

4.02 Mae'r cyd-destun hwn wedi atgyfnerthu pwysigrwydd cynnal cynnydd o ran sicrhau bod y cyllid sydd ar gael gennym yn cael yr effaith fwyaf bosibl. Felly, rydym wedi cynnal yr Adolygiad Gwariant amlflwyddyn cyntaf ers 2015 wedi'i ategu gan ddull newydd o alinio gwariant â'n Rhaglen Lywodraethu

4.03 Wrth i amrywiolion newydd ddod i'r amlwg, er ein bod yn gobeithio ein bod yn dal ar y llwybr tuag at adferiad, mae gwasanaethau cyhoeddus yn dal i sefyll yn rheng flaen yr ymateb, gyda'r rhai sydd eisoes fwyaf difreintiedig yn cael eu heffeithio waethaf. Disgwylir i effeithiau'r pandemig gael eu teimlo am gryn amser i ddod, ac rydym wedi parhau i dargedu buddsoddiad lle y gall gael yr effaith orau o ran atal niwed pellach. Mae'r gyllideb hon yn blaenoriaethu cyllid ar gyfer ein GIG, gofal cymdeithasol ac awdurdodau lleol, gan gynnwys cyllid ar gyfer addysg i ymateb i effeithiau pellgyrhaeddol y pandemig gan ddarparu'r sylfeini ar gyfer y dyfodol.

4.04 Rydym hefyd yn cydnabod bod yn rhaid inni ymateb i her tymor hwy yr argyfwng hinsawdd a natur. Rydym wedi mynd ati o'r bôn gan ddefnyddio dull ‘sylfaen sero' ar gyfer gwariant cyfalaf cyffredinol er mwyn sicrhau bod ein hysgogiadau cyfalaf yn y sefyllfa orau i ymateb i'r cyd-destun hwn, sy'n sail i sefydlu Strategaeth newydd 10 mlynedd ar gyfer Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

4.05 Lluniwyd y Gyllideb hon i sicrhau y gall Cymru ymateb i'r heriau parhaus a wynebwn wrth gyflawni'r addewidion uchelgeisiol i bobl Cymru sydd wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Lywodraethu. Byddwn yn buddsoddi mewn **Cymru gryfach** sy'n buddsoddi mewn pobl, gwasanaethau, seilwaith a busnesau. **Cymru decach** sy'n dathlu amrywiaeth, yn ail-gydbwyso cyfoeth ac yn dod o hyd i'n hunaniaeth. A hefyd **Cymru wyrddach**, gan greu ymddygiadau sy'n cefnogi bioamrywiaeth ac yn mynd i'r afael â newid hinsawdd, ac annog ein holl bartneriaid i wneud yr un peth. Cafodd yr holl uchelgeisiau hyn eu cynnwys yn ein Rhaglen Lywodraethu ac rydym wedi darparu cynnydd ym mhob portffolio yn y Gyllideb hon i gyflawni'r agenda feiddgar hon.

4.06 Mae'r bennod hon yn rhoi rhagor o fanylion am ein hymrwymiadau cyllidebol hyd at 2024-25. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â Strategaeth newydd Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a'r Cynllun Cyllid Seilwaith cysylltiedig sy'n rhoi rhagor o fanylion am ein dyraniadau cyfalaf cyffredinol arfaethedig.

## Cymru Gryfach

4.07 Rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi ein llwybr tuag at adferiad, gan sicrhau Cymru gryfach sy'n deillio o'r pandemig ac sy'n parhau i osod cydraddoldeb wrth ei chalon. Dros y tair blynedd nesaf byddwn yn parhau i ddiogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau cyhoeddus, cyflawni ar gyfer pobl a chymunedau sy'n agored i niwed ledled ein gwlad, buddsoddi yn ein treftadaeth a'n diwylliant cyfoethog a buddsoddi mewn economi gryfach a gwyrddach.

### Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy o ansawdd uchel.

### Y GIG

4.08 Mae'r pandemig yn parhau i gael effaith aruthrol ar ein Gwasanaeth Iechyd, gyda dros 8,900 o bobl yng Nghymru yn marw'n drasig o ganlyniad i ddal y feirws. Yn y saith diwrnod hyd at 9 Rhagfyr ar gyfartaledd roedd 526 o bobl mewn gwelyau ysbyty cyffredinol ac acíwt yng Nghymru am resymau'n gysylltiedig â COVID 19. Mewn ymateb, rydym yn cynyddu ein buddsoddiad craidd yn y GIG o bron i £1.3bn yn ychwanegol yn y Gyllideb hon, gan gymryd cyfanswm ein buddsoddiad llinell sylfaen yn 2024-25 i £9.683bn. Bydd y cynnydd sylweddol hwn yn rhoi sylfaen i'r GIG yn ei ymateb parhaus ac i barhau i fynd i'r afael â'r gwaddol ar iechyd a lles.

4.09 Ym mis Medi 2021, roedd 240,306 o gleifion yn aros 36 wythnos neu fwy i ddechrau triniaeth. Ein blaenoriaeth uchaf yw mynd i'r afael â'r ôl-groniad o driniaethau sydd wedi'u gohirio gan y pandemig. Rydym yn cadarnhau’r dyraniad o £170m ychwanegol y flwyddyn i fyrddau iechyd lleol i gefnogi'r gwaith o weithredu cynlluniau i gryfhau gwasanaethau gofal a gynlluniwyd. Yn ogystal, byddwn yn buddsoddi £20m pellach y flwyddyn i gefnogi'r gwaith o weithredu dull sy'n seiliedig ar werthoedd tuag at adfer dros y tymor canolig, gan ganolbwyntio ar wella canlyniadau sy'n bwysig i gleifion. Gyda'i gilydd, mae'r buddsoddiad hwn yn sicrhau ein bod ar y trywydd iawn i gyflawni yn erbyn ein hymrwymiad i fuddsoddi £1bn ar gyfer adferiad y GIG yn ystod y Senedd hon.

4.10 Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod sefydliadau'r GIG yn cynnal y sefydlogrwydd ariannol y maent wedi gweithio'n galed i'w sicrhau yn ystod y blynyddoedd diwethaf wrth iddynt drawsnewid gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn dyrannu £180m yn rheolaidd o 2022-23 ymlaen i helpu'r GIG i reoli effaith ariannol y pandemig ar eu sefyllfa ariannol sylfaenol, gan gynnwys cydnabod yr effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar gynhyrchiant ac effeithlonrwydd. Rydym yn disgwyl i'r GIG ddychwelyd i lefelau effeithlonrwydd cyn y pandemig wrth i effaith COVID ar wasanaethau craidd leddfu.

4.11 Byddwn yn parhau i gynnal ein hymateb COVID uniongyrchol cyhyd ag y bo angen. Byddwn yn parhau i ariannu ein rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu, gan gynnwys dyrannu £6.4m yn rheolaidd i Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynnal eu capasiti profi uwch. Byddwn hefyd yn neilltuo cyllid i gefnogi rhaglenni brechu yn y dyfodol, ac i ddarparu cyfarpar diogelu personol am ddim i faes iechyd a gofal cymdeithasol cyhyd ag y bo angen.

4.12 Rydym yn cydnabod y pwysau eithafol y mae gweithlu'r GIG wedi bod oddi tano dros y ddwy flynedd ddiwethaf gyda chyfradd absenoldeb salwch cyfartalog y GIG yn cynyddu ers 2018 i 5.7% ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021, ochr yn ochr â'r effeithiau negyddol a adroddwyd ar iechyd meddwl. Byddwn yn buddsoddi £31m pellach mewn addysgu a hyfforddi gweithlu'r dyfodol a byddwn yn parhau i ddarparu £7m tuag at gyflawni ein hymrwymiad i sefydlu ysgol feddygol newydd yn y Gogledd.

4.13 Rydym hefyd yn buddsoddi cyfanswm o dros £800m o gyfalaf cyffredinol ar gyfer Seilwaith Digidol, Cyfarpar y GIG a Seilwaith y GIG hyd at 2024-25. Mae cael seilwaith cyfarpar dibynadwy ac effeithlon yn ofyniad allweddol i allu mynd i'r afael â'r ôl-groniad o gleifion a waethygwyd gan y pandemig. Mae ein darpariaeth ddigidol ar gyfer holl wasanaethau'r GIG wedi bod yn nodwedd bwysig o'n hymateb i'r pandemig. Mae hyn wedi cynnwys ymyriadau penodol ar gyfer profi, olrhain cysylltiadau, darparu brechlynnau a dilyniannu genomeg amrywiolion, yn ogystal â chymorth gwasanaeth fel gweithio o bell y GIG, ymgynghoriadau fideo ac apiau digidol.

## Iechyd Meddwl

4.14 Drwy gydol y pandemig mae pobl wedi bod yn pryderu am eu hiechyd meddwl a'u lles. Mae tua thraean o oedolion wedi dweud bod eu hiechyd meddwl yn waeth na chyn y pandemig, gyda'r pryder hwn yn fwy ymhlith trigolion cymunedau mwy difreintiedig, menywod a grwpiau oedran iau.

4.15 Rydym wedi dyrannu £100m ychwanegol hyd at 2024-25 i flaenoriaethu iechyd meddwl a lles. Mae hyn yn cynnwys pecyn ychwanegol o £50m yn 2022-23, gan gynnwys £20m i gefnogi gwelliannau i'r gwasanaeth iechyd meddwl a gweithredu Cynllun y Gweithlu Iechyd Meddwl.

4.16 O ganlyniad i'r buddsoddiad hwn, yn 2022-23 yn unig, bydd y gyllideb iechyd meddwl wedi'i neilltuo sy'n cae ei darparu i fyrddau iechyd lleol dros £745m. Dim ond un elfen o system ehangach sy'n cefnogi atal cychwynnol ym maes iechyd y cyhoedd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, camddefnyddio sylweddau a ffactorau amddiffynnol eraill yw cefnogi gwasanaethau iechyd meddwl rheng flaen. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu ailgynllunio gwasanaethau i wella atal, mynd i'r afael â stigma a hybu dull o ymdrin â chymorth iechyd meddwl sy'n sicrhau y bydd pobl yn cael eu cyfeirio at y cyngor a'r cymorth cywir ar yr adeg gywir.

4.17 Rydym yn cydnabod yn arbennig yr effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar iechyd meddwl pobl ifanc a'r angen i fuddsoddi mewn camau ataliol ochr yn ochr â gofal acíwt. Fel rhan o'n buddsoddiad cyffredinol o £100m, rydym felly'n dyrannu £10.5m ychwanegol hyd at 2024-25 yn uniongyrchol ym maes iechyd meddwl pobl ifanc a fydd yn cefnogi ein dull systemau cyfan.

## Gofal Cymdeithasol

4.18 Mae'r system gofal cymdeithasol yn wynebu heriau digynsail a pharhaus sy'n deillio o'r pandemig yn ogystal â'r angen i ymateb i boblogaeth Cymru sy'n heneiddio ac yn newid.

4.19 O'i chymharu â'r DU gyfan, rhagwelir y bydd Cymru'n parhau i fod â chyfran uwch o bobl hŷn yn ei phoblogaeth tra bydd ei phoblogaeth oedran gweithio yn gostwng yn raddol yn y degawdau nesaf. Nid yw'r cynnydd mewn disgwyliad oes wedi trosi i ddisgwyliad oes iach uwch sydd wedi gostwng ychydig yn ystod y degawd diwethaf wedi'i lywio'n rhannol gan anghydraddoldebau a wynebir gan y rhai sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

4.20 Mae ein penderfyniadau cyllidebol wedi blaenoriaethu gwasanaethau iechyd a Llywodraeth Leol. Yn ogystal â'r cynnydd sylweddol i'r cyllid craidd heb ei neilltuo ar gyfer Llywodraeth Leol i gefnogi gofal cymdeithasol a gwasanaethau hanfodol eraill, rydym yn darparu £60m ychwanegol o gyllid grant penodol hyd at 2024-25 i hybu'r broses o ddiwygio a gwella gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn cefnogi diwygiadau i wella'r broses o ddarparu gwasanaethau ac yn cynyddu cynaliadwyedd gwasanaethau ar draws y sector gofal cymdeithasol. Er mwyn ymateb i faterion recriwtio a chadw parhaus yn y sector o fewn yr amlen hon, rydym wedi cynnwys cyllid drwy'r setliad Llywodraeth Leol i alluogi awdurdodau i dalu'r costau ychwanegol o ddechrau talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol o £9.90 yr awr i weithwyr gofal cymdeithasol o fis Ebrill 2022.

4.21 Fel yr amlinellir yn ein Cynllun Cyllid Seilwaith, rydym hefyd yn buddsoddi arian cyfalaf sylweddol ym maes gofal cymdeithasol. Hyd at 2024-25 byddwn yn buddsoddi cyfanswm o £110m o gyfalaf mewn gofal sylfaenol a chymunedol i gefnogi ein gweledigaeth ar gyfer seilwaith integredig a hygyrch. Rydym hefyd yn buddsoddi £180m i gefnogi amrywiaeth o raglenni gofal cymdeithasol i fuddsoddi mewn gwella'r seilwaith gofal preswyl a chefnogi buddsoddiad yn y canolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig newydd.

4.22 Rydym hefyd yn buddsoddi i ddiwallu anghenion gofal plant ag anghenion cymhleth, pobl hŷn a phobl ag anabledd corfforol neu ddysgu drwy £240m o gyfalaf hyd at 2024-25 yn y Gronfa Gofal Integredig. Bydd hyn yn parhau i gynorthwyo prosiectau tai, iechyd a gofal mwy cymhleth sy'n golygu cydleoli tai gyda gwasanaethau iechyd a gofal.

### Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed.

### Llywodraeth Leol

4.23 Mae Llywodraeth Leol yn sail i gyflawni ein Rhaglen Lywodraethu, drwy addysg, gofal cymdeithasol, tai cymdeithasol, darparu gwasanaethau hanfodol i gymunedau a chefnogi ein huchelgeisiau i fynd i'r afael â newid hinsawdd ac anghydraddoldeb ledled Cymru. Mae awdurdodau lleol wedi gweithio'n ddiflino drwy gydol y pandemig i sicrhau bod cymorth ar gael i'r bobl sydd ei angen fwyaf, ac mae'r gwaith hwn yn parhau.

4.24 Mae'n briodol felly ein bod yn darparu'r setliad gorau posibl. Hyd at 2024-25 byddwn yn darparu cyllid refeniw ychwanegol o £743m, sy'n sail i wasanaethau lleol hanfodol a gwerthfawr, gan ddarparu cymorth ar gyfer yr ymateb parhaus i'r pandemig a blaenoriaethu ysgolion a gofal cymdeithasol. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r cyllid hwn yn cydnabod yr effaith negyddol y mae'r pandemig wedi'i chael o ran casglu ardrethi annomestig, ac yn sgil rhewi'r lluosydd Ardrethi Annomestig. I wrthbwyso hyn, rydym felly'n cynyddu'r grant cynnal refeniw yn y setliad.

4.25 Mae'r cyllid craidd ar gyfer Llywodraeth Leol hefyd yn cael ei gefnogi gan grantiau o feysydd polisi ar gyfer uchelgeisiau ac ymyriadau penodol, yn enwedig ym maes addysg. Yn ogystal â'r setliad heb ei neilltuo, rydym yn disgwyl darparu dros £1bn mewn grantiau refeniw ar gyfer 2022-23, gan gynnwys rhywfaint o gyllid penodol i gefnogi awdurdodau lleol i barhau i newid gwasanaethau i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur.

4.26 Hyd at 2024-25 rydym hefyd yn buddsoddi £550m ar gyfer cyfalaf cyffredinol Llywodraeth Leol a benthyca â chymorth i ategu'r rôl hollbwysig y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae wrth ddarparu seilwaith sydd nid yn unig yn galluogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau lleol, ond sydd hefyd yn cyfrannu at ein huchelgeisiau seilwaith ledled Cymru.

## Benthyca, Llywodraeth Leol a Diwygio Trethi

4.27 Er mwyn sicrhau gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol rydym yn buddsoddi mewn pecyn o £11m ychwanegol mewn Llywodraeth Leol a diwygio trethi hyd at 2024-25. Ochr yn ochr â buddsoddi mewn diwygio etholiadau Llywodraeth Leol, bydd y cyllid hwn yn sicrhau y gallwn fwrw ymlaen â'n dull gweithredu unigryw yng Nghymru o ran trethi. Bydd egwyddorion o ran ymgorffori cynaliadwyedd, tegwch a chydraddoldeb yn sail i'n buddsoddiad mewn diwygiadau i'r dreth gyngor, ailbrisio ardrethi annomestig a'n diwygiadau treth ehangach.

4.28 Er ein bod yn parhau'n ymrwymedig i fanteisio i'r eithaf ar ein hysgogiadau cyfalaf drwy ddefnyddio benthyca cyfalaf, nid yw ychwaith yn ffynhonnell am ddim o arian ychwanegol a rhaid ei ad-dalu gyda llog. Er mwyn talu costau ein benthyca presennol ac arfaethedig, mae angen £6m ychwanegol hyd at 2024-25.

## Llywodraeth Cymru a Chyrff a Noddir ganddi

4.29 Ochr yn ochr â chyrff cyhoeddus eraill, mae angen buddsoddi i sicrhau bod Llywodraeth Cymru fel sefydliad yn parhau i fod yn gynaliadwy yn y dyfodol. Hyd at 2024-25, rydym yn buddsoddi refeniw ychwanegol o £32m a chyfanswm buddsoddiad o £31m o gyfalaf. Bydd hyn yn cynyddu'r cyllid ar gyfer Ystadau Cymru, yn cefnogi costau cysylltiedig ymadawiad y DU â'r UE, yn talu costau rhedeg parhaus ac yn galluogi sefydliad cynaliadwy.

4.30 Rydym hefyd yn darparu cyfanswm buddsoddiad cyfalaf o £900,000 mewn offer a meddalwedd TG ar draws Cymwysterau Cymru ac Estyn gan sicrhau bod ganddynt systemau priodol a diogel i barhau â'u gweithgarwch hanfodol sy'n cefnogi ein sector Addysg yng Nghymru.

Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a’r celfyddydau i ffynnu.

Diwylliant

4.31 Mae’r pandemig wedi cael effaith anghymesur ar ddiwylliant, gan gynnwys y Gymraeg, y celfyddydau ac amgueddfeydd, a’r sectorau twristiaeth a chwaraeon. Rydym hefyd yn cydnabod yr effaith gadarnhaol y mae'r gweithgareddau hyn yn ei chael ar ein hiechyd meddwl. Mae’r gallu i ymarfer ein meddwl a'n corff yn gallu creu mwy o wytnwch wrth wynebu materion anodd o ran iechyd corfforol neu feddyliol, a mynd i'r afael ag unigedd cymdeithasol. Mae'n gyfle hefyd i fynd i’r afael ag anghydraddoldebau a gwella mynediad a chyfranogiad.

4.32 Rydym yn buddsoddi £14m ychwanegol hyd at 2024-25 sy'n cynnwys ein huchelgeisiau cyffredin gyda Phlaid Cymru i greu strategaeth ddiwylliannol newydd, gan gydweithio'n agos â rhanddeiliaid yn y sectorau celfyddydau, diwylliant a threftadaeth. Mae'r cyllid hwn hefyd yn cynnwys mwy na £1m i gryfhau newyddion Cymreig a chau’r bwlch democrataidd.

4.33 Rydym hefyd yn parhau'n ymrwymedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a dileu gwahaniaethu. Rydym wedi ymrwymo dros £6m o refeniw i sicrhau bod hanes a diwylliant ein cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cael eu cynrychioli’n briodol drwy fuddsoddi ymhellach yn ein sector diwylliannol a’n rhwydwaith amgueddfeydd.

4.34 Rydym hefyd yn buddsoddi cyfanswm o £165m o gyfalaf hyd at 2024-25 i alluogi ein diwydiannau twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu. Bydd hyn yn buddsoddi £127m yn ein theatrau a'n hamgueddfeydd, gan gynnwys Theatr Clwyd, sefydlu Amgueddfa Bêl-droed Cymru, Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol ac Amgueddfa ar gyfer Gogledd Cymru. Bydd y datblygiadau hyn yn gwella mynediad diwylliannol yn sylweddol ledled Cymru, yn galluogi gwell mynediad i'r casgliad cenedlaethol, yn helpu sefydliadau i ddatgarboneiddio, canolbwyntio ar ddarpariaeth ddigidol a sicrhau bod cynigion yn adlewyrchu'r cymunedau amrywiol yng Nghymru yn fwy, yn ogystal ag yn fwy deniadol i gynulleidfaoedd lleol, o Gymru, o’r DU ac yn rhyngwladol.

4.35 Rydym hefyd yn cydnabod y manteision corfforol a meddyliol pwysig a ddarperir drwy gymryd rhan ac ennyn diddordeb mewn chwaraeon. Gydag anghydraddoldebau o ran cymryd rhan mewn chwaraeon yn ehangu yn ystod y pandemig, mae angen inni sicrhau bod pawb yn teimlo'r manteision hyn. Byddwn yn buddsoddi cyfanswm o £24m o gyfalaf hyd at 2024-25 i ddarparu mynediad cyfartal at chwaraeon, cefnogi ein hathletwyr ifanc a thalentog yn ogystal â chlybiau ar lawr gwlad a buddsoddi mewn cyfleusterau newydd i gynyddu’r nifer sy’n cymryd rhan.

## Y Gymraeg

4.36 Rydym yn parhau'n ymrwymedig i fwrw ymlaen â'n hymrwymiad o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r Gymraeg yn parhau i fod yn rhan annatod o waith ar draws y Llywodraeth a ledled y cyrff a'r sefydliadau rydym yn eu hariannu. Fel rhan o'n Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru rydym yn buddsoddi £4m yn ychwanegol i ehangu Arfor. Bydd hyn yn hwyluso dulliau newydd ac arloesol o gefnogi datblygiad economaidd sy'n cefnogi'r Gymraeg, gan gynnwys drwy annog twf busnes mewn ardaloedd sydd â chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg.

4.37 Gan gydnabod rôl bwysig addysg o ran sicrhau cenedlaethau o siaradwyr Cymraeg yn y dyfodol, rydym yn buddsoddi £8m ychwanegol erbyn 2024-25 yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynyddu cyfran y prentisiaethau ac addysg bellach sy'n rhai cyfrwng Cymraeg, ac i ddarparu dysgu Cymraeg am ddim i bobl ifanc 16-25 oed.

4.38 Rydym hefyd yn darparu buddsoddiad cyfalaf o £45m hyd at 2024-25 er mwyn cynyddu’r cyfleoedd i ddysgwyr gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gyfrannu at leihau’r mynediad anghyfartal at addysg cyfrwng Cymraeg sy’n bodoli ar hyn o bryd.

## Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni wneud cymaint o gynnydd â phosibl tuag at ddatgarboneiddio.

4.39 Mae ein heconomi yn parhau i gael ei heffeithio gan effeithiau cyfunol y pandemig ac effeithiau ymadawiad y DU â’r UE, gan gynyddu chwyddiant, effeithio ar gadwyni cyflenwi ac achosi prinder llafur mewn rhai sectorau. Ochr yn ochr â hyn, mae angen i fusnesau addasu i newid yn yr hinsawdd ac ymateb i'r cynnydd cyflym mewn digideiddio a newidiadau yng nghanol trefi sy'n cael eu gyrru gan y pandemig.

4.40 Er ei bod yn anochel y bydd colli cyllid yr UE, nad yw llywodraeth y DU yn rhoi cyllid yn ei le, yn effeithio ar ein gallu i gefnogi busnesau, byddwn yn manteisio i'r eithaf ar yr holl ysgogiadau sydd ar gael i adeiladu economi gryfach a gwyrddach.

4.41 Byddwn yn parhau i ddarparu cymorth i sectorau yr effeithir arnynt yn fwyaf uniongyrchol gan y pandemig drwy’r cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu Hamdden a Lletygarwch gwerth £116m a thrwy beidio â chynyddu'r lluosydd ardrethi annomestig yng Nghymru ar gyfer 2022-23, ar gost amcangyfrifedig o £35m, i sicrhau nad oes unrhyw gynnydd yn swm yr ardrethi y mae busnesau a thalwyr ardrethi eraill yn eu talu y flwyddyn nesaf.

4.42 Byddwn yn buddsoddi £100m y flwyddyn yn ychwanegol hyd at 2024-25 i gefnogi gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus tra bo’r pandemig yn parhau i effeithio ar batrymau teithio ac incwm blychau prisiau siwrnai, tra’n helpu hefyd i gyflawni ein huchelgeisiau tymor hwy ar gyfer gwell gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus gan arwain at newid dulliau teithio a datgarboneiddio o fewn y sector. O fewn y setliad cyffredinol, rydym hefyd yn falch o allu parhau i gynnal yr amlenni cyllidebol ar gyfer teithio am ddim ar fysiau a theithio rhatach i bobl ifanc ar fysiau.

4.43 Rydym hefyd yn buddsoddi mewn pecyn ychwanegol o £10m, sy'n cynnwys cyllid i weithredu Strategaeth Bwyd Cymunedol. Bydd y Strategaeth hon yn cefnogi’r gwaith o adeiladu cadwyni cyflenwi byr a rhwydweithiau i greu cymunedau gwydn, meithrin gallu, gwella seilwaith lleol ac arweinyddiaeth canolfannau cymunedol a defnyddio'r rhwydweithiau hyn i gefnogi'r gwaith o ddarparu prydau ysgol gynradd am ddim. Mae'r dyraniad hefyd yn caniatáu ar gyfer cyllid ychwanegol i weithredu a chyflawni'r cynllun Ffermio Cynaliadwy drwy fuddsoddi mewn TGCh a chefnogi'r gwaith o ddatblygu model cenedlaethol ar gyfer rheoleiddio lles anifeiliaid a gyhoeddwyd yn ddiweddar yng Nghynllun Lles Anifeiliaid pum mlynedd Cymru.

4.44 Rydym hefyd yn buddsoddi £5m yn ychwanegol tuag at yr Economi Gylchol a fydd yn parhau i gefnogi gwell cadernid economaidd trwy fyrhau cadwyni cyflenwi, gan fanteisio ar ein dulliau ailgylchu sydd o safon fyd-eang a helpu busnesau i ddefnyddio’r deunyddiau a ailgylchir. Mae'r Gronfa Economi Gylchol ar gyfer busnes wedi'i hehangu i £10m dros y tair blynedd nesaf i gynyddu'r gefnogaeth i'r cyfleoedd hyn ac mae'n enghraifft o sut y gall gweithredu economi gylchol sicrhau manteision economaidd a chyfleoedd sgiliau mewn meysydd fel effeithlonrwydd adnoddau, gan sicrhau hefyd manteision amgylcheddol sy'n hanfodol i fynd i'r afael â’r argyfwng hinsawdd a natur.

4.45 Rydym hefyd yn darparu £1m yn ychwanegol i ddatblygu ein strategaeth ddigidol i Gymru sy'n ceisio ysgogi arloesedd yn ein heconomi a chefnogi busnesau i ddatblygu'r cadernid y mae arnynt ei angen i lwyddo.

4.46 Byddwn hefyd yn defnyddio ein hysgogiadau cyfalaf i adeiladu economi gryfach a gwyrddach. O'r swm o bron £1.4bn yr ydym yn ei fuddsoddi hyd at 2024-25, mae hyn yn cynnwys dros £750m mewn darpariaeth rheilffyrdd a bysiau gan gynnwys cyflawni camau nesaf Metro De Cymru, £40m mewn seilwaith digidol a'r sector eiddo a £66m yn y Bargeinion Dinesig a Thwf yng Nghymru.

4.47 Rydym yn parhau i adolygu ein rhaglen ffyrdd. Gyda swm o £500m, byddwn yn ystyried effaith carbon pob buddsoddiad a wnawn, gan adlewyrchu hefyd yr angen parhaus i gynnal y rhwydwaith ffyrdd presennol yn ddiogel ac yn ddibynadwy.

### Arwain Cymru mewn sgwrs ddinesig genedlaethol am ein dyfodol cyfansoddiadol, a rhoi’r presenoldeb cryfaf posibl i’n gwlad ar y llwyfan byd-eang.

4.48 Mae'r pandemig ac ymadawiad y DU â’r UE wedi dangos pwysigrwydd mynd i'r afael â dyfodol cyfansoddiadol Cymru. Er mwyn i Lywodraeth Cymru gyflawni'n effeithiol dros Gymru, cyfrannu at lesiant y DU gyfan a chyflawni ar lwyfan y byd, mae hyn yn dibynnu ar ddyrannu pwerau ac adnoddau yng Nghymru a'r DU.

4.49 Rydym, felly’n dyrannu £3m yn ychwanegol hyd at 2024-25 gan gynnwys cymorth ar gyfer diwygiadau cyfansoddiadol ehangach a diwygiadau i’r Senedd, ochr yn ochr â chodeiddio cyfreithiau Cymru. Er mwyn sicrhau ein bod i gyd yn dysgu gwersi hanfodol bwysig o'n hymateb i'r pandemig rydym hefyd yn buddsoddi £2m yn ychwanegol.

4.50 Er gwaethaf yr heriau yr ydym wedi'u hwynebu, bydd Cymru'n parhau i fod yn genedl allblyg sy'n gwerthfawrogi cydweithio a phartneriaethau rhyngwladol. Rydym yn dyrannu £6.5m yn ychwanegol i gyflwyno Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu. Bydd y rhaglen hon yn cefnogi symudedd rhyngwladol ar draws pob lleoliad addysgol a ledled Cymru, gan gynnwys gwaith ieuenctid, ac yn cynnwys cymorth i ddysgwyr a staff ar bob lefel.

4.51 Fel rhan o'n buddsoddiad cyfalaf gwerth £35m yn ein rhaglen ymchwil ac arloesi, rydym yn cydnabod y rôl y gall Cymru ei chwarae ar lwyfan y byd. Byddwn yn darparu cymorth ar gyfer meysydd technoleg newydd gan gynnwys technoleg ynni adnewyddadwy megis ynni'r llanw, technolegau sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth yn ogystal â heriau eraill sy'n ein hwynebu fel cymdeithas. Bydd y cyllid hwn hefyd yn cefnogi cynigion ar gyfer cystadlaethau cyllid y DU a'r UE ac yn buddsoddi mewn prosiectau trosglwyddo gwybodaeth ac yn cefnogi mwy o arloesi wrth ddarparu gwasanaethau'r sector cyhoeddus drwy gaffaeliadau sy'n cael eu harwain gan her.

## Cymru Decach

4.52 Mae ein Cyllideb wedi’i seilio ar ein gwerthoedd o ran cyfiawnder cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, gwerthoedd a fydd yn creu Cymru Decach drwy drechu anghydraddoldeb o bob math. Byddwn yn parhau i ymateb i effeithiau dinistriol y pandemig o ran ehangu anghydraddoldebau. Byddwn hefyd yn parhau i dargedu ein hysgogiadau ariannol lle y gallant gael yr effaith fwyaf i fynd i’r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae’r cyd-destun presennol hefyd wedi amlygu ystod o anghydraddoldebau strwythurol a oedd yn bodoli cyn y pandemig.

4.53 Mae rhagor o fanylion am sut yr aseswyd effeithiau ein penderfyniadau ar gael yn ein Hasesiad Effaith Integredig Strategol yn Atodiad D.

### Parhau â’n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a safonau’n codi.

### Buddsoddi mewn Plant a Theuluoedd y Blynyddoedd Cynnar

4.54 Mae’n wir o hyd mai’r ymyriad gorau a mwyaf costeffeithiol sydd ar gael inni yw buddsoddi yn gynnar ym mywydau pobl. Mae ymyriad o’r fath hefyd yn sicrhau’r effeithiau cadarnhaol mwyaf i drechu anghydraddoldebau ac anfantais rhwng y cenedlaethau ac ymwreiddio camau gweithredu ataliol. Rydym yn cydnabod bod effeithiau anuniongyrchol niwed economaidd-gymdeithasol yn sgil y pandemig wedi’u teimlo gan grwpiau a oedd eisoes o dan anfantais, gan gynnwys plant a phobl ifanc, menywod, pobl anabl a lleiafrifoedd ethnig.

4.55 Mae ein hymrwymiad i’r blynyddoedd cynnar yn cwmpasu datblygiad plant yn ogystal â’u haddysg, gan gydnabod bod angen inni sicrhau cynnig o’r radd flaenaf i roi’r dechrau gorau mewn bywyd. Rydym wedi darparu £40m o refeniw ychwanegol hyd 2024-25 ar gyfer help a chymorth cynnar gan gynnwys ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau’n Deg. Mae hyn yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi mwy o blant a theuluoedd ledled Cymru.

4.56 Bydd hyn yn cefnogi ein rhaglen flaenllaw, Dechrau’n Deg, sy’n gweithio’n agos gyda theuluoedd drwy ddarparu ymweliadau iechyd gwell, ariannu gofal plant rhan amser o ansawdd uchel, a chymorth ar gyfer rhieni a lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae Dechrau'n Deg yn cefnogi teuluoedd sydd â phlant o dan bedair oed sy'n byw yn rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig ledled Cymru.

4.57 Ochr yn ochr â'r effeithiau ar y blynyddoedd cynnar, rydym hefyd wedi cydnabod yr effaith anghymesur rhwng y rhywiau, yn enwedig mewn cysylltiad â gofal plant. Mae ein Cynnig Gofal Plant eisoes yn ariannu 30 awr o addysg a gofal plant i rieni plant tair a phedair oed am 48 wythnos y flwyddyn. Yn unol â'n hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu, byddwn yn buddsoddi £30m yn ychwanegol hyd 2024-25 yn y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi mwy o deuluoedd gyda chostau gofal plant pan fo rhieni mewn addysg a hyfforddiant, a chynyddu darpariaeth y blynyddoedd cynnar i gynnwys pob plentyn dwyflwydd oed, gan roi pwyslais arbennig ar gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

4.58 I gyflawni ein hymrwymiadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar, mae hefyd angen inni fuddsoddi mewn cyfleusterau priodol, yn y meysydd cywir a'u cynnal ar safon uchel. Byddwn yn buddsoddi cyfanswm o £70m o gyfalaf hyd 2024-25 mewn lleoliadau Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg, gan gynnwys lleoliadau cyfrwng Cymraeg.

## Prydau ysgol am ddim

4.59 Rydym yn falch o'n hanes o ddarparu prydau ysgol am ddim i ddisgyblion yng Nghymru ac rydym wedi ymrwymo i adeiladu ar hynny. Mae wedi bod yn ymyriad trawsnewidiol o ran mynd i'r afael â thlodi plant, codi proffil bwyta'n iach, gwella sgiliau cymdeithasol a helpu i wella ymddygiad a chyrhaeddiad.

4.60 Fel rhan o’n cytundeb â Phlaid Cymru, byddwn yn ehangu prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd yn ystod oes ein cytundeb i sicrhau y bydd 196,000 o blant ychwanegol yn gymwys i fanteisio ar y cynnig o brydau ysgol am ddim yng Nghymru.

4.61 Felly, rydym yn buddsoddi £90m yn ychwanegol hyd 2024-25 i gyflawni'r ymrwymiad hwn fesul cam. Bydd y buddsoddiad hefyd yn ein galluogi i ddefnyddio caffael cyhoeddus i gynyddu gweithgarwch cynhyrchu a dosbarthu bwyd lleol, a fydd yn ei dro o fudd i economïau, ecolegau a chymunedau lleol.

## Adfer a Diwygio Addysg

4.62 Mae'r Gyllideb ddrafft yn nodi'r cyllid yr ydym yn ei gyfeirio at adferiad COVID 19 drwy ein cynllun Adnewyddu a Diwygio a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021. Mae’n amlwg bod y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar ein hysgolion a'n lleoliadau ac ar ein dysgwyr a'n cymunedau, ond rhaid inni sicrhau ein bod yn adeiladu ar y pwyslais sydd wedi’i roi ar les, hyblygrwydd a thechnoleg ddigidol yn y system addysg dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gyd-fynd yn agos â’n cwricwlwm newydd cyffrous. Ochr yn ochr â'r cyllid sylweddol yr ydym yn ei ddarparu i Lywodraeth Leol, rydym yn darparu pecyn o £64.5m ychwanegol hyd 2024-25 ar gyfer addysg i ddysgwyr hyd at 16 mlwydd oed. Mae hyn yn cynnwys cyllid i gefnogi parhad y Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau, gan gefnogi lles a chynnydd dysgwyr wrth inni weithio drwy oblygiadau'r pandemig a diwygio'r cwricwlwm, ac Anghenion Dysgu Ychwanegol fel rhan o'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg.

4.63 Drwy feithrin mwy o degwch o fewn ein system addysg, rydym hefyd yn sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cyfle i gyrraedd ei botensial llawn. Rydym yn buddsoddi £20m yn ychwanegol yn y Grant Datblygu Disgyblion sy’n chwarae rôl hanfodol o ran cefnogi disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal. Mae’n golygu y bydd cyfanswm o dros £130m yn cael ei fuddsoddi y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys cyllido Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad i barhau i helpu teuluoedd dysgwyr sydd o dan anfantais ac sy’n agored i niwed i dalu'r costau bob dydd sy'n gysylltiedig â'r ysgol, gan gynnwys gwisg ysgol, ac offer ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau allgyrsiol.

4.64 Mae ein rhaglen flaenllaw, Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif, wedi darparu bron i £1bn mewn buddsoddiad cyfalaf i helpu i gynnal 180 o brosiectau i wella ysgolion a cholegau, neu i adeiladu rhai newydd. Mae ein nod i gefnogi dysgwyr i fod yn ddinasyddion moesegol, gwybodus sydd wedi ymrwymo i gynaliadwyedd y blaned wrth wraidd ein cwricwlwm newydd. Drwy £12m o refeniw ychwanegol a chyfanswm cyfalaf o £900m hyd 2024-25, byddwn yn sicrhau bod ein hystad addysgol yn y lleoliad cywir ar gyfer anghenion lleol, yn datblygu ysgolion a cholegau carbon sero net, yn cysylltu â llwybrau teithio llesol a chynaliadwy, yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr Argyfwng Natur a'i bod o'r maint a'r math cywir i adlewyrchu niferoedd dysgwyr a chyfleoedd busnes i gefnogi cymunedau.

## Darpariaeth ôl-16

4.65 Ochr yn ochr â chyllid ar gyfer ysgolion, rydym hefyd yn darparu £63.5m o gyllid ychwanegol ar gyfer darpariaeth ôl-16 hyd 2024-25, sy'n cwmpasu darpariaeth 16-19 yn y chweched dosbarth gan awdurdodau lleol a cholegau Addysg Bellach, yn ogystal â darpariaeth dysgu gydol oes i'r rhai dros 19 oed mewn colegau Addysg Bellach a Chanolfannau Dysgu Oedolion yn y Gymuned gan awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys adolygu addysg oedolion i gynyddu nifer yr oedolion sy'n dysgu yng Nghymru. Bydd hyn hefyd yn cefnogi cyllid Adnewyddu a Diwygio er mwyn sicrhau nad yw'r pandemig yn cael effaith negyddol ar nifer y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ac er mwyn caniatáu i ddysgwyr gyrraedd eu potensial llawn.

4.66 Bydd y pecyn hwn yn bodloni'r pwysau demograffig o ran pobl ifanc 16-19 oed gan hefyd gynnig y cyfleoedd gorau i leihau effeithiau o ran y rhai a allai fod yn NEET yn dilyn dwy flynedd anodd mewn addysg ôl-orfodol.

4.67 Rydym hefyd yn darparu buddsoddiad cyfalaf gwerth cyfanswm o £60m yn sefydliadau Addysg Uwch Cymru i barhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a safonau'n codi.

## Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math

4.68 Fel yr amlinellir yn ein Hasesiad Effaith Integredig Strategol yn Atodiad D, rydym yn cydnabod effeithiau anghymesur a dinistriol y pandemig a'r angen hanfodol i ymateb i'r anghydraddoldebau strwythurol yn ein cymdeithas, er mwyn sicrhau, waeth beth fo'ch cefndir neu ble rydych yn byw yng Nghymru, y gallwch gyrraedd eich potensial.

4.69 Rydym yn buddsoddi £16.5m yn ychwanegol mewn ystod o ymyriadau wedi'u targedu hyd 2024-25 i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, hybu a chryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol, gwella canlyniadau i bobl a chyfrannu at greu Cymru fwy cyfartal. Mae hyn yn cynnwys ariannu camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, y Tasglu Hawliau Anabledd, y Cynllun Gweithredu LHDTC+ ac ymrwymiadau i sefydlu Urddas Mislif ymhellach. Bydd yr arian hwn hefyd yn cefnogi ein hymrwymiad i gyflwyno deddfwriaeth sy'n cymryd camau penodol ynghylch gwahardd therapi trosi a datganoli'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd.

4.70 Fel Llywodraeth, rydym yn cydnabod potensial incwm sylfaenol i fynd i'r afael yn well ag annhegwch ym maes iechyd. Mae'r pandemig yn cael effaith benodol ar bobl ifanc sy'n gadael y system ofal felly drwy dargedu cymorth ychwanegol gallai hyn fod yn sylfaen fwy cadarn i bobl ifanc â phrofiad o ofal adeiladu eu bywydau fel oedolion. Felly, rydym yn buddsoddi £10m yn ychwanegol hyd 2024-25 mewn cynllun peilot incwm sylfaenol sy'n cynnwys carfan o bobl ifanc â phrofiad gofal o bob cwr o Gymru i brofi manteision mynd i'r afael â thlodi a diweithdra, a gwella iechyd a lles ariannol. Ceir rhagor o wybodaeth yn Atodiad D.

4.71 Wrth i'r pandemig a newidiadau i Gredyd Cynhwysol barhau i effeithio ar unigolion, mae pobl sy'n agored i niwed a theuluoedd ledled Cymru yn troi at y Gronfa Cymorth Dewisol am gymorth ychwanegol. Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n cael cymorth drwy'r Gronfa, gyda thros 200,000 o Daliadau Cymorth Brys yn gysylltiedig â COVID 19, a bron i £14m yn cael ei dalu rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mai 2021. Byddwn yn buddsoddi £7m yn ychwanegol i ateb y galw parhaus hwn gan ddarparu cymorth i'r rhai sydd ei angen fwyaf.

4.72 Rydym yn buddsoddi £3m yn ychwanegol hyd 2024-25 i wella tystiolaeth, yn rhannol er mwyn cynorthwyo ein hasesiadau o effeithiau penderfyniadau cyllidebol. Mae hyn yn cynnwys hybu'r Arolwg o Adnoddau Teulu, gan ein helpu i ddeall incwm ac amgylchiadau byw aelwydydd ledled Cymru yn well er mwyn mynd i'r afael yn well ag anghydraddoldeb a thlodi. Bydd hyn hefyd yn cynnig cyfleoedd i wella'r dadansoddiad effaith ddosbarthiadol o fewn ein Cynllun Gwella'r Gyllideb.

4.73 Rydym hefyd yn buddsoddi cyfanswm o £63m o gyfalaf hyd 2024-25 mewn seilwaith cymunedol, Ystadau Cymru a chynlluniau Buddsoddi i Arbed sy'n cynnwys seilwaith o dan berchnogaeth gymunedol sy'n cwmpasu ystod eang o raglenni. Mae'r rhain yn adeiladu ar ein gwerthoedd o ran cymuned, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol gan gynnwys helpu i greu Banc Cymunedol i Gymru. Mae hefyd yn cynnwys camau gweithredu sy'n canolbwyntio ar drais yn erbyn menywod ar y stryd, yn y gweithle a'r cartref i wneud Cymru'r lle mwyaf diogel yn Ewrop i fod yn fenyw.

### Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol.

4.74 Mae'r pandemig wedi dangos yn glir pa mor anghytbwys y gall y gweithle fod o ran tâl, llais a chynrychiolaeth. Er bod tlodi mewn gwaith yn bryder sylweddol, sgiliau a chymwysterau yw'r dylanwad unigol mwyaf o hyd ar siawns rhywun o fod mewn cyflogaeth, gan gynnig incwm da a llwybr allan o dlodi, a diogelu pobl rhag tlodi.

4.75 Byddwn yn buddsoddi £30m yn ychwanegol hyd 2024-25 mewn cymorth cyflogadwyedd gan gynnwys cyflawni'r Warant i Bobl Ifanc, a hynny fel blaenoriaeth allweddol i helpu i sicrhau nad oes cenhedlaeth goll yn dilyn y pandemig. Drwy'r buddsoddiad hwn byddwn yn cynnig cymorth cysylltiedig â gwaith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth i bawb 16-24 oed. Bydd hyn yn dwyn ynghyd Twf Swyddi Cymru + i ddarparu pecynnau cymorth unigol i helpu pobl ifanc i gyrraedd eu potensial llawn a chymryd eu camau cyntaf i fyd gwaith ochr yn ochr â ReAct+ a fydd yn dileu rhwystrau i gyflogaeth. Byddwn hefyd yn datblygu dulliau cyllidebu ar sail rhyw fel rhan o'r gwaith hwn er mwyn deall yn well effeithiau rhyngadrannol y polisi hwn i dargedu cyllid yn well a lliniaru effeithiau anfwriadol.

4.76 Er na allwn llwyr osgoi effeithiau colli cyllid yr UE yng Nghymru, byddwn yn buddsoddi £30m yn ychwanegol hyd 2024-25 i sicrhau bod ein rhaglen prentisiaethau pob oed yn parhau, yn ogystal â chymorth i ehangu Prentisiaethau a Rennir a Gradd-brentisiaethau. Drwy ein rhaglen brentisiaethau byddwn yn cynyddu cyfleoedd i bobl o bob oed a chefndir ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy yn y gweithle a chynyddu eu cyfleoedd bywyd. Byddwn hefyd yn buddsoddi mwy mewn cefnogi pobl ag anableddau i fanteisio ar gyfleoedd i wneud prentisiaeth. Bydd hyn yn ategu ein hymrwymiad i ddileu'r bwlch rhwng y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru a'r DU erbyn 2050 gan ganolbwyntio ar Waith Teg a chodi cyfranogiad yn y farchnad lafur ymysg grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

4.77 Rydym hefyd yn darparu £1m yn ychwanegol hyd 2024-25 mewn Cyfrifon Dysgu Personol sy'n rhoi cymorth ledled Cymru i bobl gyflogedig ar gyflogau is na'r cyfartaledd i ennill sgiliau lefel uwch i'w helpu i fanteisio ar ystod ehangach o gyfleoedd gwaith a/neu gael gwaith ar lefel uwch. Fel ein cynllun peilot cyntaf ar gyfer cyllidebu ar sail rhyw, mae Cyfrifon Dysgu Personol yn diwallu anghenion sgiliau rhanbarthol sy'n esblygu ac yn parhau i fynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau. Mae cyllid wedi'i dargedu'n benodol at brinder llafur a bylchau mewn sgiliau mewn sectorau blaenoriaeth megis iechyd a gofal cymdeithasol, logisteg, adeiladu gwyrdd ac ynni adnewyddadwy.

4.78 Rydym hefyd yn buddsoddi cyfanswm o dros £100m o gyfalaf hyd 2024-25 mewn ystod o gymorth economaidd dros y tair blynedd nesaf i barhau i ariannu busnesau ledled Cymru.

## Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt.

### Adfywio a Diogelwch Cymunedol

4.79 Mae'r duedd tuag at weithgarwch economaidd “o bell”, yn enwedig gweithio gartref, wedi cyflymu o ganlyniad i'r pandemig, gan gael effaith ar y farchnad lafur ac ar ffawd canol trefi a dinasoedd. Mae'r pandemig wedi taro'r sector manwerthu yn arbennig o galed gyda manwerthwyr mawr yn cau unedau gan adael bylchau sylweddol ar eu hôl, ond ystyriwn hyn yn gyfle i newid. Rydym am fuddsoddi a darganfod beth sy'n gwneud pob lle yn wahanol, gan ddod o hyd i ffyrdd o wneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt.

4.80 Byddwn yn buddsoddi £3m o refeniw ychwanegol a chyfanswm o £100m o gyfalaf hyd 2024-25 i gefnogi twf cynaliadwy trefi a dinasoedd a'u trawsnewid yn fannau ar gyfer byw, gweithio, dysgu a hamdden. Fel yr amlinellir yn ein Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi ymrwymo i ganol ein trefi, gyda ffocws clir ar sicrhau eu bod yn gallu dod yn fwy economaidd ystwyth yn ogystal ag ehangu trefniadau i greu neu wella mannau gwyrdd yn sylweddol. Bydd y cyllid hwn yn sicrhau hygyrchedd a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus allweddol yn ogystal â hybu cyfleoedd i ddatblygu busnesau a chreu swyddi. Fel hyn, gall canol trefi fod yn fannau amlwg i gymunedau.

4.81 Gyda thystiolaeth gynyddol bod menywod yn llai tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu cymuned, byddwn yn sicrhau bod gan bawb yr hawl i deimlo'n ddiogel. Byddwn yn buddsoddi bron i £4m yn ychwanegol hyd 2024-25 i gyflawni ein hymrwymiad i ariannu 600 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ledled Cymru i fynd i'r afael â throseddu a chefnogi cymunedau.

## Tai a Digartrefedd

4.82 Ein cred ni o hyd yw y dylai pawb yng Nghymru gael lle teilwng i alw'n gartref ac na ddylai neb fod yn ddigartref. Mae cyllid ar gyfer tai a digartrefedd yn parhau i fod yn feysydd buddsoddi hanfodol i helpu i ddiogelu'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

4.83 Yn ganolog i'r ymrwymiad hwn y mae buddsoddiad o dros £1bn o gyfalaf hyd 2024-25 i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein hymrwymiad allweddol i adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel i'w rhentu, i fynd i'r afael â phrinder tai ac allyriadau nwyon tŷ gwydr y genedl.

4.84 Ochr yn ochr â hyn rydym yn buddsoddi cyfanswm o £60m o gyfalaf hyd 2024-25 mewn Tai ar gyfer y Farchnad i fynd i'r afael ag anghenion tai a hybu adeiladu tai; £8.5m ar gyfer Cymorth Prynu i gefnogi cynlluniau perchnogaeth tai rhannu ecwiti; a buddsoddiad o £3.5m i lesio eiddo yn y Sector Rhentu Preifat at ddefnydd awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau o ran digartrefedd. Mae rhagor o fanylion ar gael yn ein Cynllun Cyllid Seilwaith.

4.85 Ategir hyn gan becyn ychwanegol o £27.5m o refeniw hyd 2024-25 i hybu buddsoddi mewn Atal Digartrefedd a Chymorth Tai ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwaith i gyflawni ein hamcan i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym.

4.86 Rydym hefyd wedi dyrannu £1m ychwanegol fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru i sefydlu Unnos, cwmni adeiladu cenedlaethol, i helpu cynghorau a landlordiaid cymdeithasol i wella'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy.

4.87 Un o'r ffactorau allweddol ar gyfer byw yng nghanol ein trefi yw mynediad hwylus at fanwerthu, gwasanaethau a thrafnidiaeth, ond rhaid iddynt fod yn lleoedd diogel i fyw ynddynt. Mae adeiladau preswyl uchel iawn yn parhau i wynebu ystod o wendidau diogelwch adeiladau systemig ac mae cysgod trychineb Tŵr Grenfell yn parhau'n fawr. Pan fo'n briodol i'r llywodraeth ddarparu cymorth i sicrhau diogelwch cartrefi pobl, rydym wedi ymrwymo o hyd i wneud hynny.

4.88 Byddwn yn buddsoddi £6.5m o refeniw ychwanegol a chyfanswm o £375m o gyfalaf hyd 2024-25. Bydd y cyllid hwn yn galluogi buddsoddiad hirdymor i adfer blociau o fflatiau drwy ail gam Cronfa Diogelwch Adeiladau Cymru, ochr yn ochr â chefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Pasbortau Diogelwch Adeiladau, sefydlu'r Tîm Arolygu ar y Cyd a chefnogi gwaith ar ddiwygio ac adfer hirdymor.

## Cymru Wyrddach

4.89 Mae tymereddau byd-eang wedi bod yn cynyddu'n raddol dros yr ychydig ddegawdau diwethaf – mae naw o'r 10 mlynedd gynhesaf wedi cael eu cofnodi ers 2010. Disgwylir yn gyffredinol y bydd y newid yn yr hinsawdd yn golygu y bydd digwyddiadau tywydd eithafol yn parhau i ddigwydd yn amlach ac yn fwy dwys, gan arwain at fwy o effeithiau. Yng Nghymru, mae'n debygol iawn y bydd digwyddiadau tywydd digynsail, gan gynnwys stormydd arfordirol, llifogydd, tywydd poeth a sychder, yn cynyddu dros y blynyddoedd sydd i ddod. Ar yr un pryd, mae cyfraddau colli bioamrywiaeth yn cyflymu'n fyd-eang ac yng Nghymru ar lefel nas gwelwyd o'r blaen.

4.90 Mae'n amlwg ein bod yn wynebu argyfwng hinsawdd a natur a bydd Cymru yn chwarae ei rhan i sicrhau dyfodol gwyrddach. Ochr yn ochr â phecyn wedi'i dargedu o £160m o gyllid ychwanegol hyd at 2024-25, rydym wedi cynnal adolygiad sylfaen sero o wariant cyfalaf. Drwy ein Cynllun Cyllid Seilwaith tair blynedd newydd sy'n seiliedig ar £8b o wariant cyfalaf, rydym wedi nodi sut rydym wedi ystyried effaith carbon yr holl fuddsoddiadau yn gyson â Chynllun Sero Net Cymru, gyda buddsoddiad wedi'i dargedu gwerth £1.8bn yn ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur.

### Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn.

### Coedwig Genedlaethol a Phren Cymru

4.91 Rydym yn cydnabod gwerth natur a'r buddiannau ehangach y mae'n eu cynnig fel seilwaith naturiol. Ochr yn ochr â mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac atal colli bioamrywiaeth, rydym yn cydnabod y buddiannau o ran iechyd a llesiant i bobl yn ogystal â'r buddiannau economaidd sy'n gysylltiedig â buddsoddi mewn coed.

4.92 Rydym yn buddsoddi swm ychwanegol o £12m o gyllid refeniw a chyfanswm o £57m o gyllid cyfalaf yn Strategaeth y Goedwig Genedlaethol a Phren Cymru hyd at 2024-25 a fydd yn helpu i greu Coedwig Genedlaethol yn ymestyn o'r gogledd i'r de. Bydd hyn hefyd yn helpu cymunedau i greu 30 o goetiroedd newydd, cysylltu cynefinoedd a diogelu coetiroedd hynafol, yn ogystal â chreu strategaeth ddiwydiannol ar gyfer pren. Ceir rhagor o wybodaeth yn Atodiad D.

### Bioamrywiaeth a Mannau Gwyrdd

4.93 Mae cysylltiad annatod rhwng natur a'n hiechyd a'n llesiant, o'r bwyd a fwytawn hyd at ddatblygu technolegau a meddyginiaethau newydd ochr yn ochr â buddiannau uniongyrchol o ran iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Ochr yn ochr â'n Coedwig Genedlaethol, rydym yn buddsoddi swm ychwanegol o £9m o gyllid refeniw a bron £90m o gyllid cyfalaf hyd at 2024-25 i wella mannau gwyrdd ar bob graddfa a sicrhau ein bod yn bodloni ein rhwymedigaethau rhyngwladol presennol ac yn y dyfodol o ran bioamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys Parc Cenedlaethol newydd, rhaglen Rhwydweithiau Natur, Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, Natur am Byth a'n rhaglen gyfalaf Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy er mwyn sicrhau bod ein cynefinoedd a'n rhywogaethau mwyaf gwerthfawr yn gallu ffynnu, a hefyd helpu i gynnig profiad o fyd natur ble bynnag y mae pobl yn byw drwy ymgysylltu â chymunedau lleol.

4.94 Rydym hefyd yn darparu cyfanswm o £7.2m o gyllid cyfalaf ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru hyd at 2024-25 er mwyn diweddaru ei seilwaith TGCh gweithredol i'w alluogi i gyflawni ei weithgareddau craidd mewn ffordd fwy effeithlon a chadarn er mwyn ein helpu i gyflawni ein blaenoriaethau.

## Ynni

4.95 Mae'r trydan adnewyddadwy a gynhyrchir yma ychydig dros hanner y trydan a ddefnyddiwn yng Nghymru, ond rydym wedi ymrwymo i fynd ymhellach drwy sicrhau 100 MW ychwanegol o drydan adnewyddadwy o dan berchenogaeth cymunedau a chyrff cyhoeddus erbyn 2025. Rydym yn buddsoddi swm ychwanegol o £8m o gyllid refeniw a bron £90m o gyllid cyfalaf hyd at 2024-25 er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau o ran ynni adnewyddadwy, gan gynnwys ystyried cyfleoedd i ddatblygu sector ynni'r môr. Drwy ein Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru, byddwn yn sefydlu Ynni Cymru, sef cwmni ynni o dan berchenogaeth gyhoeddus i Gymru, er mwyn cynyddu faint o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir o dan berchenogaeth gyhoeddus. Rydym hefyd yn adolygu'r ddarpariaeth yng Ngwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i helpu cymunedau a chyrff cyhoeddus i ddatblygu eu prosiectau ynni eu hunain.

## Datgarboneiddio Tai a Thlodi Tanwydd

4.96 Amcangyfrifir bod stoc dai bresennol Cymru yn gyfrifol am 27 y cant o'r holl ynni a ddefnyddir yng Nghymru a 15 y cant o'n holl allyriadau nwyon tŷ gwydr o ganlyniad i'r galw ymhlith defnyddwyr. Ers 2005, mae'r mesurau effeithlonrwydd ynni a gyflwynir yng Nghymru wedi arwain at ddefnyddio llai o ynni a byddwn yn buddsoddi i fynd ymhellach. Byddwn yn buddsoddi £580m o gyllid cyfalaf hyd at 2024-25 i ddatgarboneiddio ein stoc tai cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys cyllido'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, sef ein rhaglen flaenllaw sydd â'r nod o wella effeithlonrwydd ynni ein stoc tai cymdeithasol bresennol.

4.97 Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd buddsoddi mewn Tlodi Tanwydd a Chartrefi Clyd. Bwriedir buddsoddi cyfanswm o £100m o gyllid cyfalaf hyd at 2024-25 er mwyn parhau i gyflwyno cynllun Cartrefi Clyd Nyth a chynlluniau olynol. Ochr yn ochr â'r gwaith i barhau i wella effeithlonrwydd ynni tua 6,000 o gartrefi y flwyddyn, a thrwy hynny leihau allyriadau carbon, mae'r rhaglen hon hefyd yn creu swyddi, cyfleoedd hyfforddiant a chadwyni cyflenwi ynghyd â chefnogi llesiant yn fwy cyffredinol gan fod cartrefi wedi'u hinswleiddio'n well yn gwella deilliannau addysgol plant, yn lleihau nifer y marwolaethau o ganlyniad i salwch anadlol, ac yn rhoi gwell ansawdd bywyd i bobl.

4.98 Drwy fynd ati i dargedu'r cartrefi lle mae'r angen mwyaf, yr adeiledd gwaethaf a'r incymau isaf, byddwn hefyd yn cynnig buddiannau cadarnhaol i gymunedau pobl ddu ac Asiaidd a phobl anabl. Bydd y rhaglen hefyd yn helpu'r rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is a phobl â nodweddion gwarchodedig.

## Trafnidiaeth

4.99 Un o'r ffynonellau mwyaf o allyriadau nwyon tŷ gwydr a llygredd aer yng Nghymru yw trafnidiaeth. Er bod allyriadau ceir wedi gostwng naw y cant yn y degawd diwethaf, mae cyfanswm yr allyriadau trafnidiaeth ar y tir wedi aros yn ddigyfnewid ar y cyfan ers lefelau 1990. Yn seiliedig ar y taflwybrau presennol, mae traffig ceir a faniau yng Nghymru yn cynyddu, mae'r traffig ar y rheilffyrdd wedi cynyddu'n sylweddol, ond mae teithiau ar fysiau wedi lleihau. Mae'r galw am feicio wedi mwy na dyblu dros y degawd diwethaf, ond mae'n dal i gyfrif am gyfran fach iawn o gyfanswm y teithio a wneir. Mae poblogrwydd cerbydau trydan hefyd wedi cynyddu'n sydyn ledled y DU yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a allai leihau allyriadau ceir yn gyffredinol.

4.100 Mae Llwybr Newydd, sef ein Strategaeth Drafnidiaeth i Gymru, a Cymru Sero Net yn nodi amrywiaeth eang o gamau gweithredu y bydd angen eu cymryd i hwyluso'r broses o newid dulliau teithio.

4.101 Gwyddom fod buddsoddi mewn seilwaith gwefru yn hollbwysig er mwyn sicrhau, erbyn 2025, fod holl ddefnyddwyr ceir a faniau trydan yng Nghymru yn hyderus y bydd seilwaith gwefru cerbydau trydan ar gael pryd a ble mae ei angen arnynt. Rydym yn buddsoddi £65m o gyllid cyfalaf hyd at 2024-25 i sbarduno mentrau gwefru a chyfnewid fflydoedd a hyrwyddo cydweithrediad mewn grwpiau cyflawni ochr yn ochr â chyllido Cronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn Llywodraeth Cymru.

4.102 Gwyddom y gall buddsoddi mewn seilwaith Teithio Llesol wireddu amrywiaeth eang o'r canlyniadau - o fuddiannau iechyd a llesiant i hyrwyddo a galluogi mathau cynaliadwy o deithio. Er mwyn cefnogi ein targed o sicrhau bod dulliau teithio cynaliadwy yn cyfrif am 45 y cant o deithiau erbyn 2040, rydym yn buddsoddi cyfanswm o £220m o gyllid cyfalaf mewn rhaglenni seilwaith Teithio Llesol hyd at 2024-25. Er mwyn gwerthuso effaith y buddsoddiad hwn ar wahanol grwpiau, rydym hefyd yn cyflwyno cynllun peilot cyllidebu yn ôl rhywedd yn y maes hwn fel y'i hamlinellwyd yn ein Cynllun Gwella'r Gyllideb.

4.103 Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd buddsoddi mewn atebion trafnidiaeth leol cynaliadwy a chadarn. Rydym yn buddsoddi cyfanswm o £120m o gyllid cyfalaf hyd at 2024-25 er mwyn parhau i gyllido mentrau trafnidiaeth leol er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer system drafnidiaeth gynaliadwy, gan gynnwys cefnogi'r broses o gyflwyno ein cynllun i ostwng terfynau cyflymder i 20mya.

## Economi Gylchol

4.104 Erbyn hyn, mae Cymru yn cael ei chydnabod fel y wlad sydd â'r gyfradd ailgylchu gwastraff trefol uchaf yn y DU, yr uchaf ond un yn Ewrop a'r bedwaredd uchaf yn y byd, ond rydym yn parhau i ddefnyddio ein hadnoddau mewn ffordd anghynaliadwy. Rydym yn buddsoddi £5m yn ychwanegol yn 2022-23 er mwyn sicrhau y gall y cynnydd hwn barhau ac y gallwn adeiladu arno. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn buddsoddi £0.5m i ddeddfu i wahardd eitemau plastig untro sy'n fwy tebygol o gael eu taflu fel sbwriel er mwyn helpu i leihau faint o blastig a ddefnyddir a datblygu economi gylchol yng Nghymru.

4.105 Gyda 45 y cant o'n hallyriadau defnydd yn deillio o'r nwyddau a'r cynhyrchion a ddefnyddiwn bob dydd, mae'n rhaid inni bontio i economi gylchol lle rydym yn parhau i ddefnyddio adnoddau cyhyd â phosibl ac osgoi pob math o wastraff. Rydym yn buddsoddi cyfanswm o £160m o gyllid cyfalaf hyd at 2024-25 yn ein heconomi gylchol, gan gynnwys cyflwyno 80 o ganolfannau ailddefnyddio ac atgyweirio yng nghanol trefi er mwyn i ddeunyddiau barhau i gael eu defnyddio yn ein cymunedau ac er mwyn inni annog pobl i ddychwelyd i ganol ein trefi ac adeiladu ar ein llwyddiant o ran ailgylchu.

### Llifogydd a Thomenni Glo

4.106 Yn ogystal â buddsoddi mewn camau ataliol, mae'r ymateb i'r newid yn yr hinsawdd hefyd yn gofyn inni ymateb i'w effeithiau. Mae'r asesiad perygl llifogydd diweddaraf yn dangos bod tua 245,000 eiddo yng Nghymru mewn perygl o fynd dan ddŵr o ganlyniad i lifogydd o foroedd, afonydd a dŵr wyneb. Rydym yn buddsoddi swm ychwanegol o £24m o gyllid refeniw a chyfanswm o £102m o gyllid cyfalaf hyd at 2024-25 i ddarparu mesurau amddiffyn rhag llifogydd ychwanegol ar gyfer mwy na 45,000 o gartrefi, er mwyn cyflwyno atebion sy'n seiliedig ar natur ledled Cymru a sefydlu cymorth wedi'i dargedu i adfer cynefinoedd morwellt a morfa heli ar hyd ein harfordir. Mae'r cyllid hwn hefyd yn cefnogi'r Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol a fydd yn lleihau'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol i fwy na 17,400 eiddo pan fydd wedi'i chwblhau.

4.107 Mae dros 2,500 o domenni glo yng Nghymru, sy'n dyddio'n ôl i'r cyfnod cyn datganoli. Oherwydd effeithiau cynyddol y newid yn yr hinsawdd, mae risgiau cynyddol bellach y gall y tomenni hyn lithro, sy'n gofyn am gymryd camau gweithredu ar fyrder i leihau'r risg o dirlithriadau yn y dyfodol a helpu i atal perygl bywyd, difrod i eiddo ac i seilwaith hanfodol yn ogystal â'r amgylchedd. Rydym yn buddsoddi swm ychwanegol o £4.5m a chyfanswm o £44.4m o gyllid cyfalaf i gefnogi gwaith cynnal a chadw hanfodol. Ochr yn ochr â datblygu'r rhaglen adfer yn y dyfodol, bydd y cyllid hwn hefyd yn helpu i ddatblygu deddfwriaeth, a fydd yn cynnwys gofynion goruchwylio a monitro newydd ac yn ymdrin â materion o ran adnoddau mewn awdurdodau lleol, a'i rhoi ar waith.

### Ansawdd Aer a Dŵr

4.108 Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif y gellir priodoli hyd at 1,400 o farwolaethau y flwyddyn i lygredd aer. Er bod ansawdd aer rhai ardaloedd yng Nghymru gyda'r gorau yn y DU, yn ne Cymru y mae rhai o'r lefelau llygredd aer gwaethaf. Er bod ansawdd dŵr yng Nghymru, boed mewn moroedd, afonydd, nentydd neu ar y ddaear, yn gwella ar y cyfan, mae llygredd yn gwneud niwed difrifol i fioamrywiaeth ac ecosystemau, gan arwain at ewtroffeiddio ac asideiddio dyfrffyrdd a phriddoedd.

4.109 Rydym yn buddsoddi swm ychwanegol o £4.5m o gyllid refeniw a bron £50m o gyllid cyfalaf hyd at 2024-25 mewn ansawdd aer a dŵr. Bydd y cyllid yn helpu i gyflwyno Deddf Aer Glân i Gymru, a'i gwneud yn bosibl cyflwyno gwell gwasanaeth monitro ac asesu ansawdd aer. Bydd hefyd yn dechrau dynodi dyfroedd mewndirol Cymru at ddibenion hamdden, gwella prosesau monitro ansawdd dŵr a deddfu i gryfhau'r gofynion ar gyfer y defnydd o systemau draenio cynaliadwy sy'n darparu cynefin bywyd gwyllt.

## Ffermio a Physgodfeydd

4.110 O ystyried bod dros 80 y cant o dir yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddol a bod llygredd sy'n deillio o'r defnydd o nitrogen mewn amaethyddiaeth yn gwneud niwed i fioamrywiaeth ac ecosystemau, mae'n hollbwysig ein bod yn gweithio gyda ffermwyr a rheolwyr tir. Rydym yn buddsoddi dros £1bn mewn ffermio a datblygu gwledig hyd at 2024-25, a fydd yn cefnogi gwelliannau amgylcheddol, rheoli tir a'n cymunedau gwledig.

4.111 Mae hyn yn cynnwys swm ychwanegol o £85m o gyllid refeniw a chyfanswm o £90m o gyllid cyfalaf, gan glustnodi'r cyllid ffermio rydym wedi'i dderbyn ar ôl i'r DU adael yr UE. Bydd hyn yn sail i'n hymrwymiad i greu Cymru Sero Net a system newydd o gymorth i ffermydd a fydd yn manteisio i'r eithaf ar rym gwarchod natur drwy ffermio, gan gydnabod anghenion penodol ffermydd teuluol yng Nghymru a chydnabod prosesau cynhyrchu bwyd lleol ecolegol gynaliadwy drwy gyllido cyfres o gynlluniau peilot a phrosiectau sy'n paratoi ffermwyr i fod yn rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd. Cefnogir hyn drwy fuddsoddiad cyfalaf gwerth £18m er mwyn hwyluso rhaglen newid ar gyfer Taliadau Gwledig Cymru a gwella'r system TG.

4.112 Rydym hefyd yn buddsoddi £400k o gyllid cyfalaf i gyflawni ein hymrwymiadau statudol gweddilliol tan 2024 o dan Gronfa’r Môr a Physgodfeydd Ewrop sy'n cyfrannu at wella perfformiad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol Pysgodfeydd Ewrop.

4.113 Mae angen inni hefyd ymateb i'r effeithiau ar iechyd anifeiliaid. Rydym yn darparu swm ychwanegol o £5m o gyllid refeniw i gefnogi ein Rhaglen Dileu TB sydd eisoes wedi arwain at ostyngiad o 48 y cant mewn achosion newydd ers i'r rhaglen ddechrau yn 2009, ac sy'n hollbwysig er mwyn inni barhau â'n cynnydd tuag at gyflawni ein targedau i Ddileu TB.

## Newid Ymddygiadol

4.114 Bydd angen i bob un ohonom ni fel unigolion chwarae ein rhan. Rydym yn buddsoddi £3.5m yn ychwanegol hyd at 2024-25 mewn ymchwil, gwyddor ymddygiad a'r gwyddorau cymdeithasol er mwyn helpu pobl Cymru i gymryd rhan mewn sgyrsiau ar y newid yn yr hinsawdd. Bydd y cyllid hefyd yn helpu i ddatblygu adeilad a chynnwys ar gyfer y Ganolfan Gwybodaeth Newid yn yr Hinsawdd newydd i Gymru fel canolbwynt dros rannu astudiaethau achos, gwybodaeth, pecynnau cymorth a chynnwys â rhanddeiliaid a'r cyhoedd er mwyn gwella eu dealltwriaeth o garbon, ymgysylltu â nhw, eu hysbrydoli a'u hannog i gymryd camau gweithredu.

# Pennod 5: Cynlluniau gwario Llywodraeth Cymru

## Cyllideb gwariant Cymru

5.01 Mae gwariant datganoledig yng Nghymru ar gyfer 2022-23 yn cynnwys dyraniadau o £20bn i Brif Grwpiau Gwariant (MEGs) Llywodraeth Cymru a chynlluniau dangosol o £21bn yn 2023-24 a £22bn yn 2024-25. Bydd Cynlluniau Dangosol ar gyfer 2023-24 a 2024-25 yn cael eu hailystyried mewn rowndiau cyllidebol blynyddol dilynol.

5.02 Mae Tabl 5.1 yn dangos cydrannau cyllideb gwariant Cymru, wedi'u dadansoddi yn ôl MEG, a chyllidebau dangosol ar gyfer Comisiwn y Senedd, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r tabl hefyd yn dangos cyllid wrth gefn heb ei neilltuo. Mae'r dyraniadau MEG yn adlewyrchu'r blaenoriaethau lefel uchel a nodir ym Mhennod 4 a’r rhain yw ein cyfansymiau rheoli ar gyfer rheoli'r Gyllideb drwy gydol y flwyddyn.

Tabl 5.1 – Dyrannu Cyllideb Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | | Cyllideb Ddrafft 2022-23 | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 |
|---|---|---|---|---|
| | | | £000s | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | | 10,323,198 | 10,654,035 | 10,830,950 |
| Cyllid a Llywodraeth Leol | | 5,639,245 | 5,879,245 | 6,016,245 |
| Y Gymraeg ac Addysg | | 3,436,100 | 3,646,445 | 3,792,536 |
| Newid Hinsawdd | | 2,856,043 | 2,924,148 | 2,792,390 |
| Yr Economi | | 572,446 | 591,946 | 610,946 |
| Materion Gwledig | | 393,162 | 456,162 | 477,962 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | | 155,418 | 165,400 | 168,400 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | | 356,995 | 359,995 | 360,995 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau i MEGs Llywodraeth Cymru** | | **23,732,607** | **24,677,376** | **25,050,424** |
| Adnoddau heb eu dyrannu | Adnoddau Cyllidol | 99,638 | 562 | 665 |
| | Adnoddau Anghyllidol | 520,374 | 491,789 | 465,458 |
| Adnoddau heb eu dyrannu | Trafodiadau Ariannol | 265,026 | 95,754 | 90,386 |
| Gor-ddyraniad Cyfalaf Cyffredinol | | (79,715) | (98,541) | (98,840) |
| Comisiwn y Senedd | | 62,942 | 64,245 | 65,444 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | | 5,354 | 5,354 | 5,354 |
| Swyddfa Archwilio Cymru | | 8,888 | 8,888 | 8,888 |
| Y Comisiwn Etholiadol | | 1,400 | 1,250 | 1,250 |
| Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | | 748 | 763 | 778 |
| **CYFANSWM CYLLIDEB CYMRU** | | **24,617,262** | **25,247,440** | **25,589,807** |

## Categorïau gwariant

5.03 O fewn dyraniadau’r MEG, ceir gwahanol fathau o wariant a ddefnyddir at wahanol ddibenion:

- Adnoddau cyllidol
- Adnoddau anghyllidol
- Cyfalaf cyffredinol
- Trafodiadau ariannol
- Gwariant a reolir yn flynyddol

5.04 Mae Tablau 5.2a a 5.2b yn nodi dyraniadau'r MEG yn ôl y categorïau hyn sy'n adlewyrchu nad oes dyraniadau Cyfalaf Trafodiadau Ariannol ar hyn o bryd a fydd yn cael eu gwneud fel rhan o'n paratoadau ar gyfer Cyllideb Derfynol 2022-23.

Tabl 5.2a - Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru 2022-23

| | CYFANSWM DYRANIADAU MEG 2022-23 £000oedd | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adnoddau | | | Cyfalaf | | | AME | | | CYFANSWM DYRANIAD MEG |
| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | Cyllidol | Anghyllidol | Cyfanswm Adnoddau | Cyffredinol | Trafodiadau Ariannol[7] | Cyfanswm Cyfalaf | Adnoddau | Cyfalaf | Cyfanswm AME | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 9,543,822 | 257,956 | **9,801,778** | 335,000 | — | **335,000** | 186,420 | — | **186,420** | **10,323,198** |
| Cyllid a Llywodraeth Leol | 4,456,961 | 421 | **4,457,382** | 151,863 | — | **151,863** | 1,030,000 | — | **1,030,000** | **5,639,245** |
| Y Gymraeg ac Addysg | 1,715,843 | 459,895 | **2,175,738** | 355,300 | — | **355,300** | (146,304) | 1,051,366 | **905,062** | **3,436,100** |
| Newid Hinsawdd | 940,529 | 239,121 | **1,179,650** | 1,576,000 | — | **1,576,000** | 100,393 | — | **100,393** | **2,856,043** |
| Yr Economi | 390,823 | 11,598 | **402,421** | 124,500 | — | **124,500** | 45,525 | — | **45,525** | **572,446** |
| Materion Gwledig | 345,145 | 10,817 | **355,962** | 37,200 | — | **37,200** | — | — | — | **393,162** |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 110,177 | 178 | **110,355** | 17,000 | — | **17,000** | 28,063 | — | **28,063** | **155,418** |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 326,795 | 17,000 | **343,795** | 10,000 | — | **10,000** | 3,200 | — | **3,200** | **356,995** |
| **Cyfanswm y Dyraniadau i MEGs Llywodraeth Cymru** | **17,830,095** | **996,986** | **18,827,081** | **2,606,863** | **0** | **2,606,863** | **1,247,297** | **1,051,366** | **2,298,663** | **23,732,607** |

[7]Fel y nodir ym Mhennod 1 paragraffau 1.21 ac 1.22, dyrennir cyfalaf Trafodiadau Ariannol yng nghyllideb derfynol 2022-23.

## Tabl 5.2b - Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau Dangosol Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru 2023-24

| | CYFANSWM DYRANIADAU DANGOSOL MEG 2023-24 £000oedd | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adnoddau | | | Cyfalaf | | | AME | | | |
| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | Cyllidol | Anghyllidol | Cyfanswm Adnoddau | Cyffredinol | Trafodiadau Ariannol[8] | Cyfanswm Cyfalaf | Adnoddau | Cyfalaf | Cyfanswm AME | CYFANSWM DYRANIAD MEG |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 9,830,822 | 257,956 | **10,088,778** | 375,000 | — | **375,000** | 190,257 | — | **190,257** | **10,654,035** |
| Cyllid a Llywodraeth Leol | 4,555,961 | 421 | **4,556,382** | 201,863 | — | **201,863** | 1,121,000 | — | **1,121,000** | **5,879,245** |
| Y Gymraeg ac Addysg | 1,765,843 | 488,480 | **2,254,323** | 360,300 | — | **360,300** | (129,589) | 1,161,411 | **1,031,822** | **3,646,445** |
| Newid Hinsawdd | 929,529 | 239,121 | **1,168,650** | 1,631,050 | — | **1,631,050** | 124,448 | — | **124,448** | **2,924,148** |
| Yr Economi | 404,823 | 11,598 | **416,421** | 130,000 | — | **130,000** | 45,525 | — | **45,525** | **591,946** |
| Materion Gwledig | 408,145 | 10,817 | **418,962** | 37,200 | — | **37,200** | 0 | — | — | **456,162** |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 122,177 | 178 | **122,355** | 17,000 | — | **17,000** | 26,045 | — | **26,045** | **165,400** |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 329,795 | 17,000 | **346,795** | 10,000 | — | **10,000** | 3,200 | — | **3,200** | **359,995** |
| **Cyfanswm y Dyraniadau i MEGs Llywodraeth Cymru** | **18,347,095** | **1,025,571** | **19,372,666** | **2,762,413** | **0** | **2,762,413** | **1,380,886** | **1,161,411** | **2,542,297** | **24,677,376** |

[8] Fel y nodir ym Mhennod 1 paragraffau 1.21 ac 1.22, dyrennir cyfalaf Trafodiadau Ariannol yng nghyllideb derfynol 2022-23.

Tabl 5.2c - Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau Dangosol Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru 2024-25

| | CYFANSWM DYRANIADAU DANGOSOL MEG 2024-25 £000oedd | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adnoddau | | | Cyfalaf | | | AME | | | CYFANSWM DYRANIAD MEG |
| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | Cyllidol | Anghyllidol | Cyfanswm Adnoddau | Cyffredinol | Trafodiadau Ariannol[9] | Cyfanswm Cyfalaf | Adnoddau | Cyfalaf | Cyfanswm AME | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 10,050,822 | 257,956 | **10,308,778** | 395,000 | — | **395,000** | 127,172 | — | **127,172** | **10,830,950** |
| Cyllid a Llywodraeth Leol | 4,665,961 | 421 | **4,666,382** | 201,863 | — | **201,863** | 1,148,000 | — | **1,148,000** | **6,016,245** |
| Y Gymraeg ac Addysg | 1,803,843 | 514,811 | **2,318,654** | 360,300 | — | **360,300** | (163,720) | 1,277,302 | **1,113,582** | **3,792,536** |
| Newid Hinsawdd | 951,529 | 239,121 | **1,190,650** | 1,597,000 | — | **1,597,000** | 4,740 | — | **4,740** | **2,792,390** |
| Yr Economi | 420,823 | 11,598 | **432,421** | 133,000 | — | **133,000** | 45,525 | — | **45,525** | **610,946** |
| Materion Gwledig | 430,145 | 10,817 | **440,962** | 37,000 | — | **37,000** | — | — | **—** | **477,962** |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 125,177 | 178 | **125,355** | 17,000 | — | **17,000** | 26,045 | — | **26,045** | **168,400** |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 330,795 | 17,000 | **347,795** | 10,000 | — | **10,000** | 3,200 | — | **3,200** | **360,995** |
| **Cyfanswm y Dyraniadau i MEGs Llywodraeth Cymru** | **18,779,095** | **1,051,902** | **19,830,997** | **2,751,163** | **0** | **2,751,163** | **1,190,962** | **1,277,302** | **2,468,264** | **25,050,424** |

[9]Fel y nodir ym Mhennod 1 paragraffau 1.21 ac 1.22, dyrennir cyfalaf Trafodiadau Ariannol yng nghyllideb derfynol 2022-23.

Tabl 5.3a - Dyraniadau Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Adnoddau Cyllidol Llywodraeth Cymru

| DYRANIADAU CYLLIDOL | | | | |
|---|---|---|---|---|
| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | Llinell Sylfaen Ddiwyg-iedig Cyllideb Derfynol 2021-22[10] | Cyllideb Ddrafft 2022-23 | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 |
| | £000oedd | | | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 8,596,822 | 9,543,822 | 9,830,822 | 10,050,822 |
| Cyllid a Llywodraeth Leol | 3,910,961 | 4,456,961 | 4,555,961 | 4,665,961 |
| Y Gymraeg ac Addysg | 1,527,843 | 1,715,843 | 1,765,843 | 1,803,843 |
| Newid Hinsawdd | 742,529 | 940,529 | 929,529 | 951,529 |
| Yr Economi | 342,823 | 390,823 | 404,823 | 420,823 |
| Materion Gwledig | 330,145 | 345,145 | 408,145 | 430,145 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 88,177 | 110,177 | 122,177 | 125,177 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 291,795 | 326,795 | 329,795 | 330,795 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Cyllidol i MEGs Llywodraeth Cymru** | **15,831,095** | **17,830,095** | **18,347,095** | **18,779,095** |

Tabl 5.3b - Dyraniadau Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Adnoddau Anghyllidol Llywodraeth Cymru

| ADNODDAU ANGHYLLIDOL | | | | |
|---|---|---|---|---|
| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | Llinell Sylfaen Ddiwyg-iedig Cyllideb Derfynol 2021-22 | Cyllideb Ddrafft 2022-23 | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 |
| | £000oedd | | | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 186,137 | 257,956 | 257,956 | 257,956 |
| Cyllid a Llywodraeth Leol | 212 | 421 | 421 | 421 |
| Y Gymraeg ac Addysg | 111,168 | 459,895 | 488,480 | 514,811 |
| Newid Hinsawdd | 201,121 | 239,121 | 239,121 | 239,121 |
| Yr Economi | 11,598 | 11,598 | 11,598 | 11,598 |
| Materion Gwledig | 11,554 | 10,817 | 10,817 | 10,817 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 169 | 178 | 178 | 178 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 16,000 | 17,000 | 17,000 | 17,000 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Anghyllidol i MEGs Llywodraeth Cymru** | **537,959** | **996,986** | **1,025,571** | **1,051,902** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Dyraniadau Adnoddau i MEGS Llywodraeth Cymru** | **16,369,054** | **18,827,081** | **19,372,666** | **19,830,997** |

[10] Mae'r llinell sylfaen ddiwygiedig hon yn cynrychioli'r Gyllideb derfynol, llai cyllid COVID19 dros dro a mân addasiadau llinell sylfaen.

Tabl 5.3c – Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Cyfalaf Llywodraeth Cymru - Cyfalaf Cyffredinol (heb gynnwys Trafodiadau Ariannol)

| DYRANIADAU CYFALAF CYFFREDINOL | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)** | **Cyllideb Derfynol 2021-22** | **Cyllideb Ddrafft 2022-23** | **Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24** | **Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25** |
| | **£000oedd** | | | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 387,600 | 335,000 | 375,000 | 395,000 |
| Cyllid a Llywodraeth Leol | 209,197 | 151,863 | 201,863 | 201,863 |
| Y Gymraeg ac Addysg | 267,812 | 355,300 | 360,300 | 360,300 |
| Newid Hinsawdd | 1,371,116 | 1,576,000 | 1,631,050 | 1,597,000 |
| Yr Economi | 124,528 | 124,500 | 130,000 | 133,000 |
| Materion Gwledig | 14,606 | 37,200 | 37,200 | 37,000 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 13,411 | 17,000 | 17,000 | 17,000 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 13,579 | 10,000 | 10,000 | 10,000 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Cyfalaf Cyffredinol i MEGs Llywodraeth Cymru** | **2,401,849** | **2,606,863** | **2,762,413** | **2,751,163** |

Tabl 5.3e – Cyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) Llywodraeth Cymru – Dyraniadau Adnoddau

| DYRANIADAU ADNODDAU | | | | |
|---|---|---|---|---|
| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | Cyllideb Derfynol 2021-22 | Cyllideb Ddrafft 2022-23 | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 |
| | £000oedd | | | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 148,403 | 186,420 | 190,257 | 127,172 |
| Cyllid a Llywodraeth Leol | 1,101,000 | 1,030,000 | 1,121,000 | 1,148,000 |
| Y Gymraeg ac Addysg | (148,386) | (146,304) | (129,589) | (163,720) |
| Newid Hinsawdd | 96,592 | 100,393 | 124,448 | 4,740 |
| Yr Economi | 48,525 | 45,525 | 45,525 | 45,525 |
| Materion Gwledig | — | — | — | — |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 27,915 | 28,063 | 26,045 | 26,045 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 3,000 | 3,200 | 3,200 | 3,200 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau AME Adnoddau i MEGs Llywodraeth Cymru** | **1,277,049** | **1,247,297** | **1,380,886** | **1,190,962** |

Tabl 5.3f – Cyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) Llywodraeth Cymru – Dyraniadau Cyfalaf

| DYRANIADAU CYFALAF | | | | |
|---|---|---|---|---|
| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | Cyllideb Derfynol 2021-22 | Cyllideb Ddrafft 2022-23 | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 |
| | £000oedd | | | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | — | — | — | — |
| Cyllid a Llywodraeth Leol | — | — | — | — |
| Y Gymraeg ac Addysg | 968,961 | 1,051,366 | 1,161,411 | 1,277,302 |
| Newid Hinsawdd | — | — | — | — |
| Yr Economi | — | — | — | — |
| Materion Gwledig | — | — | — | — |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | — | — | — | — |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | — | — | — | — |
| **Cyfanswm y Dyraniadau AME Cyfalaf i MEGS Llywodraeth Cymru** | **968,961** | **1,051,366** | **1,161,411** | **1,277,302** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Dyraniadau AME i MEGs Llywodraeth Cymru** | **2,246,010** | **2,298,663** | **2,542,297** | **2,468,264** |

Tabl 5.4 – Benthyca uniongyrchol at ddibenion cyfalaf

| | 2022-2023 (£000oedd) | 2023-2024 (£000oedd) | 2023-2024 (£000oedd) |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm benthyca heb ei dalu ar 1 Ebrill (prifswm) | 220,083 | 362,427 | 499,465 |
| Benthyca cyfalaf arfaethedig i'w dynnu yn ystod y flwyddyn | 150,000 | 150,000 | 150,000 |
| Ad-dalu'r prifswm yn ystod y flwyddyn | 7,656 | 12,962 | 18,272 |
| Benthyca cyfalaf cyfanredol heb ei dalu ar 31 Mawrth | 362,427 | 499,465 | 631,193 |
| Taliadau llog sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn | 4,160 | 5,834 | 7,591 |

Tabl 5.5a – Benthyca uniongyrchol at ddibenion cyfalaf, amserlen ad-dalu 2022-23

| Amserlen ad-dalu ar sail benthyca ar y lefelau a nodir uchod | | | 2022-23 (£000oedd) |
|---|---|---|---|
| | Symiau sy’n ddyledus cyn pen 1 flwyddyn | Symiau sy’n ddyledus cyn pen 1 – 5 mlynedd | Symiau sy’n ddyledus ar ôl 5 mlynedd |
| Llog | 4,160 | 22,145 | 49,637 |
| Prifswm | 7,656 | 53,043 | 309,384 |

Tabl 5.5b – Benthyca uniongyrchol at ddibenion cyfalaf, amserlen ad-dalu 2023-24

| Amserlen ad-dalu ar sail benthyca ar y lefelau a nodir uchod | | | 2023-24 (£000oedd) |
|---|---|---|---|
| | Symiau sy’n ddyledus cyn pen 1 flwyddyn | Symiau sy’n ddyledus cyn pen 1 – 5 mlynedd | Symiau sy’n ddyledus ar ôl 5 mlynedd |
| Llog | 5,834 | 28,719 | 63,886 |
| Prifswm | 12,962 | 74,734 | 424,730 |

Tabl 5.5c – Benthyca uniongyrchol at ddibenion cyfalaf, amserlen ad-dalu 2024-25

| Amserlen ad-dalu ar sail benthyca ar y lefelau a nodir uchod | | | 2024-25 (£000oedd) |
|---|---|---|---|
| | Symiau sy’n ddyledus cyn pen 1 flwyddyn | Symiau sy’n ddyledus cyn pen 1 – 5 mlynedd | Symiau sy’n ddyledus ar ôl 5 mlynedd |
| Llog | 7,591 | 34,986 | 76,685 |
| Prifswm | 18,272 | 96,732 | 534,460 |

5.05 Mae'r ffigurau yn Nhabl 5.4 a Thablau 5.5a i 5.5c yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd lefelau benthyca yn cael eu pennu ar £150m y flwyddyn o 2021-22, hyd at 2024-25, a chan gynnwys hynny. Yn ogystal, dylid nodi y bydd y symiau ad-dalu a ddangosir hefyd yn destun amrywiadau mewn cyfraddau llog.

## Atodiad A: Mapio Dyraniadau'r Gyllideb Gyfalaf i Feysydd Buddsoddi a Sectorau

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | CAM GWEITHREDU | LLINELL WARIANT YN Y GYLLIDEB | DYRANIADAU £000oedd 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | MAES BUDDSODDI | SECTOR |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Cyflenwi Gwasanaethau Craidd y GIG | Dyraniadau Craidd y GIG | 279,908 | 309,908 | 319,908 | Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Seilwaith digidol<br>Cyfarpar y GIG<br>Seilwaith y GIG<br>Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol |
| | Cyflawni'r Strategaeth Camddefn. Sylweddau | Cronfa'r Cynllun Gweithredu | 5,072 | 5,072 | 5,072 | | Seilwaith y GIG |
| | Gofal Cymdeithasol Cymru | Gofal Cymdeithasol Cymru | 20 | 20 | 20 | | Gofal Cymdeithasol |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol | Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy | 50,000 | 60,000 | 70,000 | | |
| Cyfansymiau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | | | 335,000 | 375,000 | 395,000 | | |
| Cyllid a Llywodraeth Leol | Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol | Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol | 150,000 | 200,000 | 200,000 | Llywodraeth Leol | Llywodraeth Leol |
| | Estyn | Estyn - Gwariant Rhaglenni | 250 | 250 | 250 | Cymunedau | Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru |
| | Ystadau Cymru | Ystadau Cymru | 1,000 | 1,000 | 1,000 | Gweinyddu | Cyllid Canolog a Buddsoddi Cyfalaf - Ystadau Cymru a Buddsoddi i Arbed |
| | Cyfrifoldebau Cyllidol | Awdurdod Cyllid Cymru | 75 | 75 | 120 | Cymunedau | Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru |
| | Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiaeth Gofal Cymru | 50 | 50 | 20 | | |
| | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | 25 | 25 | 10 | | |
| | Buddsoddi i Arbed | Buddsoddi i Arbed | 3,000 | 3,000 | 3,000 | Gweinyddu | Cyllid Canolog a Buddsoddi Cyfalaf |
| | | Y Gronfa Buddsoddi i Arbed - Ad-dalu | (2,537) | (2,537) | (2,537) | | |

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | CAM GWEITHREDU | LLINELL WARIANT YN Y GYLLIDEB | DYRANIADAU £000oedd | | | MAES BUDDSODDI | SECTOR |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | | |
| | | | | | | | - Ystadau Cymru a Buddsoddi i Arbed |
| Cyfansymiau Cyllid a Llywodraeth Leol | | | 151,863 | 201,863 | 201,863 | | |
| Y Gymraeg ac Addysg | Darpariaeth Ystadau a TG | Seilwaith Addysg | 352,400 | 357,400 | 357,400 | Seilwaith Addysg | Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif, Dechrau'n Deg, Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar, Cymorth Cyfalaf AU, Rhaglen Gyfalaf Cyfrwng Cymraeg. |
| | Cymorth i ddysgwyr ôl-16 | Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr / Costau Gweinyddu CThEM | 2,500 | 2,500 | 2,500 | | Cymorth Cyfalaf AU |
| | Addysg Uwch | Gwariant Rhaglenni CCAUC | 100 | 100 | 100 | | Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru - Cymwysterau Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg |
| | Cymwysterau | Cymwysterau Cymru | 250 | 250 | 250 | | |
| | Y Gymraeg | Comisiynydd y Gymraeg | 50 | 50 | 50 | | |
| Cyfansymiau y Gymraeg ac Addysg | | | 355,300 | 360,300 | 360,300 | | |
| Newid Hinsawdd | Rhaglen Tlodi Tanwydd | Rhaglen Tlodi Tanwydd | 30,000 | 35,000 | 35,000 | Datgarboneiddio | Tlodi Tanwydd Cartrefi Cynnes |
| | Datblygu a gweithredu polisi newid hinsawdd, defnyddio ynni'n effeithlon, Twf Gwyrdd a diogelu'r amgylchedd | Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru | 15,000 | 25,000 | 25,000 | | Welsh Government Energy Service and |
| | | Ymbelydredd ac Atal Llygredd | 5,000 | 2,150 | 300 | Natur a'r Amgylchedd | Ansawdd Aer |

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | CAM GWEITHREDU | LLINELL WARIANT YN Y GYLLIDEB | DYRANIADAU £000oedd | | | MAES BUDDSODDI | SECTOR |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | | |
| | Datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth perygl llifogydd ac arfordiroedd, dŵr a charthffosiaeth | Rheoli'r Risg o Lifogydd a Refeniw Dŵr | 67,100 | 60,000 | 59,300 | Llifogydd | Diogelwch Tomenni Glo, Rheoli Perygl Llifogydd a'r Arfordir, Ansawdd Dŵr |
| | Cyflawni polisïau cadwraeth natur a choedwigaeth a gwella'r amgylchedd lleol | Defnyddio Adnoddau Naturiol | 2,000 | 2,000 | 500 | Natur a'r Amgylchedd | Grantiau Amgylcheddol |
| | | Bioamrywiaeth, Tystiolaeth ac Iechyd Planhigion | 20,000 | 25,000 | 25,000 | | Bioamrywiaeth |
| | | Coedwigaeth | 9,000 | 23,000 | 25,000 | | Coedwig Genedlaethol a'r |
| | Noddi a rheoli cyrff cyflawni | Cyfoeth Naturiol Cymru | 2,400 | 2,400 | 2,400 | | Cyfoeth Naturiol Cymru – GIA |
| | Gwella effeithlonrwydd adnoddau a chefnogi pontio i economi gylchol | Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol | 40,000 | 60,000 | 60,000 | Economi Gylchol | Economi Gylchol |
| | Hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchodedig, ehangu mynediad i | Tirwedd a Hamdden Awyr Agored | 5,000 | 5,000 | 5,000 | Natur a'r Amgylchedd | Tirwedd a Hamdden Awyr Agored |
| | Polisi Tai | Y Rhaglen Addasu Ymateb Cyflym | 17,660 | 17,660 | 17,660 | Tai | Y Gronfa Gofal Integredig ac |
| | | Y Sector Rhentu Preifat | 500 | 1,500 | 1,500 | | Cyflenwad y Sector Rhentu Preifat |
| | Y Gronfa Gofal Integredig | Y Gronfa Gofal Integredig | 62,340 | 62,340 | 62,340 | | Y Gronfa Gofal Integredig ac |
| | Sicrhau Tai o Ansawdd Uchel | Lwfans Atgyweiriadau Mawr a Chyllid Bwlch | 108,000 | 108,000 | 108,000 | | Datgarboneiddio Cartrefi Cymru |
| | | Datgarboneiddio Ac Ansawdd Preswyl | 72,000 | 92,000 | 92,000 | | |

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | CAM GWEITHREDU | LLINELL WARIANT YN Y GYLLIDEB | DYRANIADAU £000oedd 2022-23 | DYRANIADAU £000oedd 2023-24 | DYRANIADAU £000oedd 2024-25 | MAES BUDDSODDI | SECTOR |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy | Grantiau Tai Cymdeithasol | 310,000 | 330,000 | 325,000 | | Tai Cymdeithasol |
| | | Tir ar gyfer Tai | 10,000 | 10,000 | 15,000 | | |
| | Diogelwch Adeiladau | Diogelwch Adeiladau | 75,000 | 135,000 | 165,000 | | Diogelwch Adeiladau |
| | Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai'r Farchnad | Tai Marchnad a Chynlluniau Eraill | 10,000 | 25,000 | 25,000 | | Tai'r Farchnad |
| | | Cymorth Prynu | 2,000 | 2,500 | 4,000 | | Cymorth Prynu |
| | Yr Is-adran Tir | Cronfa Rhyddhau Tir | 10,000 | 10,000 | 10,000 | | Tai Cymdeithasol |
| | Adfywio | Adfywio | 20,000 | 40,000 | 40,000 | | Trawsnewid Trefi |
| | seilwaith strategol | Datblygu Seilwaith Strategol | 5,000 | 5,000 | 5,000 | Datblygu Economaidd | Seilwaith Strategol A |
| | | Gweithrediadau Seilwaith TGCh | 15,000 | (26,500) | 20,000 | | Seilwaith Digidol |
| | Gweithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd | Gweithrediadau'r Rhwydwaith | 125,000 | 190,000 | 185,000 | Ffyrdd | Grantiau Ffyrdd a Diogelwch Ffyrdd |
| | Gwasanaethau Ffyrdd, Rheilffyrdd, Awyr a Môr a Buddsoddi | Hedfan | 7,212 | 13,328 | 1,783 | Trafnidiaeth Gyhoeddus A | Seilwaith Strategol A |
| | | Trafnidiaeth Cymru | 400,000 | 150,000 | 35,000 | | Rheilffyrdd |
| | | Ynni'r Môr | 4,000 | 10,000 | 10,000 | Datblygu Economaidd | Seilwaith Strategol B (Ynni Morol) |

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | CAM GWEITHREDU | LLINELL WARIANT YN Y GYLLIDEB | DYRANIADAU £000oedd | | | MAES BUDDSODDI | SECTOR |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | | |
| | Hyrwyddo Teithio cynaliadwy | Cymorth i Fysiau | 25,000 | 80,000 | 80,000 | Trafnidiaeth Gyhoeddus A | Bysiau |
| | | Blaenoriaethau Trafnidiaeth Lleol | 17,500 | 40,000 | 50,000 | Teithio Llesol a Chynaliadwy | Y Gronfa Trafnidiaeth Leol |
| | | Teithio Cynaliadwy a Llesol | 67,788 | 91,672 | 103,217 | | Teithio Llesol: Seilwaith Cerbydau Trydan |
| | Diogelwch ar y Ffyrdd | Diogelwch ar y Ffyrdd | 16,500 | 4,000 | 4,000 | Ffyrdd | Grantiau Ffyrdd a Diogelwch Ffyrdd Grantiau Diogelwch ar y Ffyrdd |
| Cyfansymiau Newid Hinsawdd | | | 1,576,000 | 1,631,050 | 1,597,000 | | |
| Yr Economi | Busnes Cymru / Entrepreneuriaeth a'r Economi Rhanbarthol | Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol | 27,230 | 23,850 | 18,650 | Datblygu Economaidd | Cymorth Busnes |
| | | Y Cymoedd Technoleg | 5,000 | 5,000 | 5,000 | | Cymorth Busnes – Cymoedd Tech |
| | | Bargeinion Dinesig a Thwf | 22,000 | 22,000 | 22,000 | | Bargeinion Dinesig a Thwf |
| | Datblygu Seilwaith Economaidd | Seilwaith Eiddo | 10,000 | 10,000 | 10,000 | | Y Sector Eiddo |
| | Cyflogaeth a Sgiliau | Cyflogadwyedd gan gynnwys Gwarant Pobl Ifanc | 1,920 | 2,000 | 2,000 | | Cymorth Busnes – Gyrfa Cymru a CNLlC |
| | Arloesi | Arloesedd Busnes | 5,000 | 5,000 | 10,000 | | Gwyddoniaeth ac Arloesi - Arloesedd |

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | CAM GWEITHREDU | LLINELL WARIANT YN Y GYLLIDEB | DYRANIADAU £000oedd 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | MAES BUDDSODDI | SECTOR |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwyddoniaeth | Gwyddoniaeth | 5,000 | 5,000 | 5,000 | | Gwyddoniaeth ac Arloesi - Sêr Cymru |
| | Hyrwyddo a Diogelu Lle Cymru yn y Byd | Twristiaeth | 5,000 | 5,000 | 5,000 | Diwylliant, Twristiaeth Chwaraeon | Twristiaeth |
| | Cymorth ar gyfer Diwylliant a'r Celfyddydau | Cyngor Celfyddydau Cymru | 400 | 400 | 400 | | Celfyddydau, Diwylliant Threftadaeth |
| | | Amgueddfeydd Cymru | 4,500 | 5,000 | 5,000 | | |
| | | Llyfrgell Genedlaethol | 2,500 | 2,000 | 2,000 | | |
| | | Cymorth ar gyfer Diwylliant a Chwaraeon Lleol | 11,700 | 21,500 | 24,700 | | |
| | | Cymru Greadigol | 5,000 | 5,000 | 5,000 | | Cymru Greadigol |
| | Cefnogi'r Amgylchedd Hanesyddol | Cadw | 10,000 | 10,000 | 10,000 | | Celfydd., Diwylliant a Threft. – Cadw |
| | | Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | 1,200 | 200 | 200 | | Celfyddydau, Diwylliant Threftadaeth |
| | | Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | 50 | 50 | 50 | | |
| | Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol | Chwaraeon Cymru | 8,000 | 8,000 | 8,000 | | Chwaraeon |
| Cyfansymiau yr Economi | | | 124,500 | 130,000 | 133,000 | | |
| Materion Gwledig | Datblygu a chyflawni polisïau a rhaglenni cyffredinol ar Amaeth, Bwyd a'r Môr | Adnabod Da Byw | 1,000 | 1,000 | 1,000 | Amaeth a Physgodfeydd | Adnabod da byw a Symud a Ffiniau |

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | CAM GWEITHREDU | LLINELL WARIANT YN Y GYLLIDEB | DYRANIADAU £000oedd | | | MAES BUDDSODDI | SECTOR |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | | |
| | Gweinyddu'r PAC a gwneud taliadau yn unol â rheolau'r UE a Llywodraeth Cymru | TG y Polisi Amaethyddol Cyffredin | 6,000 | 6,000 | 6,000 | | TCh Taliadau Gwledig Cymru |
| | Cymundau Gwledig LlC: Cyflawni'r rhaglenni o fewn Cynllun Datblygu | Rhaglen Economaidd a Chynaliadwyedd Gwledig | 9,500 | 9,500 | 0 | | Cymunedau Gwledig - RDP |
| | Rhaglen Economaidd a Chynaliadwyedd Gwledig | Y Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20 | 20,500 | 20,500 | 30,000 | | |
| | Datblygu a rheoli môr, pysgodefydd a dyframaeth Cymru, gan | Cynlluniau Pysgodfeydd a Ariennir gan yr UE | 200 | 200 | 0 | | Materion Morol a Physgodfeydd |
| Cyfansymiau Materion Gwledig | | | 37,200 | 37,200 | 37,000 | | |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Cefnogi Cymunedau | Banc Cymunedol | 1,500 | 1,500 | 1,750 | Cymunedau | Seilwaith Cymunedol |
| | | Cefnogi Cymunedau | 1,000 | 1,000 | 1,000 | | |
| | Gwasanaethau Tân ac Achub a Chydnerthedd | Gwas. Tân ac Achub | 1,000 | 1,500 | 1,000 | | |
| | | Gwas.Tân ac Achub – Systemau Cyfathrebu | 210 | 210 | 210 | | |
| | | Diogelwch Tân Cymunedol | 900 | 900 | 900 | | |
| | Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais | Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | 2,200 | 2,200 | 2,200 | | |
| | Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr | Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr | 3,690 | 3,190 | 3,440 | | |
| | Cyfleusterau Cymunedol | Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol | 6,500 | 6,500 | 6,500 | | |

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | CAM GWEITHREDU | LLINELL WARIANT YN Y GYLLIDEB | DYRANIADAU £000oedd | | | MAES BUDDSODDI | SECTOR |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | | |
| Cyfansymiau Cyfiawnder Cymdeithasol | | | 17,000 | 17,000 | 17,000 | | |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | Gweinyddu Cyffredinol | Gwariant Gweinyddu Cyffredinol | 10,000 | 10,000 | 10,000 | Gweinyddu | Costau Rhedeg Canolog |
| Cyfansymiau Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | | | 10,000 | 10,000 | 10,000 | | |
| **CYFANSYMIAU LLYWODRAETH CYMRU** | | | **2,606,863** | **2,762,413** | **2,751,163** | | |

## Atodiad B: Cysoni'r gyllideb weinyddol a'r dyraniadau adnoddau yn nghynnig y Gyllideb flynyddol

| | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 £000oedd | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)** | **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | **Cyllid a Llywodraeth Leol** | **Addysg** | **Newid Hinsawdd** | **Yr Economi** | **Materion Gwledig** | **Cyfiawnder Cymdeithasol** | **Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu** | **CYFANSWM** |
| Adnodd | 9,801,778 | 4,457,382 | 2,175,738 | 1,179,650 | 402,421 | 355,962 | 110,355 | 343,795 | **18,827,081** |
| Cyfalaf | 335,000 | 151,863 | 355,300 | 1,576,000 | 124,500 | 37,200 | 17,000 | 10,000 | **2,606,863** |
| AME Adnoddau | 186,420 | 1,030,000 | (146,304) | 100,393 | 45,525 | — | 28,063 | 3,200 | **1,247,297** |
| AME Cyfalaf | — | — | 1,051,366 | — | — | — | — | — | **1,051,366** |
| **CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR** | **10,323,198** | **5,639,245** | **3,436,100** | **2,856,043** | **572,446** | **393,162** | **155,418** | **356,995** | **23,732,607** |
| **Cysoni ag Adnoddau** | | | | | | | | | |
| Defnyddio Adnoddau – Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | (230) | (200) | (470) | (10,000) | (20,548) | — | (9) | — | **(31,457)** |
| Benthyca â Chymorth | — | (88,800) | — | — | — | — | — | — | **(88,800)** |
| Costau Casglu Derb. o'r Gronfa Ysw. Gwladol | (906) | — | — | — | — | — | — | — | **( 906)** |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol sy'n Daladwy (a chostau casglu) | — | (1,035,172) | — | — | — | — | — | — | **(1,035,172)** |
| Taliadau Llog ar Fenthyciadau | — | (4,160) | — | — | — | — | — | — | **(4,160)** |
| Menter Cyllid Preifat | — | — | — | (9,786) | — | — | — | — | **(9,786)** |
| **ADNODDAU Y GWNAED CAIS AMDANYNT** | **10,322,062** | **4,510,913** | **3,435,630** | **2,836,257** | **551,898** | **393,162** | **155,409** | **356,995** | **22,562,326** |

| | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 £000oedd | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Cyllid a Llywodraeth Leol | Addysg | Newid Hinsawdd | Yr Economi | Materion Gwledig | Cyfiawnder Cymdeithasol | Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | CYFANSWM |
| Adnodd | 10,088,778 | 4,556,382 | 2,254,323 | 1,168,650 | 416,421 | 418,962 | 122,355 | 346,795 | **19,372,666** |
| Cyfalaf | 375,000 | 201,863 | 360,300 | 1,631,050 | 130,000 | 37,200 | 17,000 | 10,000 | **2,762,413** |
| AME Adnoddau | 190,257 | 1,121,000 | (129,589) | 124,448 | 45,525 | 0 | 26,045 | 3,200 | **1,380,886** |
| AME Cyfalaf | — | — | 1,161,411 | — | — | — | — | — | **1,161,411** |
| **CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR** | **10,654,035** | **5,879,245** | **3,646,445** | **2,924,148** | **591,946** | **456,162** | **165,400** | **359,995** | **24,677,376** |
| **Cysoni ag Adnoddau** | | | | | | | | | |
| Defnyddio Adnoddau – Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | (230) | (200) | (470) | (10,000) | (20,548) | — | (9) | — | **(31,457)** |
| Benthyca â Chymorth | — | (88,800) | — | — | — | — | — | — | **(88,800)** |
| Costau Casglu Derb. o'r Gronfa Ysw. Gwladol | (906) | — | — | — | — | — | — | — | **( 906)** |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol sy'n Daladwy (a chostau casglu) | — | (1,126,172) | — | — | — | — | — | — | **(1,126,172)** |
| Taliadau Llog ar Fenthyciadau | — | (5,834) | — | — | — | — | — | — | **(5,834)** |
| Menter Cyllid Preifat | — | — | — | (10,070) | — | — | — | — | **(10,070)** |
| **ADNODDAU Y GWNAED CAIS AMDANYNT** | **10,652,899** | **4,658,239** | **3,645,975** | **2,904,078** | **571,398** | **456,162** | **165,391** | **359,995** | **23,414,137** |

| | CYLLIDEB DDRAFFT DDANGOSOL 2024-25 £000oedd | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)** | **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | **Cyllid a Llywodraeth Leol** | **Addysg** | **Newid Hinsawdd** | **Yr Economi** | **Materion Gwledig** | **Cyfiawnder Cymdeithasol** | **Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu** | **CYFANSWM** |
| Adnodd | 10,308,778 | 4,666,382 | 2,318,654 | 1,190,650 | 432,421 | 440,962 | 125,355 | 347,795 | **19,830,997** |
| Cyfalaf | 395,000 | 201,863 | 360,300 | 1,597,000 | 133,000 | 37,000 | 17,000 | 10,000 | **2,751,163** |
| AME Adnoddau | 127,172 | 1,148,000 | (163,720) | 4,740 | 45,525 | 0 | 26,045 | 3,200 | **1,190,962** |
| AME Cyfalaf | — | — | 1,277,302 | — | — | — | — | — | **1,277,302** |
| **CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR** | **10,830,950** | **6,016,245** | **3,792,536** | **2,792,390** | **610,946** | **477,962** | **168,400** | **360,995** | **25,050,424** |
| **Cysoni ag Adnoddau** | | | | | | | | | |
| Defnyddio Adnoddau – Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | (230) | (200) | (470) | (10,000) | (20,548) | — | (9) | — | **(31,457)** |
| Benthyca â Chymorth | — | (88,800) | — | — | — | — | — | — | **(88,800)** |
| Costau Casglu Derb. o'r Gronfa Ysw. Gwladol | (906) | — | — | — | — | — | — | — | **( 906)** |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol sy'n Daladwy (a chostau casglu) | — | (1,153,172) | — | — | — | — | — | — | **(1,153,172)** |
| Taliadau Llog ar Fenthyciadau | — | (7,591) | — | — | — | — | — | — | **(7,591)** |
| Menter Cyllid Preifat | — | — | — | (10,362) | — | — | — | — | **(10,362)** |
| **ADNODDAU Y GWNAED CAIS AMDANYNT** | **10,829,814** | **4,766,482** | **3,792,066** | **2,772,028** | **590,398** | **477,962** | **168,391** | **360,995** | **23,758,136** |

# Atodiad C: Newidiadau o flwyddyn i flwyddyn

| CYFANSWM - Newid Canrannol o un Flwyddyn i'r Llall | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig Cyllideb Derfynol 2021-22 | Cyllideb Ddrafft 2022-23 | | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 | | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 | |
| | £000oedd | | % Newid | £000oedd | % Newid | £000oedd | % Newid |
| Iechyd a Gwas. Cymdeithasol | 9,318,962 | 10,323,198 | 10.78% | 10,654,035 | 3.20% | 10,830,950 | 1.66% |
| Cyllid a Llyw. Leol | 5,221,370 | 5,639,245 | 8.00% | 5,879,245 | 4.26% | 6,016,245 | 2.33% |
| Y Gymraeg ac Addysg | 2,729,366 | 3,436,100 | 25.89% | 3,646,445 | 6.12% | 3,792,536 | 4.01% |
| Newid Hinsawdd | 2,488,822 | 2,856,043 | 14.75% | 2,924,148 | 2.38% | 2,792,390 | (4.51%) |
| Yr Economi | 527,859 | 572,446 | 8.45% | 591,946 | 3.41% | 610,946 | 3.21% |
| Materion Gwledig | 356,305 | 393,162 | 10.34% | 456,162 | 16.02% | 477,962 | 4.78% |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 133,148 | 155,418 | 16.73% | 165,400 | 6.42% | 168,400 | 1.81% |
| Gwas. Canolog a Gweinyddu | 324,374 | 356,995 | 10.06% | 359,995 | 0.84% | 360,995 | 0.28% |
| **Cyfanswm y Dyraniadau i MEGs Llywodraeth Cymru** | **21,100,206** | **23,732,607** | **12.48%** | **24,677,376** | **3.98%** | **25,050,424** | **1.51%** |

| CYFANSWM – Newid Canrannol o un Flwyddyn i'r Llall (Termau Real) | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig Cyllideb Derfynol 2021-22 | Cyllideb Ddrafft 2022-23 | | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 | | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 | |
| | £000oedd | | % Newid | £000oedd | % Newid | £000oedd | % Newid |
| Iechyd a Gwas. Cymdeithasol | 9,318,962 | 10,323,198 | 7.86% | 10,654,035 | 0.99% | 10,830,950 | (0.22%) |
| Cyllid a Llyw. Leol | 5,221,370 | 5,639,245 | 5.16% | 5,879,245 | 2.01% | 6,016,245 | 0.44% |
| Y Gymraeg ac Addysg | 2,729,366 | 3,436,100 | 22.58% | 3,646,445 | 3.84% | 3,792,536 | 2.08% |
| Newid Hinsawdd | 2,488,822 | 2,856,043 | 11.73% | 2,924,148 | 0.18% | 2,792,390 | (6.27%) |
| Yr Economi | 527,859 | 572,446 | 5.59% | 591,946 | 1.18% | 610,946 | 1.30% |
| Materion Gwledig | 356,305 | 393,162 | 7.44% | 456,162 | 13.53% | 477,962 | 2.84% |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 133,148 | 155,418 | 13.65% | 165,400 | 4.13% | 168,400 | (0.07%) |
| Gwas. Canolog a Gweinyddu | 324,374 | 356,995 | 7.16% | 359,995 | (1.33%) | 360,995 | (1.58%) |
| **Cyfanswm y Dyraniadau i MEGs Llywodraeth Cymru** | **21,100,206** | **23,732,607** | **9.51%** | **24,677,376** | **1.74%** | **25,050,424** | **(0.37%)** |

| ADNODDAU CYLLIDOL - Newid Canrannol o un Flwyddyn i'r Llall | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig Cyllideb Derfynol 2021-22 | Cyllideb Ddrafft 2022-23 | | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 | | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 | |
| | £000oedd | | % Newid | £000oedd | % Newid | £000oedd | % Newid |
| Iechyd a Gwas. Cymdeithasol | 8,596,822 | 9,543,822 | 11.02% | 9,830,822 | 3.01% | 10,050,822 | 2.24% |
| Cyllid a Llyw. Leol | 3,910,961 | 4,456,961 | 13.96% | 4,555,961 | 2.22% | 4,665,961 | 2.41% |
| Y Gymraeg ac Addysg | 1,527,843 | 1,715,843 | 12.30% | 1,765,843 | 2.91% | 1,803,843 | 2.15% |
| Newid Hinsawdd | 742,529 | 940,529 | 26.67% | 929,529 | (1.17%) | 951,529 | 2.37% |
| Yr Economi | 342,823 | 390,823 | 14.00% | 404,823 | 3.58% | 420,823 | 3.95% |
| Materion Gwledig | 330,145 | 345,145 | 4.54% | 408,145 | 18.25% | 430,145 | 5.39% |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 88,177 | 110,177 | 24.95% | 122,177 | 10.89% | 125,177 | 2.46% |
| Gwas. Canolog a Gweinyddu | 291,795 | 326,795 | 11.99% | 329,795 | 0.92% | 330,795 | 0.30% |
| **Cyfanswm y Dyraniadau i MEGs Llywodraeth Cymru** | **15,831,095** | **17,830,095** | **12.63%** | **18,347,095** | **2.90%** | **18,779,095** | **2.35%** |

| ADNODDAU CYLLIDOL - Newid Canrannol o un Flwyddyn i'r Llall – Termau Real | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig Cyllideb Derfynol 2021-22 | Cyllideb Ddrafft 2022-23 | | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 | | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 | |
| | £000oedd | | % Newid | £000oedd | % Newid | £000oedd | % Newid |
| Iechyd a Gwas. Cymdeithasol | 8,596,822 | 9,543,822 | 8.09% | 9,830,822 | 0.79% | 10,050,822 | 0.35% |
| Cyllid a Llyw. Leol | 3,910,961 | 4,456,961 | 10.96% | 4,555,961 | 0.02% | 4,665,961 | 0.52% |
| Y Gymraeg ac Addysg | 1,527,843 | 1,715,843 | 9.35% | 1,765,843 | 0.70% | 1,803,843 | 0.26% |
| Newid Hinsawdd | 742,529 | 940,529 | 23.33% | 929,529 | (3.30%) | 951,529 | 0.47% |
| Yr Economi | 342,823 | 390,823 | 11.00% | 404,823 | 1.35% | 420,823 | 2.03% |
| Materion Gwledig | 330,145 | 345,145 | 1.79% | 408,145 | 15.71% | 430,145 | 3.44% |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 88,177 | 110,177 | 21.66% | 122,177 | 8.51% | 125,177 | 0.56% |
| Gwas. Canolog a Gweinyddu | 291,795 | 326,795 | 9.04% | 329,795 | (1.25%) | 330,795 | (1.55%) |
| **Cyfanswm y Dyraniadau i MEGs Llywodraeth Cymru** | **15,831,095** | **17,830,095** | **9.66%** | **18,347,095** | **0.69%** | **18,779,095** | **0.46%** |

| ADNODDAU ANGHYLLIDOL - Newid Canrannol o un Flwyddyn i'r Llall | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | Cyllideb Derfynol 2021-22 | Cyllideb Ddrafft 2022-23 | | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 | | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 | |
| | £000oedd | | % Newid | £000oedd | % Newid | £000oedd | % Newid |
| Iechyd a Gwas. Cymdeithasol | 186,137 | 257,956 | 38.58% | 257,956 | 0.00% | 257,956 | 0.00% |
| Cyllid a Llyw. Leol | 212 | 421 | 98.58% | 421 | 0.00% | 421 | 0.00% |
| Y Gymraeg ac Addysg | 111,168 | 459,895 | 313.69% | 488,480 | 6.22% | 514,811 | 5.39% |
| Newid Hinsawdd | 201,121 | 239,121 | 18.89% | 239,121 | 0.00% | 239,121 | 0.00% |
| Yr Economi | 11,598 | 11,598 | 0.00% | 11,598 | 0.00% | 11,598 | 0.00% |
| Materion Gwledig | 11,554 | 10,817 | (6.38%) | 10,817 | 0.00% | 10,817 | 0.00% |
| Cyfiawnder | 169 | 178 | 5.33% | 178 | 0.00% | 178 | 0.00% |
| Gwas. Canolog a Gweinyddu | 16,000 | 17,000 | 6.25% | 17,000 | 0.00% | 17,000 | 0.00% |
| **Cyfanswm y Dyraniadau i MEGs Llywodraeth Cymru** | **537,959** | **996,986** | **85.33%** | **1,025,571** | **2.87%** | **1,051,902** | **2.57%** |

| ADNODDAU ANGHYLLIDOL - Newid Canrannol o un Flwyddyn i'r Llall - Termau Real | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | Cyllideb Derfynol 2021-22 | Cyllideb Ddrafft 2022-23 | | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 | | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 | |
| | £000oedd | | % Newid | £000oedd | % Newid | £000oedd | % Newid |
| Iechyd a Gwas. Cymdeithasol | 186,137 | 257,956 | 34.93% | 257,956 | (2.15%) | 257,956 | (1.85%) |
| Cyllid a Llyw. Leol | 212 | 421 | 93.35% | 421 | (2.15%) | 421 | (1.85%) |
| Y Gymraeg ac Addysg | 111,168 | 459,895 | 302.80% | 488,480 | 3.93% | 514,811 | 3.44% |
| Newid Hinsawdd | 201,121 | 239,121 | 15.76% | 239,121 | (2.15%) | 239,121 | (1.85%) |
| Yr Economi | 11,598 | 11,598 | (2.63%) | 11,598 | (2.15%) | 11,598 | (1.85%) |
| Materion Gwledig | 11,554 | 10,817 | (8.84%) | 10,817 | (2.15%) | 10,817 | (1.85%) |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 169 | 178 | 2.55% | 178 | (2.15%) | 178 | (1.85%) |
| Gwas. Canolog a Gweinyddu | 16,000 | 17,000 | 3.45% | 17,000 | (2.15%) | 17,000 | (1.85%) |
| **Cyfanswm y Dyraniadau i MEGs Llywodraeth Cymru** | **537,959** | **996,986** | **80.45%** | **1,025,571** | **0.65%** | **1,051,902** | **0.67%** |

| CYFALAF CYFFREDINOL - Newid Canrannol o un Flwyddyn i'r Llall | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | Cyllideb Derfynol 2021-22 | Cyllideb Ddrafft 2022-23 | | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 | | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 | |
| | £000oedd | | % Newid | £000oedd | % Newid | £000oedd | % Newid |
| Iechyd a Gwas. Cymdeithasol | 387,600 | 335,000 | (13.57%) | 375,000 | 11.94% | 395,000 | 5.33% |
| Cyllid a Llyw. Leol | 209,197 | 151,863 | (27.41%) | 201,863 | 32.92% | 201,863 | 0.00% |
| Y Gymraeg ac Addysg | 267,812 | 355,300 | 32.67% | 360,300 | 1.41% | 360,300 | 0.00% |
| Newid Hinsawdd | 1,371,116 | 1,576,000 | 14.94% | 1,631,050 | 3.49% | 1,597,000 | (2.09%) |
| Yr Economi | 124,528 | 124,500 | (0.02%) | 130,000 | 4.42% | 133,000 | 2.31% |
| Materion Gwledig | 14,606 | 37,200 | 154.69% | 37,200 | 0.00% | 37,000 | (0.54%) |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 13,411 | 17,000 | 26.76% | 17,000 | 0.00% | 17,000 | 0.00% |
| Gwas. Canolog a Gweinyddu | 13,579 | 10,000 | (26.36%) | 10,000 | 0.00% | 10,000 | 0.00% |
| **Cyfanswm y Dyraniadau i MEGs Llywodraeth Cymru** | **2,401,849** | **2,606,863** | **8.54%** | **2,762,413** | **5.97%** | **2,751,163** | **(0.41%)** |

| CYFALAF CYFFREDINOL - Newid Canrannol o un Flwyddyn i'r Llall – Termau Real | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | Cyllideb Derfynol 2021-22 | Cyllideb Ddrafft 2022-23 | | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 | | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 | |
| | £000oedd | | % Newid | £000oedd | % Newid | £000oedd | % Newid |
| Iechyd a Gwas. Cymdeithasol | 387,600 | 335,000 | (15.85%) | 375,000 | 9.53% | 395,000 | 3.38% |
| Cyllid a Llyw. Leol | 209,197 | 151,863 | (29.32%) | 201,863 | 30.07% | 201,863 | (1.85%) |
| Y Gymraeg ac Addysg | 267,812 | 355,300 | 29.17% | 360,300 | (0.77%) | 360,300 | (1.85%) |
| Newid Hinsawdd | 1,371,116 | 1,576,000 | 11.92% | 1,631,050 | 1.27% | 1,597,000 | (3.90%) |
| Yr Economi | 124,528 | 124,500 | (2.66%) | 130,000 | 2.17% | 133,000 | 0.41% |
| Materion Gwledig | 14,606 | 37,200 | 147.98% | 37,200 | (2.15%) | 37,000 | (2.38%) |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 13,411 | 17,000 | 23.42% | 17,000 | (2.15%) | 17,000 | (1.85%) |
| Gwas. Canolog a Gweinyddu | 13,579 | 10,000 | (28.30%) | 10,000 | (2.15%) | 10,000 | (1.85%) |
| **Cyfanswm y Dyraniadau i MEGs Llywodraeth Cymru** | **2,401,849** | **2,606,863** | **5.68%** | **2,762,413** | **3.69%** | **2,751,163** | **(2.25%)** |

| AME ADNODDAU - Newid Canrannol o un Flwyddyn i'r Llall | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | Cyllideb Derfynol 2021-22 | Cyllideb Ddrafft 2022-23 | | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 | | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 | |
| | £000oedd | | % Newid | £000oedd | % Newid | £000oedd | % Newid |
| Iechyd a Gwas. Cymdeithasol | 148,403 | 186,420 | 25.62% | 190,257 | 2.06% | 127,172 | (33.16%) |
| Cyllid a Llyw. Leol | 1,101,000 | 1,030,000 | (6.45%) | 1,121,000 | 8.83% | 1,148,000 | 2.41% |
| Y Gymraeg ac Addysg | (148,386) | (146,304) | 1.40% | (129,589) | 11.42% | (163,720) | (26.34%) |
| Newid Hinsawdd | 96,592 | 100,393 | 3.94% | 124,448 | 23.96% | 4,740 | (96.19%) |
| Yr Economi | 48,525 | 45,525 | 6.18% | 45,525 | 0.00% | 45,525 | 0.00% |
| Materion Gwledig | — | — | 0.00% | — | 0.00% | — | 0.00% |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 27,915 | 28,063 | 0.53% | 26,045 | (7.19%) | 26,045 | 0.00% |
| Gwas. Canolog a Gweinyddu | 3,000 | 3,200 | 6.67% | 3,200 | 0.00% | 3,200 | 0.00% |
| **Cyfanswm y Dyraniadau i MEGs Llywodraeth Cymru** | **1,277,049** | **1,247,297** | **(2.33%)** | **1,380,886** | **10.71%** | **1,190,962** | **(13.75%)** |

| AME ADNODDAU - Newid Canrannol o un Flwyddyn i'r Llall – Termau Real | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | Cyllideb Derfynol 2021-22 | Cyllideb Ddrafft 2022-23 | | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 | | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 | |
| | £000oedd | | % Newid | £000oedd | % Newid | £000oedd | % Newid |
| Iechyd a Gwas. Cymdeithasol | 148,403 | 186,420 | 22.31% | 190,257 | (0.14%) | 127,172 | (34.39%) |
| Cyllid a Llyw. Leol | 1,101,000 | 1,030,000 | (8.91%) | 1,121,000 | 6.49% | 1,148,000 | 0.51% |
| Y Gymraeg ac Addysg | (148,386) | (146,304) | (4.00%) | (129,589) | (13.33%) | (163,720) | 24.00% |
| Newid Hinsawdd | 96,592 | 100,393 | 1.20% | 124,448 | 21.29% | 4,740 | (96.26%) |
| Yr Economi | 48,525 | 45,525 | (8.65%) | 45,525 | (2.15%) | 45,525 | (1.85%) |
| Materion Gwledig | — | — | 0.00% | — | 0.00% | — | 0.00% |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 27,915 | 28,063 | (2.12%) | 26,045 | (9.19%) | 26,045 | (1.85%) |
| Gwas. Canolog a Gweinyddu | 3,000 | 3,200 | 3.86% | 3,200 | (2.15%) | 3,200 | (1.85%) |
| **Cyfanswm y Dyraniadau i MEGs Llywodraeth Cymru** | **1,277,049** | **1,247,297** | **(4.90%)** | **1,380,886** | **8.33%** | **1,190,962** | **(15.35%)** |

| AME CYFALAF- Newid Canrannol o un Flwyddyn i'r Llall | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | Cyllideb Derfynol 2021-22 | Cyllideb Ddrafft 2022-23 | | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 | | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 | |
| | £000oedd | | % Newid | £000oedd | % Newid | £000oedd | % Newid |
| Iechyd a Gwas. Cymdeithasol | — | — | 0.00% | — | 0.00% | – | 0.00% |
| Cyllid a Llyw. Leol | — | — | 0.00% | — | 0.00% | – | 0.00% |
| Y Gymraeg ac Addysg | 968,961 | 1,051,366 | 8.50% | 1,161,411 | 10.47% | 1,277,302 | 9.98% |
| Newid Hinsawdd | — | — | 0.00% | — | 0.00% | — | 0.00% |
| Yr Economi | — | — | 0.00% | — | 0.00% | — | 0.00% |
| Materion Gwledig | — | — | 0.00% | — | 0.00% | — | 0.00% |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | — | — | 0.00% | — | 0.00% | — | 0.00% |
| Gwas. Canolog a Gweinyddu | — | — | 0.00% | — | 0.00% | — | 0.00% |
| **Cyfanswm y Dyraniadau i MEGs Llywodraeth Cymru** | **968,961** | **1,051,366** | **8.50%** | **1,161,411** | **10.47%** | **1,277,302** | **9.98%** |

| AME CYFALAF - Newid Canrannol o un Flwyddyn i'r Llall – Termau Real | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | Cyllideb Derfynol 2021-22 | Cyllideb Ddrafft 2022-23 | | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 | | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 | |
| | £000oedd | | % Newid | £000oedd | % Newid | £000oedd | % Newid |
| Iechyd a Gwas. Cymdeithasol | — | — | 0.00% | — | 0.00% | — | 0.00% |
| Cyllid a Llyw. Leol | — | — | 0.00% | — | 0.00% | — | 0.00% |
| Y Gymraeg ac Addysg | 968,961 | 1,051,366 | 5.65% | 1,161,411 | 8.09% | 1,277,302 | 7.94% |
| Newid Hinsawdd | – | – | 0.00% | – | 0.00% | – | 0.00% |
| Yr Economi | – | – | 0.00% | – | 0.00% | – | 0.00% |
| Materion Gwledig | – | – | 0.00% | – | 0.00% | – | 0.00% |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | – | – | 0.00% | – | 0.00% | – | 0.00% |
| Gwas. Canolog a Gweinyddu | – | – | 0.00% | – | 0.00% | – | 0.00% |
| **Cyfanswm y Dyraniadau i MEGs Llywodraeth Cymru** | **968,961** | **1,051,366** | **5.65%** | **1,161,411** | **8.09%** | **1,277,302** | **7.94%** |

# Atodiad D: Asesiad Effaith Integredig Strategol

## Cyflwyniad

1. Rydym yn dal i fod yn Llywodraeth sydd wedi ymrwymo i asesu a deall effeithiau ein penderfyniadau gwario. Wrth wraidd ein proses gyllidebol ceir y gydnabyddiaeth nad ystadegau yw pobl ac nad yw anghenion Cymru'n unffurf. Er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar effeithiau'r cyllid sydd ar gael, rydym yn parhau i gydnabod pwysigrwydd dull integredig sy'n ystyried pob agwedd ar lesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.

2. Drwy'r dull hwn rydym yn ceisio deall sut y gallwn dargedu cyllid yn well er mwyn sicrhau canlyniadau gwell drwy ddeall sut mae gwahanol anghenion a meysydd effeithiau yn cyd-blethu, yn enwedig i'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, gan geisio deall a lliniaru effeithiau anfwriadol ar yr un pryd.

3. Cynhaliwyd ein paratoadau yng nghyd-destun effeithiau parhaus y pandemig sydd wedi dangos anghydraddoldebau cynyddol yn ein cymdeithas, effeithiau parhaus ymadawiad y DU â'r UE a'r ergydion ehangach sy'n sbarduno newidiadau cyflym yn ein heconomi a'n cymunedau, a'r angen dybryd i ymateb i effeithiau gweladwy'r argyfwng hinsawdd a natur. Felly, ni fu erioed yn bwysicach defnyddio dull gweithredu o'r fath.

4. Er mwyn amlinellu'r broses yr ydym wedi'i chynnal, rydym unwaith eto wedi cynnwys manylion am effeithiau penderfyniadau gwario fel rhan o'r prif naratif ym Mhennod 4, gyda'r atodiad hwn yn rhoi trosolwg o'r dystiolaeth strategol sydd wedi llywio ein penderfyniadau gwario, yn unol â'n blaenoriaethau ar gyfer Cymru gryfach, decach a gwyrddach.  Dylid darllen yr atodiad hwn ochr yn ochr â Phennod 2 o brif naratif y Gyllideb ac Adroddiad y Prif Economegydd sy'n amlinellu ar wahân y cyd-destun ariannol ac economaidd sydd wedi llywio'r Gyllideb hon.

5. Rydym hefyd wedi cynnwys astudiaethau achos ar effeithiau penderfyniadau gwariant penodol yn yr atodiad hwn i ddangos yn well sut y cynhelir asesiadau'n fanylach.

6. Mae'n dal yn wir hefyd fod y pandemig wedi parhau i gael effaith ar ein gallu i ddefnyddio ffynonellau tystiolaeth swyddogol.  Mae rhai casgliadau data wedi'u gohirio ac mae eraill wedi gorfod newid eu dull gweithredu er mwyn ymateb i'r heriau a achosir gan y pandemig. Nid yw'r data ar gyfer rhai dangosyddion cenedlaethol yn cwmpasu cyfnod y pandemig eto. Lle mae data wedi parhau i fod ar gael, mae'n ddealladwy bod y tueddiadau'n edrych yn wahanol iawn eleni ar gyfer rhai pynciau, ac mae hyn yn fwy amlwg yn achos rhai  grwpiau mewn cymdeithas na'i gilydd. Mae hyn i gyd yn ychwanegu at gymhlethdod dehongli cynnydd tymor hwy Cymru tuag at y nodau llesiant, gydag effaith lawn y pandemig yn debygol o fod yn ein plith dros nifer o flynyddoedd i ddod.

## Esblygu ein ffordd o asesu effeithiau

7. Rydym hefyd wedi cyhoeddi Cynllun Gwella'r Gyllideb wedi'i ddiweddaru fel rhan o Gyllideb ddrafft 2022-23. Mae hyn yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am y camau yr ydym wedi'u cymryd i esblygu ein dull o asesu effeithiau, ochr yn ochr â'n huchelgeisiau tymor hwy (Gweler Atodiad F am ragor o fanylion).

8.

## Effeithiau ar Iechyd

9. Ar ddiwedd mis Tachwedd 2021 mae dros 500,000 o bobl wedi'u heintio â COVID 19 yng Nghymru ac mae ystadegau ONS a gyhoeddwyd ar 1 Rhagfyr yn dangos bod 8,925 o drigolion Cymru, gwaetha'r modd, wedi marw hyd at 19 Tachwedd 2021 o ganlyniad i'w ddal. Mae'n destun pryder bod yr amrywiolyn Omicron bellach ar gynnydd gyda gwasanaethau iechyd yn wynebu pwysau parhaus o ganlyniad i'r pandemig. Ym mis Tachwedd 2021, amcangyfrifir bod y gyfradd heintio ymhlith y boblogaeth gymunedol yn 2.11 y cant a bod 616 o welyau yn GIG Cymru wedi'u meddiannu gan gleifion sy'n gysylltiedig â COVID 19 (achosion wedi'u cadarnhau, eu hamau a chleifion sy'n gwella), sef 7.2 y cant o'r holl gleifion sydd yn yr ysbyty.

10. Mae'n debygol y bydd yr effeithiau iechyd tymor hwy yn cael eu teimlo am flynyddoedd lawer ar ôl i'r feirws ddod o dan reolaeth gyda phwysau i ddelio â'r gofynion gofal a fydd wedi cronni. Er mai ymchwil ffurfiol gyfyngedig yn unig sydd wedi'i gwneud i ddeall goblygiadau llawn y pandemig ar weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, daeth adolygiad cyflym o effaith pandemig COVID 19 i'r casgliad bod effaith andwyol sylweddol ar iechyd meddwl gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y don gyntaf. O gysylltu'r dystiolaeth hon â'r dystiolaeth o achosion blaenorol, dangosir bod cynnydd tebygol mewn problemau iechyd meddwl megis iselder, camddefnyddio sylweddau ac anhwylder straen ôl-drawmatig i weithwyr iechyd rheng flaen.

11. Mae'r pandemig wedi tynnu sylw hefyd at anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes ac mae'n destun pryder bod y duedd hon ar gynnydd. Roedd pobl hŷn, dynion a phobl mewn grwpiau ethnig leiafrifol mewn mwy o berygl o fod yn ddifrifol sâl gyda COVID 19. Bu effaith anghymesur ar grwpiau a oedd eisoes o dan anfantais gan gynnwys pobl mewn swyddi â chyflog isel, mewn cyflogaeth llai diogel, pobl ifanc a phobl sy'n cyrraedd diwedd eu bywydau gwaith.

## Gofal Cymdeithasol

12. Mae'r system gofal cymdeithasol yn wynebu heriau digynsail a pharhaus sy'n deillio o'r pandemig yn ogystal â'r angen i ymateb i boblogaeth Cymru sy'n heneiddio. Rhagwelir y bydd y gyfran o bobl hŷn dros 75 oed yng Nghymru yn cynyddu mwy na 53 y cant erbyn 2040. Er na ellir cysylltu'r galw am ofal ffurfiol yn y dyfodol â phoblogaeth sy'n heneiddio yn unig, mae'r twf a ragwelir yn nifer y bobl hŷn ag anghenion gofal cymhleth (gan gynnwys dementia difrifol) yn debygol o arwain at fwy o bwysau ar wasanaethau gofal ffurfiol – er enghraifft, rhagwelir y bydd nifer yr oedolion hŷn sy'n byw gyda dementia difrifol yn dyblu i 53,700 erbyn 2040.

13. Adroddir yn eang fod problem recriwtio a chadw parhaus ar draws gofal cymdeithasol ochr yn ochr â'r effeithiau ar iechyd meddwl a amlinellir uchod. Ochr yn ochr â diffyg staff hanesyddol a chyflogau isel mae llawer o weithwyr gofal cymdeithasol yn gadael y sector yn llwyr. Mae pryderon y bydd hyn yn arwain at broblem gydag ansawdd gofal a nifer y lleoedd gofal sydd ar gael i bobl yn y gymuned i'w galluogi i symud o ofal y GIG.

## Iechyd Meddwl

14. Gwyddom fod nifer yr achosion o broblemau iechyd meddwl cyffredin sydd wedi'u hunan-adrodd wedi cynyddu ers y pandemig. Mae data o arolwg Iechyd Cyhoeddus Cymru ar restr o feysydd polisi blaenoriaethol dros y 12 mis nesaf, yn dangos bod iechyd meddwl yn drydydd y tu ôl i restrau aros y GIG a COVID 19.

15. Rydym yn gwybod nad yw pawb yn teimlo effeithiau iechyd meddwl i’r un graddau. Mae gan gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru yr iechyd meddwl gwaethaf ac mae'n debygol bod y pandemig wedi gwneud hyn yn waeth. Mae effaith COVID 19 yn debygol o greu pwysau mawr ar wasanaethau iechyd meddwl dros y blynyddoedd nesaf. Cyn y pandemig, adroddodd ychydig dros 10 y cant o bobl yng Nghymru broblemau iechyd meddwl. Gwnaeth hyn bron treblu i ychydig o dan 30 y cant yn ystod y cyfnod cyfyngiadau symud cyntaf. Roedd problemau iechyd meddwl yn fwy nodedig yn achos pobl iau, menywod a phobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.  Yn ogystal, ehangodd y bwlch iechyd meddwl rhwng y cwintelau incwm uchaf ac isaf yn sylweddol. Er bod rhai o'r gwahaniaethau wedi'u sbarduno gan ddigwyddiadau dros dro megis ffyrlo ac ynysu, mae'n debygol y bydd y cynnydd mewn materion iechyd meddwl yn parhau.

## Effeithiau economaidd

16. Mae rhagolygon economaidd yn ansicr iawn oherwydd presenoldeb parhaus pandemig COVID 19 a'r effeithiau parhaus wrth i'r DU fabwysiadu perthynas fasnachu newydd â'r UE. Yn y tymor hwy, mae heriau mawr yn cynnwys yr angen allweddol i ymateb i newid yn yr hinsawdd ac i fynd i'r afael â'r pwysau sy'n deillio o newid demograffig ac o'r rhagolygon gwael ar gyfer safonau byw, gan adlewyrchu twf cynhyrchiant gwan.  Yn benodol, mae'r pandemig wedi rhyngweithio ag ymadawiad y DU o'r UE i leihau maint y gweithlu yn sylweddol, gan ddwysáu llwybr demograffig sydd eisoes yn heriol a chan beri risgiau difrifol i'r sylfaen drethi.

17. Mae Adroddiad y Prif Economegydd yn rhoi mwy o fanylion am gyd-destun economaidd, rhagolygon ac effeithiau'r pandemig ac ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at effaith negyddol y pandemig ar grwpiau difreintiedig, gydag effeithiau arbennig o andwyol yn debygol o ddeillio o'r aflonyddwch i'r system addysg wrth i bobl ifanc adael addysg a mynd i mewn i'r farchnad lafur. Mae risg y bydd yr effeithiau hyn yn cynyddu anghydraddoldeb yn y tymor hir. Mae'r tarfu ar gadwyni cyflenwi a achosir gan y pandemig wedi arwain at gynnydd mewn chwyddiant, ac o fewn hyn, mae'r cynnydd mewn prisiau ynni wedi cael effaith anghymesur ar grwpiau incwm is sy'n tueddu i wario cyfran uwch o'u hincwm ar ynni. Mae hyn yn debygol o barhau y flwyddyn nesaf wrth i'r cap ar brisiau ynni gael ei addasu.

18. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod y duedd i weithgarwch economaidd “anghysbell”, ac yn enwedig gweithio gartref, wedi cyflymu o ganlyniad i'r pandemig, gyda chanlyniadau i'r farchnad lafur ac ar gyfer ffawd ardaloedd canolog llawer o'n trefi a'n dinasoedd.

## Yr Effaith ar Gydraddoldeb

### Rhywedd

19. Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at yr anghydraddoldebau a wynebir gan wahanol rannau o'n cymdeithas a chafwyd effaith anghymesur wrth ystyried rhywedd. Cyflogir menywod ar gyfartaledd mewn swyddi â thâl is. Maent yn ymgymryd â mwy o gyfrifoldebau gofal di-dâl ac yn gweithio mewn sectorau sy'n fwy agored i dirwedd gyflogaeth gyfnewidiol. Mae hyn wedi arwain at effaith anghymesur yn sgil y pandemig ar fenywod o'i gymharu â dynion.

20. Canfu adroddiad Llesiant Cymru 2021 fod cyfran uwch o fenywod yn cael eu hystyried yn weithwyr hanfodol o'i gymharu â dynion (40 y cant o'i gymharu â 28 y cant). I rai, mae hyn wedi arwain at bwysau gwaith trymach a risgiau iechyd cysylltiedig gan eu bod yn gweithio mewn amgylchedd lle mae COVID 19 yn effeithio ar eu diogelwch.

21. Mae'r pandemig wedi atgyfnerthu ein dibyniaeth ar ofal di-dâl ac mae llawer wedi ymgymryd â gofynion ychwanegol o ran gofal plant ac addysg yn y cartref sydd wedi deillio o'r cyfyngiadau symud. Dangosodd adroddiad gan Chwarae Teg ym mis Mehefin 2021 fod menywod, mewn aelwydydd â phlentyn o dan 5 oed, wedi gwneud 78 y cant yn fwy o ofal plant ar gyfartaledd na dynion a bod 72 y cant o famau sy'n gweithio wedi gweithio llai o oriau ac wedi torri eu henillion oherwydd diffyg gofal plant. Dangosodd yr adroddiad hefyd fod 67 y cant o fenywod yn fwy tebygol o fod wedi addysgu eu plant gartref bersonol o'i gymharu â 52 y cant o ddynion.

22. Mae'r pandemig wedi effeithio'n anghymesur ar fenywod beichiog yng Nghymru. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi dweud bod cymhlethdodau megis genedigaeth cyn tymor, marw-enedigaeth a chyneclampsia ddwywaith yn fwy tebygol yn achos y rhai sydd â coronafeirws. Effeithiwyd ar fenywod beichiog a'u teuluoedd hefyd gan gyfyngiadau ymweld mewn ysbytai yn ystod beichiogrwydd a genedigaeth, gyda defnyddwyr gwasanaeth yn tynnu sylw at straen ychwanegol ar adeg pan fyddant yn fwy agored i niwed.

23. Er bod cyfraddau troseddu yn gyffredinol wedi gostwng yn ystod y pandemig bu'r cynnydd yn yr adroddiadau am gam-drin domestig yn destun pryder gyda menywod a oedd yn ddi-waith yn fwy tebygol o ddioddef trais, gan ddangos y cysylltiad rhwng ansicrwydd economaidd a thrais. Y llynedd cafwyd cynnydd o 6 y cant mewn adrodd troseddau yn genedlaethol, gyda bron i 850,000 o droseddau cam-drin domestig yn cael eu hadrodd i'r heddlu ledled Cymru a Lloegr. Mae'r ffigurau hyn hefyd yn annhebygol o gyfleu'r darlun llawn gyda llai na hanner y menywod sy'n dioddef trais yn y cartref yn adrodd yr achosion hyn i'r heddlu a dim ond mewn 3.5 y cant o achosion y caiff cyflawnwyr eu harestio.

24. Mae adroddiad Llesiant Cymru 2021 yn nodi bod menywod yn llai tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu cymuned, er bod dynion ychydig yn fwy tebygol o ddioddef troseddau treisgar na menywod. Nodwyd bod aflonyddu rhywiol mewn ysgolion hefyd yn faes allweddol sy'n peri pryder. Canfu adroddiad diweddar gan Estyn fod mwyafrif o ddisgyblion benywaidd (61 y cant) yn dweud bod ganddynt brofiad personol o aflonyddwch gan gyfoedion ac mae llawer (82 y cant) yn dweud eu bod wedi gweld eraill yn ei ddioddef. Y mathau mwyaf cyffredin o aflonyddwch rhywiol gan gyfoedion yn ystod y diwrnod ysgol yw disgyblion yn galw enwau ac yn gwneud sylwadau niweidiol, gwneud sylwadau homoffobig (yn bennaf tuag at fechgyn), a sylwadau am ymddangosiad.

25. Mae rhagfarn rhyw a rhywiaeth yn dal i fod yn broblem yn ein sefydliadau. Dangosodd adroddiad gan Gymdeithas Feddygol Prydain (BMA) fod 91 y cant o fenywod a holwyd wedi profi rhywiaeth yn y gwaith o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf gyda 74 y cant o'r holl ymatebwyr yn meddwl bod rhywiaeth yn rhwystr i ddilyniant gyrfa.

## Plant a phobl ifanc

26. Dangosodd canlyniadau arolwg a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru ym mis Ionawr 2021 amrywiaeth o brofiadau gwahanol ers y pandemig ac effaith cau ysgolion. Mynegwyd teimladau negyddol cryf gan lawer o blant a phobl ifanc. Soniodd plant tair i saith oed am weld eisiau ffrindiau, aelodau o'r teulu a phrofiadau, a dywedodd 30 y cant o bobl ifanc 17 a 18 oed a gymerodd ran eu bod yn poeni 'y rhan fwyaf o'r amser'.

27. Roedd cyfraddau unigrwydd hefyd yn uchel, gyda methu â gweld ffrindiau'n cael yr effaith fwyaf ar fywydau plant, ac yna methu â gweld aelodau eraill o'r teulu ac effaith cau ysgolion a cholegau. Mae plant a phobl ifanc o grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig eraill yn fwy tebygol o deimlo'n unig ac yn llai tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n ddiogel na'u cyfoedion. Mae plant a phobl ifanc anabl yn fwy tebygol o boeni am coronafeirws, yn fwy tebygol o deimlo'n drist ac yn fwy tebygol o deimlo'n anniogel.

28. Er gwaethaf y pryderon y mae plant a phobl ifanc yn eu crybwyll, mae llawer hefyd yn sôn am brofiadau cadarnhaol, gan gynnwys mwynhau treulio amser gartref a chael cymorth da gan ysgolion a gweithwyr ieuenctid.

29. Mae ymchwil yn awgrymu bod plant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is ledled y DU yn debygol o fod mewn mwy o berygl o syrthio ar ei hôl hi yn eu haddysg o'i gymharu â'u cyfoedion ac mae ymchwil gyfyngedig yn awgrymu y gallai plant ag anghenion dysgu ychwanegol fod mewn mwy o berygl o gael anawsterau iechyd meddwl.

30. Mae dadansoddiad diweddar gan OECD wedi dangos bod effaith y pandemig ar farchnadoedd llafur yn effeithio'n anghymesur ar bobl ifanc, gan leihau cyfleoedd ar gyfer gwaith rhan-amser a dysgu seiliedig ar waith i fyfyrwyr. Bydd graddedigion diweddar a'r rhai sydd ar fin graddio yn wynebu'r anhawster o ddod o hyd i swydd a'i chadw, gan eu rhoi mewn mwy o berygl o ddioddef problemau iechyd meddwl drwy gydol eu bywyd.

## Pobl Hŷn

31. Mae ystadegau'r ONS ar farwolaethau wythnosol a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr yn parhau i ddangos bod nifer y marwolaethau sy'n ymwneud â COVID 19 ar ei uchaf ymhlith y rhai 85 oed a throsodd.

32. Yn ôl adroddiad ONS, er bod y pandemig wedi effeithio fwyaf ar weithwyr iau, mae gweithwyr hŷn 50 oed a throsodd wedi cael eu heffeithio i raddau helaethach na'r rhai yn y grwpiau oedran canol. Roedd dros chwarter y bobl mewn cyflogaeth a oedd ar ffyrlo yn y DU yn bobl 50 oed a throsodd. Mae pobl hŷn sy'n dod yn ddi-waith yn fwy tebygol o fod mewn perygl o ddiweithdra hirdymor na phobl iau. Mae gweithwyr hŷn hefyd mewn mwy o berygl o ddioddef canlyniadau difrifol a pharhaus oherwydd yr effaith economaidd ac maent yn llai tebygol o sicrhau cyflogaeth arall.

33. Mae ymchwil gan Age UK hefyd yn dangos bod 34 y cant o bobl hŷn yn cytuno eu bod yn teimlo'n fwy pryderus yn awr na chyn y pandemig. Roedd lefelau gorbryder yn wahanol yn ôl sefyllfa ariannol pobl, 37 y cant mewn swyddi llai breintiedig yn ariannol o'i gymharu â 30 y cant mewn swyddi mwy breintiedig yn ariannol. Dangosodd yr ymchwil hon hefyd fod gan rywedd effaith ar orbryder sy'n effeithio ar 40 y cant o fenywod o'i gymharu â 27 y cant o ddynion.

34. Bu dirywiad sylweddol yn iechyd corfforol a meddyliol pobl hŷn o ganlyniad i gyfyngiadau'r pandemig a llai o weithgareddau corfforol a chymdeithasol. Canfu adroddiad Cyflwr y Genedl 2021 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fod cael gafael ar wasanaethau cymunedol, yn enwedig iechyd a gofal, wedi bod yn anodd i bobl hŷn dros y 18 mis diwethaf. Mae gofal di-dâl wedi cynyddu'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf wrth i wasanaethau gofal cymdeithasol gael eu tynnu'n ôl neu eu trosglwyddo'n ôl gan ddefnyddwyr gwasanaethau.

35. Mae'r diffyg data sydd ar gael am brofiadau pobl hŷn o gam-drin yn ei gwneud yn anodd asesu effaith y pandemig ond mae'n amlwg bod troseddwyr wedi bod yn targedu pobl hŷn ar gyfer troseddau ariannol a thwyll. Mae cyfleoedd i ymgysylltu â chymunedau a gwirfoddolwyr wedi bod yn gyfyngedig i bobl hŷn yn ystod y pandemig ac nid yw llawer ohonynt wedi teimlo fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas. Mae llawer o bobl hŷn mewn perygl o gael eu hallgáu wrth i wasanaethau cyhoeddus a phreifat gyflymu'r broses o gyflwyno gwasanaethau digidol. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae pobl hŷn wedi dangos gwydnwch a phenderfyniad drwy gydol y pandemig ac yn gyffredinol maent yn optimistaidd am y dyfodol.

Hil

36. Mae tystiolaeth flaenorol wedi canfod bod gan wrywod a benywod o gefndir ethnig Du a De Asiaidd fwy o risg o farwolaeth oherwydd y coronafeirws o'i gymharu â phobl o gefndir ethnig Gwyn. Yn ôl dadansoddiad diweddar, hyd yn oed ar ôl addasu ar gyfer lleoliad, mesurau anfantais, meddiannaeth, trefniadau byw a chyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes, roedd y mwyafrif o grwpiau Du a De Asiaidd yn parhau i fod mewn mwy o berygl na phobl Wyn Prydeinig yn yr ail don.

37. Tynnodd y Cyd-gyngor er Lles Mewnfudwyr sylw at effeithiau'r pandemig ar blant o leiafrifoedd ethnig os nad oes gan eu rhiant fynediad at arian cyhoeddus. Am fod llawer o drefniadau tai dros dro a gynigiwyd yn flaenorol gan ffrindiau neu aelodau o'r gymuned, yn cael eu tynnu'n ôl yn dilyn cyngor y Llywodraeth i ynysu yn ystod y cyfyngiadau, mae llawer o rieni o leiafrifoedd ethnig wedi dweud wrth yr awdurdodau lleol eu bod yn ddigartref.

38. Mae gwahaniaethau o hyd mewn cyrhaeddiad addysgol hefyd. Mae plant o rai grwpiau ethnig yn parhau i gyflawni'n well ar gyfartaledd yn yr ysgol o'i gymharu ag eraill, gyda chyfran uwch o gofrestriadau TGAU gan ddisgyblion Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn cael graddau A*, A a B yn Haf 2020 na disgyblion Gwyn.

Cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd a hunaniaeth rhywedd

39. Canfu ymchwil gan Goleg Prifysgol Llundain a Phrifysgol Sussex fod ymatebwyr deurywiol, traws a rhyw amrywiol yn tueddu i fod â chyfraddau uwch o iselder, yn enwedig unigolion LHDTC+a oedd wedi bod yn destun gwahaniaethu.

40. Mae adolygiad gan NatCen Social Research (2021) yn awgrymu bod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar iechyd meddwl pobl LHDTC+sy'n byw yn y DU. Nododd yr adolygiad effeithiau ychwanegol ar bobl â hunaniaethau croestoriadol o fewn y gymuned. Er enghraifft, yn ôl un astudiaeth, dywedodd mudwyr  LHDTC+(neu blant mudwyr) fod ganddynt gyfraddau uwch o unigrwydd ac yn ôl astudiaeth arall gwnaeth iechyd meddwl gwael a hunan-adroddwyd bron dyblu yn achos  gyfer ymatebwyr Du a De Asiaidd. Mae'r un adroddiad yn awgrymu bod unrhyw effeithiau negyddol o'r pandemig ar y gymuned LHDTC+yn debygol o gael eu chwyddo ar gyfer pobl draws a rhywedd amrywiadol.

41. Canfu astudiaeth arall fod cyfran uwch o ymatebwyr traws a rhywedd amrywiadol yn dweud eu bod yn hunan-niweidio'n "aml iawn" neu'n "bob dydd" o'u cymharu ag ymatebwyr cis.  Roedd pryderon diogelwch hefyd ynghylch sefyllfaoedd byw ar gyfer pobl LHDTC+ yn ystod y pandemig yn ogystal â'r cyfraddau uchaf o droseddau casineb yn erbyn y boblogaeth LHDTC+, sydd wedi bod tuag at fenywod traws.

## Anabledd

42. Mae pobl ag anableddau yn y DU wedi wynebu risg uwch o salwch a marwolaeth yn ystod pandemig COVID 19 o'i gymharu â gweddill y boblogaeth. Mae un o bob pump o bobl yn y DU (14.1m) yn dweud bod ganddynt anabledd. Mae ONS wedi dweud bod pobl ag anabledd yn y DU wedi bod yn fwy tebygol o farw o ganlyniad i COVID 19. Rhwng mis Ionawr a mis Tachwedd 2020, roedd pobl ag anableddau yn cyfrif am 6 o bob 10 marwolaeth (59.5 y cant) sy'n gysylltiedig â COVID 19. Ym mis Chwefror 2021, dywedodd 78 y cant o bobl anabl ym Mhrydain o'i gymharu â thua 69 y cant o bobl nad oeddent yn anabl eu bod yn 'bryderus iawn' neu'n 'pryderu rywfaint' am yr effaith yr oedd y pandemig yn ei chael yn eu bywyd. I bobl anabl roedd y gyfran hon yn is nag ym mis Medi 2020 (83 y cant).

43. Canfu'r Sefydliad Iechyd fod pobl anabl yn fwy tebygol o ddweud bod eu triniaeth feddygol wedi cael ei aflonyddu yn ystod y pandemig. Ym mis Ebrill 2021, adroddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod 40 y cant o bobl anabl ym Mhrydain Fawr wedi dweud bod y pandemig wedi effeithio'n negyddol ar eu gallu i gael gofal iechyd ar gyfer materion nad ydynt yn ymwneud â'r coronafeirws.

44. Mae mwy na tri o bob pump o deuluoedd plant anabl wedi gweld lefelau cymorth ffurfiol ac anffurfiol yn gostwng ers  argyfwng y coronafeirws, gyda llawer yn dal i fod heb fathau hanfodol o gymorth. Cafwyd effaith negyddol ar iechyd meddwl a llesiant y rhan fwyaf o blant anabl neu ddifrifol sâl, yn ogystal â'u brodyr a'u chwiorydd a'u rhieni sy'n ofalwyr arnynt.

## Y Gymraeg

45. Mae adroddiad Llesiant Cymru 2021 yn dangos bod darlun cymysg yn y data diweddar ar nifer y siaradwyr Cymraeg. Dangosodd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth gynnydd yng nghanran y bobl sy'n siarad Cymraeg yn 2020-21, tra dangosodd Arolwg Cenedlaethol Cymru ostyngiad mawr mewn siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl yn 2019-20 cyn dychwelyd i lefelau mwy arferol yn fuan wedyn.

46. Gan ddefnyddio'r dangosydd cenedlaethol ar ddefnyddio'r Gymraeg, roedd 10 y cant o bobl tair oed neu'n hŷn yn siarad Cymraeg bob dydd yn 2019-20. Mae'r cyfrifiad ysgolion yn dangos bod canran y plant sy'n gallu siarad Cymraeg gartref yn 2020/21 wedi aros ar lefel debyg i'r blynyddoedd blaenorol (tuag 11 y cant).

## Anfantais economaidd-gymdeithasol

47. Cyn y pandemig, ni fu fawr o newid mewn lefelau tlodi incwm cymharol yng Nghymru ers nifer o flynyddoedd. Er bod anghydraddoldeb incwm yn is yng Nghymru nag ar draws y DU gyfan, gan adlewyrchu'r gyfran isel o enillwyr incwm uchel ac uchel iawn yng Nghymru, mae Adroddiad y Prif Economegydd yn dangos y gall tlodi gael effaith barhaol hirach ar gyfleoedd bywyd.

48. Mae effaith fwy anuniongyrchol niwed economaidd-gymdeithasol yn fwy tebygol o gael ei theimlo gan grwpiau sydd eisoes o dan anfantais. Mae hyn yn cynnwys pobl ifanc, menywod, pobl anabl a grwpiau ethnig leiafrifol. Roedd tua 230,000 o bobl yn cael eu cyflogi mewn diwydiannau yng Nghymru yn 2019 y dywedwyd wrthynt am gau yn gynnar yn 2020, sef tua 16 y cant o gyfanswm y gweithlu. Mae menywod, pobl ifanc a gweithwyr o gefndir ethnig lleiafrifol yn fwy tebygol o gael eu cyflogi yn y diwydiannau hynny.

49. Roedd bron i chwarter yr holl bobl yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol rhwng 2017 a 2020. Plant sydd fwyaf tebygol o fod mewn tlodi cymharol. Roedd bron hanner rhieni sengl mewn amddifadedd materol yn 2019-20 a dywedodd 1 y cant o aelwydydd eu bod wedi cael bwyd oddi wrth fanc bwyd yn ystod 2020-21.

50. Mae bwlch o hyd yn neilliannau addysgol plant ysgol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt. Mae'r bwlch mewn TGAU wedi ehangu yn ystod y pum mlynedd diwethaf, gyda data (hyd at 2019) yn nodi ar gamau cynharach yr ysgol fod y bwlch yn ehangu wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn.

51. Er bod cyfraddau marwolaeth cyffredinol fel arfer yn uwch mewn ardaloedd mwy difreintiedig, rhwng mis Mawrth a diwedd mis Gorffennaf 2020 roedd y gyfradd marwolaeth sy'n ymwneud â COVID 19 bron ddwywaith mor uchel â'r gyfradd yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

52. Rydym yn gwybod bod gan newidiadau i'r system les gysylltiadau cryf â thlodi, yn enwedig lefelau cynyddol o dlodi mewn gwaith. Mae adroddiad gan Sefydliad Bevan wedi dangos y bydd y toriad mewn Credyd Cynhwysol a Chredyd Treth Gwaith yn effeithio ar gyfran uwch o deuluoedd yng Nghymru na chyfartaledd y DU. Bydd y toriadau hyn yn effeithio ar fwy na phedwar o bob 10 o deuluoedd sydd â phlant yng Nghymru ym mhob etholaeth ond pedair. Bydd y gweithwyr ar y cyflogau isaf yn teimlo beichiau pellach pan fydd cyfraniadau yswiriant gwladol yn cynyddu o fis Ebrill 2022.

53. Mae Sefydliad Bevan hefyd wedi nodi bod effaith economaidd y pandemig wedi gweld sefyllfa ariannol llawer o deuluoedd Cymru yn dirywio, gan wthio rhai i ddyled am y tro cyntaf a dyfnhau faint o ddyled sydd gan rai o'r rhai sydd eisoes yn cael pethau'n anodd. Ledled Cymru roedd 130,000 o aelwydydd, 10 y cant o'r holl aelwydydd, wedi syrthio ar ei hôl hi ar un o'u biliau rhwng Ionawr a Mai 2021. Dros yr un cyfnod roedd 230,000 o aelwydydd, 17 y cant o'r holl aelwydydd wedi benthyg arian.

54. Mae nifer y bobl sy'n cael cymorth yng Nghymru drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol hefyd wedi cynyddu'n sylweddol. Rhwng 18 Mawrth 2020 a 20 Mai 2021, roedd 208,952 o Daliadau Cymorth Brys yn gysylltiedig â COVID 19, gyda chyfanswm gwerth o £13.94m. Roedd y rhesymau sy'n gysylltiedig â'r pandemig a ddarparwyd gan ymgeiswyr yn cynnwys gorfod rhoi'r gorau i weithio neu leihau gwaith, oedi yn achos hawliad budd-daliadau a chostau ynni/bwyd uwch.

55. Y Monitor Digartrefedd: Dangosodd adroddiad Cymru 2021 a gomisiynwyd gan Crisis fod blwyddyn gyntaf y pandemig wedi gweld parhad o'r duedd cyn y pandemig o gynnydd yn y galw o ganlyniad i ddigartrefedd. Rhagwelir y bydd canlyniadau economaidd y pandemig yn achosi cynnydd amlwg ar unwaith mewn digartrefedd craidd, ond mae ystod o fesurau brys wedi bod yn lleddfu hyn a gallent barhau i wneud hynny.

## Yr Amgylchedd

56. Un o'r themâu sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y pandemig yw'r argyfwng o ran yr hinsawdd a natur sy'n wynebu'r byd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n dod i'r casgliad bod amrywiaeth fiolegol wedi gostwng a bod Cymru'n defnyddio adnoddau ar gyfradd anghynaliadwy. Mae cynnydd yn cael ei wneud mewn rhai meysydd, wrth i Gymru barhau i fod yn un o'r prif wledydd yn y byd o ran ailgylchu a bu cynnydd pellach o ran capasiti ynni adnewyddadwy. Mae nifer y cerbydau allyriadau isel iawn sydd newydd gael eu cofrestru wedi treblu (er mai o sylfaen isel y mae hynny).

57. Cyhoeddwyd yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) ym mis Rhagfyr 2020. Asesodd gynnydd yn erbyn pedwar nod rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac mae'n dangos sut mae defnydd Cymru o adnoddau naturiol yn effeithio ar gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd. Casgliadau cyffredinol yr adroddiad yw ein bod yn defnyddio adnoddau naturiol ar gyfradd anghynaliadwy ac nid ydym wedi bod yn rhagweithiol o ran gwella a diogelu ein hadnoddau naturiol.

58. Mae dangosyddion cenedlaethol wedi'u diweddaru yn dangos bod tua 245,000 o eiddo mewn perygl o lifogydd o foroedd, afonydd a dŵr wyneb. Parhaodd y gyfradd ailgylchu i gynyddu gyda bron i ddwy ran o dair o wastraff trefol yn cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn 2019-20 a gostyngodd swm y gwastraff trefol a gynhyrchwyd 2 y cant.

59. Cynyddodd capasiti trydanol wedi'i osod a chapasiti gwres wedi'i osod o ynni adnewyddadwy 5 y cant yn y drefn honno. Swm y trydan adnewyddadwy a gynhyrchir yw tua hanner (51 y cant) y trydan a ddefnyddir yng Nghymru.

60. Mae'r atodiad hwn yn darparu astudiaethau achos isod ar effeithiau penderfyniadau gwariant penodol i ategu'r wybodaeth a ddarparwyd gennym ym mhennod 4.

## Astudiaeth Achos – Incwm Sylfaenol

61. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn erbyn cefndir o ddirwasgiad economaidd byd-eang, y cyd-destun o gyni ac yn fwy diweddar pandemig COVID 19, bu cryn ddiddordeb mewn gwahanol ymagweddau at les, yn enwedig at gynlluniau incwm sylfaenol. Mae'r cynlluniau hyn yn disodli taliad lles sy'n gysylltiedig ag angen, ac maent yn arddel isafswm lefel o incwm a ddylai fod yn ddigonol i gwmpasu pob angen, fel cymhelliant yn aml, a ffordd o fynd i'r afael ag effeithiau anfwriadol systemau lles fel rhwystr i waith. Mae ystod o wahanol gynlluniau incwm sylfaenol yn amrywio o incwm sylfaenol wedi'i dargedu i ddarpariaeth gynhwysol. Mae Swyddfa Ranbarthol Ewrop Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn ystyried y potensial ar gyfer incwm sylfaenol fel ffordd o fynd i'r afael ag annhegwch ym maes iechyd, gan lunio'r ddadl fel mater o gyfiawnder cymdeithasol.

62. Gwnaeth Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 ymrwymiad i dreialu'r defnydd o gynllun incwm sylfaenol yng Nghymru sy'n arddel y model o gyffredinoliaeth gynyddol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddilyn ers dros 20 mlynedd.

63. I fynd â'r gwaith hwn yn ei flaen, rydym yn ystyried y gwersi a ddysgwyd o wledydd eraill sydd eisoes wedi cyflwyno'r cysyniad o incwm sylfaenol yng nghyd-destun Cymru.

64. Mae'r pandemig wedi bwrw rhai o'r grwpiau mwyaf agored i niwed yng Nghymru galetaf, yn enwedig pobl ifanc sy'n gadael y system ofal. Gallai cymorth ychwanegol ar gyfer yr oedran hwn ddarparu sylfaen fwy cadarn i bobl ifanc â phrofiad o ofal adeiladu eu bywydau fel oedolion.

65. Rydym yn bwriadu, felly, ddatblygu a darparu treial incwm sylfaenol gyda charfan o bobl ifanc sy'n gadael gofal a fydd yn profi buddion datganedig incwm sylfaenol, megis mynd i'r afael â thlodi a diweithdra, a gwella iechyd a llesiant ariannol.

66. Rydym yn bwriadu gweithio gyda'r garfan hon, y mae llawer ohonynt yn wynebu tlodi a mathau eraill o anfantais, i ddeall yr heriau unigryw y maent wedi'u hwynebu. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i brofi sut y gallai taliadau arian parod, gwell mynediad at wasanaethau ac aildrefnu systemau eu helpu i fyw'r math o fywydau y maent am eu byw. Rydym yn bwriadu i brofiad y rhai sy'n gadael gofal gael ei ystyried yng nghamau cynnar y gwaith o gynllunio a chyflwyno'r peilot.

67. Byddwn yn datblygu cyfres o fesurau i wella'r modd y caiff y peilot ei gyflwyno ac i asesu ei effaith ar fywydau'r bobl ifanc hynny sy'n cymryd rhan yn y cynllun. Ar sail y gwersi a ddysgir o'r treial, caiff adolygiad clir a chyfres o argymhellion eu paratoi, a gaiff eu cyd-greu gyda'r cyfranogwyr. Bydd hyn yn caniatáu i agweddau llwyddiannus ar yr ymyriad gael eu hatgynhyrchu ac i wersi gael eu dysgu a fydd o fudd i'r rhai sy'n gadael gofal a phoblogaeth ehangach Cymru.

68. Bydd y cynllun peilot hwn yn cyd-fynd â'r buddsoddiad ychwanegol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal sydd eisoes ar waith, megis mynediad i ISAs i Bobl Ifanc, Cronfa Dydd Gŵyl Dewi ac esemptiadau’r Dreth Gyngor.

## Astudiaeth Achos – Prydau Ysgol am Ddim

69. Rydym yn falch o'n llwyddiant wrth ddarparu prydau ysgol am ddim i ddisgyblion yng Nghymru ac rydym wedi ymrwymo i adeiladu ar y ddarpariaeth honno. Mae prydau ysgol am ddim wedi bod yn ganolog ers blynyddoedd i'n dull o sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn llwglyd, ymladd tlodi, sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol a lleihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol ym meysydd addysg, iechyd a dyfodol ffyniannus.

70. Mae pandemig COVID 19 wedi amlygu'n glir y pwysau ariannol ychwanegol sy'n wynebu teuluoedd yng Nghymru, ac yn enwedig y teuluoedd hynny sydd â'u plant yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Fel rhan o'n hymateb i'r pwysau hyn darparwyd £83.3m rhwng 2020-21 a 2021-22 – gan sicrhau bod modd i ddysgwyr cymwys barhau i dderbyn prydau ysgol maethlon am ddim yn ystod cyfnodau pan nad oedd modd iddynt fynychu lleoliad addysg yn sgil y pandemig. Sicrhawyd hefyd eu bod yn medru derbyn cynnig tebyg trwy gydol gwyliau'r ysgol yn ystod y cyfnod arbennig o anodd hwn.

71. Yn gynharach eleni, nododd ein Rhaglen Lywodraethu ein bwriad i barhau i ddiwallu'r galw cynyddol am brydau ysgol am ddim a ddaeth yn sgil y pandemig, ac i adolygu'r meini prawf cymhwysedd gan ymestyn yr hawl cyn belled ag yr oedd hynny'n bosibl o fewn yr adnoddau. Gan adeiladu ar hyn, cyhoeddwyd ar 22 Tachwedd ein Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru gan ymrwymo i ymestyn prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd yn ystod oes y cytundeb. Mae hwn yn gam pwysig pellach i gyrraedd ein huchelgais ar y cyd na ddylai unrhyw blentyn fod yn llwglyd ac, wrth gymryd y cam hwn, bydd 196,000 o blant ychwanegol yn gymwys i gymryd y cynnig o brydau ysgol am ddim yng Nghymru.

72. Er mwyn ein galluogi i roi'r ymrwymiad hwn ar waith, rydym yn darparu £90m yn ychwanegol hyd at 2024-25. Bydd yr ymrwymiad hwn yn cael ei roi ar waith fesul cam gan adlewyrchu pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth a pharatoi o flaen llaw cyn rhyddhau'r cynnig yn llawn, gyda £40m yn ychwanegol ar gael yn 2022-23, £30m pellach ar gael yn 2023-24 a £20m yn ychwanegol yn 2024-25.

73. Mae ein huchelgais yn seiliedig ar dystiolaeth bod plant iau yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi incwm cymharol. Mae ein hymrwymiad yn cynnwys ymyriad trawsnewidiol sydd wedi ei anelu at fynd i'r afael â thlodi a diffyg bwyd ymysg plant. Mae tystiolaeth hefyd yn cyfeirio at fanteision ehangach, gan gynnwys codi proffil bwyta'n iach, cynyddu'r ystod o fwyd y mae disgyblion yn ei fwyta a gwella eu medrau cymdeithasol yn ystod prydau bwyd, yn ogystal â gwella ymddygiad a chyrhaeddiad.

74. Yn ehangach, ac fel y nodir yn ein Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio, rydym yn cydnabod yn benodol bwysigrwydd cynyddu'r cyflenwad o fwyd o Gymru sy'n rhan o brydau bwyd yr ysgol er mwyn cwtogi cadwyni cyflenwi a lleihau allyriadau carbon, cefnogi cynhyrchwyr a dosbarthwyr bwyd lleol a chryfhau'r Economi Sylfaenol – gan adeiladu ar y gwaith sydd eisoes ar y gweill. Felly, rydym yn parhau'n ymrwymedig i ddefnyddio ysgogiadau sy'n bodoli eisoes a datblygu rhai newydd a fydd yn annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol sydd wedi'i gael drwy ddulliau moesegol wrth gynnig prydau ysgol yng Nghymru. Bydd hyn, yn ei dro, o fudd i fusnesau lleol, economïau, yr hinsawdd a chymunedau.

## Astudiaeth Achos – Cyllidebu Ataliol mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal

75. Mae costau uchel iawn yn gysylltiedig â chynnal plant sydd yng ngofal yr awdurdod lleol. Nid yw plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cyflawni cystal yn y byd addysg, nid ydynt mor iach yn gorfforol ac yn feddyliol, nid ydynt mor llwyddiannus yn y farchnad lafur ac mae mwy o broblemau o ran troseddu o'u cymharu â'u cyfoedion. O ganlyniad, ceir costau cudd ychwanegol drwy gydol oes plant sydd â phrofiad o ofal, yn ogystal â'r gost ymarferol o gynnal plant yng ngofal yr awdurdod lleol.

76. Mae plant sy'n derbyn gofal yn faes polisi lle gellir gwahanu camau ataliol yn glir oddi wrth gamau gweithredu a'r buddsoddiad sy'n gysylltiedig â'r rhai sy'n gadael gofal.

77. Felly, rydym yn targedu ein dull ataliol mewn maes lle gallai gael yr effaith fwyaf, gan gyd-fynd ag amcan y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

78. Yn ogystal â'n cynllun peilot Incwm Sylfaenol, rydym wrthi'n ystyried sut i ariannu mentrau atal ac ymyrryd yn gynnar sy'n lleihau argyfyngau er mwyn osgoi'r angen i blant ddod i gysylltiad â gwasanaethau statudol yn y lle cyntaf ac i helpu i gefnogi plant i aros gyda'u teuluoedd. Bydd hyn wedyn yn osgoi'r costau uchel sy'n gysylltiedig â chynnal plant yng ngofal awdurdodau lleol yn ogystal â'r costau gydol oes a'r effeithiau andwyol ar blant ac oedolion sydd â phrofiad o ofal.

79. Fel rhan o'n gwaith o sefydlu'r gronfa hon a phrofi dull sy'n canolbwyntio ar atal argyfwng, rydym yn ystyried y meysydd canlynol a pha mor effeithiol y gallent fod:

- Gwasanaethau Maethu: Rydym eisoes wedi buddsoddi mewn corff cenedlaethol i ddatblygu brand Cymru gyfan ar gyfer gwasanaethau gofal maeth ar ffurf Maethu Cymru sydd â'r nod o gynyddu nifer y gofalwyr maeth mewn awdurdodau lleol. Rydym bellach yn ystyried sut y gellid cyflawni mwy drwy fuddsoddi ymhellach yn y maes hwn a'r gwaith a wnaed hyd yma.
- Rhianta: Mae hyn yn cynnwys ystyried ymyriadau pan fydd plant a phobl ifanc ar gyrion gofal a pha fesurau y gellir eu cymryd i osgoi gwaethygu eu sefyllfa a'u cadw rhag mynd i mewn i'r system ofal. Mae potensial hefyd i ystyried rôl rhianta corfforaethol er mwyn darparu'r gwasanaethau gorau.
- Gwasanaethau ataliol: Mae'r maes hwn yn hanfodol i gefnogi newid lle mae ei angen drwy fuddsoddiad a chymorth ychwanegol.

80. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r dull sydd ei angen er mwyn gwneud buddsoddiadau a mesur canlyniadau. Bydd rhagor o fanylion ar gael yn gynnar yn 2022. Y nod yw cael effaith wirioneddol ar blant a phobl ifanc fel ein bod yn gweld llai ohonynt yn dod i mewn i'r system ofal gan wella eu cyfleoedd mewn bywyd. Y nod hefyd yw gweithredu fel model i ddangos sut mae buddsoddi mewn dulliau ataliol yn arwain at effeithiau tymor byr a thymor hir o ran y buddsoddiad sydd ei angen i ymdrin â chanlyniadau negyddol ac i wella cyfleoedd mewn bywyd.

## Astudiaeth Achos – Gwarant i Bobl Ifanc

81. Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol na fydd yna genhedlaeth goll yng Nghymru o ganlyniad i'r pandemig. Lansiwyd y Warant i Bobl Ifanc ym mis Tachwedd 2021 ac mae'n rhaglen uchelgeisiol a gynlluniwyd i roi'r cynnig o waith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth i bawb dan 25 oed yng Nghymru.

82. Mae pobl ifanc wedi cael eu rhoi dan anfantais anghymesur gan y pandemig, a rhaid cymryd camau beiddgar i'w galluogi i gael y dechrau gorau posibl yn eu gyrfaoedd. Rydym am roi'r cymorth sydd ei angen ar bobl ifanc i sicrhau dyfodol mwy disglair wrth adael yr ysgol, y coleg, y brifysgol, os ydynt yn ddi-waith neu'n wynebu cael eu diswyddo.

83. Bydd pob person ifanc 16 i 24 oed yng Nghymru sydd am fanteisio ar y Warant i Bobl Ifanc yn mynd drwy borthol Cymru'n Gweithio. Bydd cymorth a chyngor ar gael gan gynghorwyr drwy sawl fforwm gan gynnwys yn rhithiol, ar y stryd fawr ac mewn cyfleusterau cymorth gwell ledled Cymru.

84. Beth bynnag yw’r ansicrwydd rydyn ni’n ei wynebu, fe allwn ni fod yn siŵr o un peth: bydd peidio â mynd ati i gefnogi pobl ifanc heddiw yn arwain at fethiant economaidd yfory. Cefnogir y warant gan ddarpariaeth eang i sicrhau y gall pobl ifanc fanteisio ar gymorth effeithiol sy'n gweithio iddynt.

85. Bydd ein camau nesaf yn y broses o ddatblygu'r warant yn cynnwys mentrau fel rhaglen well i bobl ifanc sy'n eu helpu i bontio i hunangyflogaeth gyda phecyn o gymorth a chyngor busnes ac ariannol; llwybrau penodol i gefnogi gwaith recriwtio i sectorau twf; sicrhau bod pobl yn barod ar gyfer swyddi yn y dyfodol drwy ddwy raglen gyflogadwyedd hyblyg newydd, ReAct a Mwy a Thwf Swyddi Cymru a Mwy, gan flaenoriaethu pobl ifanc a sgiliau sero net drwy'r rhaglen brentisiaethau.

86. Er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru yn ei hymrwymiad i gefnogi cyllidebu ar sail rhyw, rydym yn cynnal cynllun peilot cyllidebu ar sail rhyw ar y Warant i Bobl Ifanc i helpu i nodi a deall effeithiau posibl - gan gynnwys effeithiau anfwriadol ar wahanol grwpiau - i wella'r ffordd rydym yn blaenoriaethu ac yn dyrannu adnoddau.

## Astudiaeth Achos – Adolygiad Cyfalaf Sylfaen Sero

87. Er mwyn paratoi ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2022-23, cynhaliwyd adolygiad sylfaenol "sylfaen sero" o holl gyllidebau cyfalaf cyffredinol Llywodraeth Cymru. Yn hytrach na chyflwyno cyllidebau llinell sylfaen o'r flwyddyn flaenorol, ac yna eu diwygio ar gyfer ailflaenoriaethu a phwysau ychwanegol, mae'r holl gyllidebau adrannol wedi'u hailosod i sero. Yna cynhaliwyd adolygiad o gynigion adrannol, yn dilyn asesiad yn erbyn ystod o feini prawf allweddol. Bydd mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur wrth wraidd yr adolygiad hwn.

88. Aethom ati yn y ffordd hon yng ngoleuni maint a chyflymder y newid yr ydym yn ei wynebu. Mae polisi cyfalaf yn symud yn gyflymach nag a welwyd yn ystod y 50 mlynedd diwethaf, gyda maint y newid hwn yn sbarduno'r angen i sicrhau manteision lluosog a chynaliadwy o'r seilwaith yr ydym yn buddsoddi ynddo. Yn wyneb yr argyfwng hinsawdd a natur, rydym yn cydnabod effeithiau cysylltiedig sylfaenol seilwaith ar yr amgylchedd, a rôl a gwerth natur fel math o seilwaith ei hun. Gan gydbwyso'r tymor byr a'r tymor hir rydym hefyd yn cydnabod y bydd llawer o'r seilwaith y byddwn yn buddsoddi ynddo dros y 10 mlynedd nesaf yng Nghymru yn para am ddegawdau.

89. Drwy ymgymryd â'r dull gweithredu sylfaen sero hwn, rydym wedi llwyddo i ailalinio ein cyllidebau cyfalaf â'n Rhaglen Lywodraethu, gan sicrhau bod ein dyraniadau ariannol wedi'u targedu'n briodol at yr ymyriadau hynny sy'n cyflawni ymrwymiadau allweddol y Llywodraeth hon.

90. Roedd cynnal Adolygiad o Wariant tair blynedd hefyd yn cynnig cyfle i roi elfen o sicrwydd tymor hwy i adrannau gwario a'n rhanddeiliaid a oedd wedi bod ar goll yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Drwy adeiladu ein cyllidebau cyfalaf "o'r bôn i'r brig" rydym wedi llwyddo i broffilio gwariant cyfalaf yn well ar draws ystod o raglenni dros y tair blynedd, gan flaenoriaethu gwahanol ymyriadau mewn gwahanol flynyddoedd ariannol.

91. Yn hollbwysig, drwy gynnal adolygiad sylfaen sero, rydym wedi llwyddo i weithredu ein Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 10 mlynedd newydd ar unwaith, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft hon. Mae'r Strategaeth yn gosod fframwaith sy'n sefydlu'r canlyniadau y mae'n rhaid i fuddsoddiad yn ein seilwaith eu galluogi, a hynny yn y pedwar maes llesiant – Amgylcheddol, Cymdeithasol, Economaidd a Diwylliannol. O fewn y fframwaith hwn, mae ein hymrwymiad cyffredinol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur wedi ymwreiddio, gan gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddatblygu cynllun buddsoddi mewn seilwaith i gefnogi economi ddi-garbon.

92. Caiff y Strategaeth ei chefnogi gan y Cynllun Cyllid Seilwaith cyntaf (IFP) sy'n nodi'r buddsoddiad seilwaith allweddol y mae angen inni ei wneud dros y blynyddoedd ariannol 2022-23, 2023-24 a 2024-25 i gyflawni cyfres o gamau strategol. Mae cynnal adolygiad sylfaen sero o gyllidebau cyfalaf yn golygu ein bod wedi llwyddo i aildargedu ein cyfres gyfunol o fuddsoddiadau i gyflawni'r Strategaeth yn y ffordd fwyaf effeithiol, a sbarduno ffocws ar fuddsoddiadau sy'n mynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu o ran yr hinsawdd a natur.

## Astudiaeth Achos – Coedwig Genedlaethol Cymru

93. Mae gwerth natur a'r manteision a'r canlyniadau y mae'n eu sicrhau yn hollbwysig wrth i ni geisio mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. Mae ein Rhaglen Goedwig Genedlaethol, a lansiwyd ym mis Mawrth 2020, yn amlinellu ein huchelgais ar gyfer Coedwig Genedlaethol sy'n ymestyn ar hyd a lled Cymru. Bydd y rhaglen hon yn darparu llawer o gyfleoedd ar gyfer plannu, tyfu a diogelu coed. Bydd hefyd yn cyfrannu at ein nodau datgarboneiddio, yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd ac yn atal dirywiad bioamrywiaeth. Bydd ein Rhaglen Goedwig Genedlaethol hefyd yn gwella iechyd a lles ein pobl yn ogystal â chefnogi gweithgarwch busnes masnachol.

94. Nod y rhaglen yw plannu 43,000 hectar o goetir newydd erbyn 2030 a 180,000 hectar erbyn 2050, gan gynyddu'n sylweddol faint o garbon a gaiff ei ddal a'i storio a chyfrannu at y Goedwig Genedlaethol newydd.

95. Felly, rydym yn buddsoddi £12m ychwanegol o refeniw a chyfanswm buddsoddiad cyfalaf o £57m yn y Goedwig Genedlaethol a Strategaeth Pren Cymru 2024-25. Bydd y buddsoddiad hwn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu i greu Coedwig Genedlaethol i ymestyn o'r Gogledd i'r De, gan gefnogi cymunedau i greu 30 o goetiroedd newydd, cysylltu cynefinoedd a diogelu coetiroedd hynafol. Bydd hefyd yn creu strategaeth ddiwydiannol ar gyfer pren fel rhan o'n huchelgais i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur.

96. Yn y Gyllideb hon byddwn yn mynd ati i ddatblygu'r hyn a ddysgwyd yn ystod dwy flynedd gyntaf y rhaglen, gan gynnwys drwy greu 30 o ardaloedd newydd o Goedwig Genedlaethol. Byddwn hefyd yn cynnig coeden i bob cartref yng Nghymru, naill ai i bobl ei phlannu eu hunain neu iddi gael ei phlannu ar eu rhan. Yn ogystal, byddwn yn creu 100 o Goedwigoedd Bach.

97. Prif nod y rhaglen hon yw cysylltu coetiroedd ledled Cymru a gwella manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r manteision yn lluosog ac maent yn cynnwys manteision economaidd drwy greu swyddi a darparu ein cynnyrch pren ein hunain a fyddai'n lleihau ein hôl troed carbon yn sylweddol drwy leihau mewnforion. Mae manteision amgylcheddol yn cynnwys gwella bioamrywiaeth fel bod ein coetiroedd yn dod yn fwy gwydn. Mae manteision cymdeithasol a chorfforol clir hefyd. Mae gwaith ymchwil yn dangos bod manteision o ran iechyd meddwl sy'n deillio o dreulio amser yng nghoetiroedd Cymru yn arbed tua £13m i'r GIG a chyflogwyr mewn costau gofal iechyd meddwl. Mae bron i hanner poblogaeth y DU yn dweud eu bod bellach yn treulio mwy o amser y tu allan o'i gymharu â chyn y pandemig, gyda'r mwyafrif yn dweud eu bod yn teimlo'n hapusach pan fyddant mewn coetiroedd ac ym myd natur.

98. Mae buddsoddi yn ein coetiroedd yn golygu iechyd gwell i bawb; mae'n gwneud synnwyr economaidd drwy arbed miliynau o bunnoedd i gymdeithas; ac mae'n gwneud synnwyr amgylcheddol gan ei fod yn ein helpu i fynd i'r afael â heriau deublyg newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth.

# Atodiad E: Gwybodaeth dechnegol

## Cynlluniau Cyllid Arloesol

1. Mewn cyllidebau blaenorol rydym wedi nodi'r ystod o gynlluniau cyllid arloesol sydd wedi'u datblygu.

2. Mae cyllid heb ei neilltuo'n dal i gael ei ddosbarthu trwy'r Grant Cynnal Refeniw, ar gyfer dwy o fentrau benthyca Llywodraeth Leol – ar gyfer priffyrdd ac ysgolion. Mae cyllid hefyd yn parhau i gael ei ddyrannu ar gyfer dau gylch o fuddsoddi gan ddefnyddio'r Grant Cyllid Tai.

3. Bydd y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol yn parhau i weld buddsoddiad yn asedau'r awdurdodau lleol ar gyfer amddiffyn yr arfordir i reoli risgiau presennol ac yn y dyfodol yn sgil newid hinsawdd a chynnydd o ran lefel y môr i gymunedau arfordirol ledled Cymru. Dechreuwyd adeiladu'r cynllun cyntaf yn 2019-20 ac mae'r gyllideb yn parhau i gyflwyno cyllid ar gyfer y rhaglen hyd at 2024-25. Ar hyn o bryd mae 17 o gynlluniau awdurdodau lleol yn y rhaglen ac wrth ddyrannu setliad tair blynedd iddynt byddwn yn parhau i fonitro'r proffil cyflawni.

4. Mae tri chynllun yn cael eu darparu ar hyn o bryd gan ddefnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Mae'r gwaith o adeiladu prosiect deuoli'r A465 yn mynd rhagddo a disgwylir iddo gael ei gwblhau yn 2025. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r Partner Cyflenwi Addysg Strategol a disgwylir i'r llif gwaith o ran adeiladu ysgolion a cholegau ddechrau yn 2022. Mae'r broses o gaffael partner yn y sector preifat i ddarparu Canolfan Ganser Felindre yn fyw ar hyn o bryd.

5. Ni ddechreuir talu am y cynlluniau dan y Model Buddsoddi Cydfuddiannol hyd nes y bydd yr asedau ar gael i'r cyhoedd.

6. Bydd cyfalaf trafodiadau ariannol yn parhau i gael ei ddefnyddio i ariannu cyfranddaliadau'r sector cyhoeddus mewn cynlluniau Model Buddsoddi Cydfuddiannol, a rhoddir ystyriaeth bellach i'r costau hyn fel rhan o'n paratoadau ar gyfer Cyllideb Derfynol 2022-23. Caiff y cyfranddaliadau hyn eu gwerthuso a'u rheoli gan Fanc Datblygu Cymru ar ran Gweinidogion Cymru.

7. Mae cynlluniau cyllid arloesol a Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn hwb hollbwysig i gyllidebau cyfalaf, gan ei gwneud yn bosibl buddsoddi mwy na £2bn mewn seilwaith a sicrhau bod cyfleusterau hanfodol i'r cyhoedd yn cael eu darparu yn gynt nag a fyddai wedi bod yn bosibl fel arall. Mae'r rôl y bydd ein cynlluniau cyllid arloesol yn ei chwarae wrth gefnogi'r canlyniadau a sefydlir yn Strategaeth newydd Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn cael ei nodi yn y Cynllun Cyllid Seilwaith cyntaf.

## Atodiad F: Cynllun Gwella’r Gyllideb

Ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft hon, rydym wedi cyhoeddi diweddariad i'n Cynllun Gwella’r Gyllideb. Cyhoeddwyd y Cynllun hwn i ddechrau gyda Chyllideb ddrafft 2020-21. Mae’n nodi ein gweledigaeth, gan gynnwys uchelgeisiau ar gyfer y tymor byr a'r tymor canolig dros y pum mlynedd nesaf, i wella proses y gyllideb sy’n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio, i yrru gwelliant parhaus yn ogystal â gwella'r prosesau hyn i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r diweddariad hwn yn cyflwyno ein huchelgeisiau treigl pum mlynedd yn ogystal â chrynodeb o'n cynnydd yn erbyn ymrwymiadau arfaethedig o Gynllun y llynedd yn ystod 2021.

Mae hwn wedi'i cyhoeddi fel dogfen ar wahân ac mae i'w weld yn:

https://llyw.cymru/cyllideb-ddrafft-2022-2023

# Atodiad G: Costau gweithredu deddfwriaeth

## Costau gweithredu deddfwriaeth a ddeddfwyd yn 2022-23

*[Cliciwch ar deitl pob Deddf am wybodaeth gefndirol]*

| Teitl y Ddeddf | Pa BEL sy'n ariannu'r costau? | Cam gweithredu | Blwyddyn | Amcangyfrif yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o gostau (£) | Swm a neilltuwyd yn y Gyllideb (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | | |
| Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 | Cymorth i Deuluoedd a Phlant (1085) | Mawrth 2022 – Mawrth 2027 | 2022-23 | 793,000 | 1,230,000 |
| | | | 2023-24 | 693,000 | 1,130,000 |
| | | | 2024-25 | 643,000 | 1,080,000 |
| Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017[11] | Gwella Iechyd a Gweithio'n Iach | Gorffennaf 2017 – Parhaus | 2022-23 | 20,000 | 20,000 |
| | | | 2023-24 | 20,000 | 20,000 |
| | | | 2024-25 | 26,700 | 26,700 |
| Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016[12] | Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy | 2016 – Parhaus | 2022-23 | 606,000 | 606,000 |
| | | | 2023-24 | 599,000 | 599,000 |
| | | | 2024-25 | 599,000 | 599,000 |
| Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 | Camddefnyddio sylweddau | 2019-20 – 2023-24 | 2022-23 | 70,000 | 70,000 |
| | | | 2023-24 | 72,340 | 72,340 |
| | | | 2024-25 | N/A | N/A |
| Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 | Hea Gwella Ansawdd Gofal Iechyd | 2020 – Parhaus | 2022-23 | 1,098,000 | 1,098,000 |
| | | | 2023-24 | 713,000 | 713,000 |
| | | | 2024-25 | 713,000 | 713,000 |

[11] Mae'r costau cyfle a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'u dileu o'r ffigurau amcangyfrifedig, sydd bellach yn dangos costau lle disgwylid llif arian yn unig. Diweddarwyd y costau gwirioneddol a'r swm a neilltuwyd ar gyfer y blynyddoedd a gwmpesir gan y gyllideb hon yn dilyn ailbroffilio yn ystod y cyfnod gweithredu.

[12] Oherwydd y dull graddol a fabwysiadwyd i'w weithredu, mae costau i'r rheoleiddiwr gwasanaeth wedi'u gwasgaru yn hytrach na'u crynhoi yn y flwyddyn gyntaf fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

| Teitl y Ddeddf | Pa BEL sy'n ariannu'r costau? | Cam gweithredu | Blwyddyn | Amcangyfrif yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o gostau (£) | Swm a neilltuwyd yn y Gyllideb (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tai a Llywodraeth Leol** | | | | | |
| Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016[13] a Deddf Rhentu Cartref (Diwygio) (Cymru 2021 | Polisi Tai (1100) | Ionawr 2016 – Ebrill 2021 | 2022-23 | 60,000 | 60,000 |
| | | | 2023-24 | — | — |
| | | | 2024-25 | — | — |
| **Y Gymraeg ac Addysg** | | | | | |
| Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018[14] | 5115 (Anghenion Dysgu Ychwanegol) | Medi 2021 – Awst 2024 | 2022-23 | — | 6,936,000 |
| | | | 2023-24 | — | 6,936,000 |
| | | | 2024-25 | — | 6,936,000 |
| Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021[15] | Diwygio'r Cwricwlwm 5167 Cwricwlwm ac Asesu 5162 Cymwysterau Cymru 5166 Datblygiad a Chymorth i Athrawon 4880 | Ebrill 2021 – Medi 2026 | 2022-23 | 23,600,000 to 33,830,000 | 35,048,000 |
| | | | 2023-24 | 20,080,000 to 23,340,000 | 34,518,000 |
| | | | 2024-25 | 19,120,000 to 20,700,000 | 30,933,000 |

[13]Oherwydd oedi o ran ei gweithredu, mae'r costau disgwyliedig wedi'u hailbroffilio i'r blynyddoedd presennol a'r blynyddoedd i ddod.
[14]Bydd y cyfnod gweithredu yn para'n hirach nag a ragwelwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.
[15]Mae'r symiau a neilltuwyd yn y Gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23 ymlaen yn parhau i gynnwys amcangyfrifon ar gyfer costau ychwanegol Cymwysterau Cymru ar gyfer cymwysterau newydd, ynghyd â darpariaeth o £15m ar gyfer Dysgu Proffesiynol ochr yn ochr â llinellau sylfaen cyllideb Diwygio'r Cwricwlwm – yn ogystal â darpariaeth ychwanegol i gefnogi lles a chynnydd dysgwyr sy'n cael ei dyrannu yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23 (£5.33m (2022-23), £5m (2023-24) a £1.66m (2024-25).

## Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020

1. Diben y Ddeddf yw diddymu amddiffyniad y gyfraith gyffredin o gosb resymol fel nad yw bellach ar gael yng Nghymru i rieni na'r rhai sy'n gweithredu in loco parentis fel amddiffyniad i ymosod ar blentyn neu ei guro. Bwriad y ddeddf yw cefnogi hawliau plant drwy wahardd defnyddio cosb gorfforol, drwy ddileu'r amddiffyniad hwn. Effaith fwriadedig y Ddeddf, ynghyd ag ymgyrch codi ymwybyddiaeth a chefnogaeth i rieni, yw sicrhau gostyngiad pellach yn y defnydd a'r goddefgarwch o gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru.

### Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

2. Ar draws ei hystod eang o ddarpariaethau, bydd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn gwneud cyfraniad pwysig at iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi mesurau amddiffyn pwysig yn eu lle ar gyfer y cyhoedd, gan gynnwys ymestyn y gofynion di-fwg i rai mannau agored penodol, cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer gweithdrefnau arbennig yn ogystal â gwahardd rhoi twll mewn rhannau personol o gyrff unrhyw un dan 18 oed. Mae'r Ddeddf hefyd yn ceisio mynd i'r afael â materion pwysig eraill ym maes iechyd y cyhoedd, gan gynnwys gordewdra a chynllunio toiledau i'w defnyddio gan y cyhoedd.

### Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

3. Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn set o ddarpariaethau sy'n darparu fframwaith deddfwriaethol diwygiedig ac wedi'i symleiddio ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal a chymorth yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn cynnig cyflwyno newidiadau a fydd yn:

    - diwygio'r drefn reoleiddio ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth;
    - darparu fframwaith rheoleiddio sy'n galw am ddull gweithredu o ran rheoleiddio gwasanaethau gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau;
    - diwygio'r drefn arolygu ar gyfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol;
    - ailsefydlu ac ailenwi Cyngor Gofal Cymru yn Gofal Cymdeithasol Cymru ac yn ehangu ei gylch gorchwyl;
    - diwygio rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol.

### Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) (2018)

4. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer isafbris ar gyfer gwerthu a chyflenwi alcohol yng Nghymru gan bobl benodol ac mae'n ei gwneud yn drosedd i alcohol gael ei werthu neu ei gyflenwi am bris is na'r pris hwnnw.

5. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer:

- y fformiwla ar gyfer cyfrifo'r isafswm pris cymwys am alcohol trwy luosi cryfder canran yr alcohol, ei gyfaint a'r isafbris uned (MUP);
- pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth i bennu'r MUP;
- sefydlu trefn orfodi dan arweiniad awdurdodau lleol gyda phwerau i ddod ag erlyniadau;
- pwerau mynediad i swyddogion awdurdodedig awdurdod lleol, trosedd o rwystro swyddog awdurdodedig a'r pŵer i gyhoeddi hysbysiadau cosb benodedig (FPNs).

6. Mae'r Ddeddf yn cynnig y byddai'r MUP yn cael ei bennu yn y rheoliadau. Fodd bynnag, at ddibenion asesu'r effeithiau a'r costau a'r manteision cysylltiedig, mae'r Memorandwm Esboniadol yn defnyddio MUP o 50c fel enghraifft.

## Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020

7. Mae'r Ddeddf yn fecanwaith ar gyfer gwella a diogelu iechyd, gofal a llesiant poblogaeth Cymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, gan adeiladu ar yr asedau sydd gennym yng Nghymru i gryfhau a diogelu ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn hefyd yn hwyluso llais cryfach gan ddinasyddion, gan wella atebolrwydd gwasanaethau i ddarparu gwell profiad ac ansawdd gofal i bobl yng Nghymru a chyfrannu at wlad iach a ffyniannus. Gyda'i gilydd, bwriedir i'r darpariaethau fod o fudd cadarnhaol cronnol i boblogaeth Cymru a sefydlu amodau sy'n ffafriol i wella iechyd a lles. Mae'r Ddeddf yn cynnig cyflwyno newidiadau a fydd yn:

- rhoi ystyriaethau ansawdd wrth wraidd yr holl gyrff GIG yng Nghymru a Gweinidogion Cymru (mewn perthynas â'u swyddogaethau iechyd);
- gosod dyletswydd gonestrwydd ar holl gyrff y GIG ar lefel sefydliadol, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn agored ac yn onest pan aiff pethau o chwith. Mewn perthynas â dyletswydd gonestrwydd diffinnir cyrff y GIG fel byrddau iechyd lleol, Ymddiriedolaethau, Awdurdodau Iechyd Arbennig (gan gynnwys Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG mewn perthynas â'i swyddogaethau Cymreig) a darparwyr gofal sylfaenol yng Nghymru mewn perthynas â'r gwasanaethau GIG y maent yn eu darparu;
- cryfhau llais dinasyddion ar draws iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan gysylltu pobl ymhellach â'r sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau iddynt;
- cryfhau'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG.

## Tai a Llywodraeth Leol

### Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

8. Yr hyn sydd wrth wraidd y Ddeddf yw'r ‘contractau meddiannaeth’ newydd. Heblaw ychydig o eithriadau cyfyngedig, mae'r Ddeddf yn cyflwyno dau fath o gontract meddiannaeth yn lle'r holl denantiaethau a thrwyddedau presennol:

   - contract diogel – sy’n seiliedig ar y denantiaeth ddiogel a roddir gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd; a
   - contract safonol – sy’n seiliedig ar y denantiaeth fyrddaliadol sicr a ddefnyddir yn y sector rhentu preifat yn bennaf.

9. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid roi datganiad ysgrifenedig o'r contract meddiannaeth sy'n amlinellu yn eglur hawliau a chyfrifoldebau landlordiaid a'r rheini sy'n rhentu oddi wrthynt. Bydd isafswm cyfnod meddiannaeth o chwe mis yn cael ei gynnal gan y Ddeddf a bydd rhaid i landlordiaid sicrhau bod yr eiddo’n addas i bobl fyw ynddo. Mae’r Ddeddf hefyd yn helpu i amddiffyn pobl rhag cael eu troi allan ddim ond am eu bod wedi cwyno am gyflwr eiddo.

10. Bydd pobl sy’n eu cael eu hunain mewn amgylchiadau anodd hefyd yn cael budd o’r Ddeddf. Bydd yn helpu i atal sefyllfaoedd cyfredol o ddigartrefedd lle bydd cyd-denant yn ymadael â'r denantiaeth, gan derfynu’r denantiaeth i bawb arall. Bydd y dull newydd o ran contractau ar y cyd hefyd yn helpu dioddefwyr cam-drin domestig drwy alluogi’r unigolyn sy’n cyflawni camdriniaeth ddomestig i gael ei dargedu ar gyfer ei droi allan.

## Addysg

### Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

11. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn disodli’r fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig cyfredol gyda system ddiwygiedig ar sail Anghenion Dysgu Ychwanegol.

12. Mae’r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer Cynlluniau Datblygu Unigol cyffredinol, statudol ar gyfer yr holl blant a’r bobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd hyn yn rhoi diwedd ar y gwahaniaeth presennol rhwng ymyriadau sy’n cael eu harwain gan yr ysgol a datganiadau a gyhoeddir gan awdurdodau lleol ac fe fydd yn integreiddio’r trefniadau deddfwriaethol ar wahân sy’n bodoli ar gyfer disgyblion mewn ysgolion a myfyrwyr ôl-16 mewn colegau. Mae’r Ddeddf hefyd yn gobeithio gwella cydweithrediad rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd, yn ogystal â sefydlu system decach a mwy tryloyw gyda mwy o bwyslais ar osgoi anghytundeb a datrys anghydfodau.

### Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

13. Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd diwygiedig i helpu i roi’r cwricwlwm a’r trefniadau asesu newydd ar waith yn rhan o raglen ehangach i ddiwygio addysg yng Nghymru.

## Atodiad H: Rhestr o dermau technegol

| | |
|---|---|
| **Cam Gweithredu** | *O fewn pob Maes Rhaglen Wariant, dyrennir cyllidebau i nifer o is-raglenni a elwir yn Gamau Gweithredu.* |
| **Cwmpasoedd** | *Disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi gan Senedd Cymru i wario adnoddau arnynt. Mae disgrifiadau o'r cwmpasoedd a'r terfynau o ran adnoddau wedi'u cynnwys yng nghynnig y Gyllideb flynyddol. Mae'r cwmpasoedd yn cyfateb i'r Prif Grwpiau Gwariant.* |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | *Gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amlflwyddyn yn yr un ffordd â DEL, ac sydd felly'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac adroddiad rhag-gyllidebol Trysorlys EM. Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol, fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr neu'n ymateb i'r galw, er enghraifft benthyciadau i fyfyrwyr.* |
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)** | *O fewn pob Cam Gweithredu caiff cyllidebau eu dyrannu i nifer o is-grwpiau gwariant a elwir yn BEL. Mae tablau sy'n dangos y cyllidebau ar lefel BEL ar gael yn: http://gov.wales/funding/budget/?lang=cy* |
| **Fformiwla Barnett** | *Y fformiwla a ddefnyddir gan lywodraeth y DU i gyfrifo newidiadau i'r grant bloc a ddyrennnir i Lywodraeth Cymru (ac i'r gweinyddiaethau datganoledig eraill). Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr un newidiadau i gyllid y pen o'r boblogaeth a'r hyn a gyhoeddir yn Lloegr ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u datganoli i Gymru. Fel rhan o'r fframwaith cyllidol y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth y DU yn 2016, caiff ffactor sy'n seiliedig ar anghenion ei gymhwyso i ddyraniadau fformiwla Barnett i Gymru. Ar hyn o bryd mae hwn wedi'i osod ar bump y cant yn ychwanegol.* |
| **Cynnig y Gyllideb** | *Y dull a ddefnyddir gan Senedd Cymru i roi awdurdod i Weinidogion Cymru wario adnoddau hyd at lefel benodol ar ddibenion penodedig ac i dynnu arian parod hyd at derfyn penodol o Gronfa Gyfunol Cymru.* |
| **Cyfalaf** | *Gwariant sy'n arwain yn bennaf at ased ffisegol, er enghraifft adeilad newydd. Mae cyfran o'r DEL Cyfalaf yn cynnwys cyfalaf trafodiadau ariannol.* |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)** | *Terfyn y gyllideb amlflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennwyd gan Drysorlys EM. Caiff y DEL ei gynllunio a'i reoli ar sail amlflwyddyn mewn Adolygiadau o Wariant. Mae gan gyllidebau DEL ac AME Llywodraeth Cymru derfynau gwahanol ar gyfer cyfalaf ac adnoddau.* |
| **Dibrisiant** | *Y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed a'r ffaith ei fod wedi darfod. O ran cyllidebu adnoddau, mae dibrisiant yn rhan o DEL Llywodraeth Cymru ond mae'n eitem DEL adnoddau anghyllidol.* |
| **Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru** | *Gwariant y mae'n ofynnol yn gyfreithiol gofyn i Gronfa Gyfunol Cymru ei dalu'n uniongyrchol ac felly nad yw'n sgorio yn erbyn cyllidebau Llywodraeth Cymru nac unrhyw gorff arall. Ymhlith y costau uniongyrchol mae cyflog y Llywydd a'r Archwilydd Cyffredinol.* |
| **Cyfalaf Trafodiadau Ariannol** | *Mae cyfalaf trafodiadau ariannol yn rhan o'r setliad DEL cyfalaf, a dim ond at ddibenion benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti i drydydd partïon y gellir eu defnyddio. Ar y cyfan, rhaid ad-dalu'r cyllid i Drysorlys Ei Mawrhydi.* |
| **DEL Adnoddau Ariannol** (arferid *cyfeirio atynt fel 'adnoddau nad ydynt yn arian parod')* | *Y gyllideb DEL Adnoddau Ariannol sy'n dangos y rhan fwyaf o wariant cyfredol yr adran. Caiff y gwariant ei gofnodi ar sail croniadau. Mae'n cynnwys gwariant ar gyflogau, caffael cyfredol, grantiau adnoddau a chymorthdaliadau.* |

| | |
|---|---|
| ***Prif Grŵp Gwariant (MEG)*** | *Caiff DEL Llywodraeth Cymru ei rannu'n nifer o Brif Grwpiau Gwariant. Ceir wyth o Brif Grwpiau Gwariant ar hyn o bryd: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Cyllid a Llywodraeth Leol; Y Gymraeg ac Addysg; Newid Hinsawdd; yr Economi; Materion Gwledig; Cyfiawnder Cymdeithasol; a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.* |
| ***DEL Adnoddau Anghyllidol*** *(gynt: 'adnoddau nad ydynt yn arian parod')* | *Y gyllideb DEL Adnoddau Anghyllidol sy'n dangos gwariant cyfredol yr adran mewn perthynas ag amhariad benthyciadau myfyrwyr a dibrisiant. Mae'r DEL Adnoddau Anghyllidol wedi'i glustnodi ac ni ellir ei ddefnyddio i gyllido gwariant DEL adnoddau cyllidol.* |
| ***Derbyniadau*** | *Mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth Cymru yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu cynrychioli yn y gyllideb fel ffigurau negyddol.* |
| ***Cyllidebu adnoddau*** | *Mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i phennu ar sail adnoddau sy'n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae'r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Felly, er enghraifft, mae cyllideb adnoddau yn cynnwys ffi am ddibrisiant, ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliwyd.* |
| ***Adnoddau*** *(arferid cyfeirio atynt fel 'refeniw')* | *Gwariant cyfredol, er enghraifft arian i dalu cyflog gweithwyr y sector cyhoeddus ac i brynu nwyddau a gwasanaethau traul.* |
| ***Adolygiad o Wariant*** | *Bob dwy neu dair blynedd mae Trysorlys ei Mawrhydi yn adolygu gwariant pob un o adrannau llywodraeth y DU ac yn pennu cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Mae cyllidebau ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn deillio o'r cyllidebau hyn drwy gyfrwng Fformiwla Barnett. Dyma'r dull a ddefnyddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi i gyfrifo'r gwariant cyhoeddus a ddyrennir i Gymru i adlewyrchu'r newidiadau yn lefelau'r gwariant a ddyrennir i wasanaethau cyhoeddus yn Lloegr.* |
| ***Cylch Gwario*** | *Mae'r Cylch Gwario yn broses a arweinir gan Drysorlys y DU i ddyrannu adnoddau ar draws holl adrannau'r llywodraeth, yn ôl blaenoriaethau'r Llywodraeth. Nid yw'n cynnwys diwygio rhagolygon treth.* |
| ***Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)*** | *Cyfanswm rheoli gan Drysorlys EM yw hwn ac mae'n cynnwys y Cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol yn ogystal â'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol.* |
| ***Cronfa wrth Gefn Cymru*** | *2018 Mae Cronfa wrth Gefn Cymru ar waith ers mis Ebrill 2018 fel arf newydd sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i reoli ei dros gyfnod o flynyddoedd. Bydd modd i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r Gronfa i gynilo'r refeniw a fydd yn weddill o'r trethi datganoledig a'r tanwariant ar y Terfyn Gwariant Adrannnol, i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Bydd modd i'r Gronfa gadw hyd gyda chyfyngiad defnyddio blynyddol o £125m ar gyfer adnoddau £50m ar gyfer cyfalaf. Ni fydd cyfyngiad blynyddol ar yr arian a delir i mewn i'r Gronfa* |
| ***Cronfa Gyfunol Cymru*** | *Y cyfrif sy'n derbyn yr arian sydd i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd, yr Archwilydd Cyffredinol, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn unol â phleidlais Senedd y DU.* |
| ***CNLlC*** | *Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, er enghraifft Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.* |